



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan

Arweinlyfr gweithredol i'r Gwasanaeth Lles Addysg

All Wales Attendance Framework

An operating toolkit for the Education Welfare Service



ISBN 978 0 7504 5873 3

© Hawlfraint y Goron 2011

© Crown copyright 2011

WAG 10-10733

F1181011

Tabl Cynnwys

Rhagair

Datganiad Cenhadaeth ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg	v
Y pecyn cymorth	v

Adran 1: Canllawiau a Safonau

Rhan 1: Y Gwasanaeth Lles Addysg

a. Rôl y Gwasanaeth Lles Addysg	1
b. Gwerthoedd ac egwyddorion y Gwasanaeth Lles Addysg	2
c. Ymsefydlu a Hyfforddiant mewn Swydd a argymhellir	3
d. Gweithio gydag ysgolion	4
e. Ymgysylltu a gweithio gyda rhieni	6
f. Cytundebau Lefel Gwasanaeth	7
g. Cadw cofnodion	7
h. Y broses atgyfeirio	8

Rhan 2: Canllawiau ar y pwerau cyfreithiol i Sicrhau Presenoldeb Rheolaidd yn yr Ysgol yng Nghymru

a. Diffiniadau	13
b. Swyddogaethau a chyfrifoldebau	14
Rhiant	14
Ysgol	14
Awdurdod lleol	15
c. Gorchmynion Mynychu'r Ysgol (SAO)	15
d. Methu cydymffurfio â Gorchmyn Mynychu'r Ysgol	18
e. Gorchmyn Goruchwyliaeth Addysg	19
f. Methu sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol - adran 444(1)	21
g. Methu sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol - adran 444(1A)	22
h. Methu sicrhau presenoldeb rheolaidd mewn darpariaeth amgen - adran 444(ZA)	23
i. Contractau Rhianta	24
j. Gorchmynion Rhianta	26
k. Addasiadau i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Chontractau Rhianta a Gorchmynion Rhianta	28
l. Canllawiau a pholisïau erlyn	29
m. Penderfyniad i erlyn	29
n. Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)	31

o. Datgeliad	35
p. Y broses erlyn	36
q. Y dewisiadau dedfrydu sydd ar gael i'r llys	38
r. Eithriadau: Yr elfennau cyfreithiol	40

Rhan 3: Dadansoddi Data Presenoldeb

a. Codau presenoldeb ysgol	41
b. Gwybodaeth ystadegol	43
c. Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	43
d. Dadansoddiad	44
e. Dosbarthu data	47
f. Dull Hunanwerthuso - Rhestr Wirio Arferion Presenoldeb Da	48

Rhan 4: Gweithdrefnau a Gweithredu Ymarferol

a. Diogelwch ac amddiffyn plant	53
b. Cyflogaeth / Perfformiadau	54
c. Plant sy'n colli addysg	60
d. Plant Sipsiwn a Theithwyr	60
e. Canllawiau arfer da ar gyfer Cyrchoedd Triwantiaid	61
f. CAMHS	72
g. Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN)	73
h. Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (YJS)	73
i. Gwyliau teuluol yn ystod y tymor	74
j. Teithiau tramor estynedig	75
k. Absenoldeb am resymau meddygol dibwys	76
l. Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC)	77
m. Addysg yn y cartref o ddewis	78
n. Eiriolaeth	80
o. Gwaharddiadau anghyfreithlon	80
p. Cyfrinachedd / Cwynion	82

Adran 2: Deunydd Enghreifftiol

Tabl Cynnwys
CD

Adran 3: Strategaethau i Ysgolion Wella Presenoldeb a Rheoli Diffyg Prydlondeb

Rhagair

1. Mae polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Credwn ei bod yn hanfodol bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i ddarpariaeth a chyfleoedd dysgu priodol ac effeithiol. Mae angen i unrhyw rwystrau i ddysgu gael eu nodi'n gynnar a'u dileu fel y gall plant a phobl ifanc ymgysylltu â'r ddarpariaeth addysg sydd ei hangen arnynt er mwyn cyflawni eu potensial llawn.
2. Mae'n debygol y bydd lefelau presenoldeb gwael yn cael effaith negyddol ar lwyddiant plentyn yn yr ysgol. Hwyrach na fydd y plant nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd yn gallu cwblhau eu gwaith ar amser ac, yn ystod diwrnod ysgol prysur, gall ysgolion weithiau ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r amser ychwanegol sydd ei angen i helpu plentyn i ddal i fyny. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod plant nad ydynt yn yr ysgol yn fwy agored i niwed, yn fwy tebygol o droseddu ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith ar ôl gadael yr ysgol.
3. Mae gwella ymddygiad a phresenoldeb yn rhan annatod o'n mentrau addysgol ehangach fel y Cyfnod Sylfaen a Llwybrau Dysgu 14-19. Nod y mentrau hyn yw sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu hymddieithrio o addysg trwy sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas i'w hanghenion unigol.
4. Mae presenoldeb yng nghyd-destun y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn allweddol o ran gwella'r ysgol gyfan, ac mae ganddo berthynas uniongyrchol gref â chyrhaeddiad unigolion a grwpiau o fyfyrwyr a'r safonau a gyflawnir yn sgil hynny gan yr ysgol. Trwy'r broses hunanwerthuso, gellir asesu a gwella strategaethau presenoldeb.
5. Ym mis Mawrth 2009, aethom ati i gyhoeddi Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb. Trwy'r Cynllun Gweithredu, ein nod yw creu diwylliant o ymyrraeth gynnar, cymorth effeithiol a ffyrdd o ymgorffori a rhannu arferion da i hyrwyddo presenoldeb ac ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion ledled Cymru.
6. Un o'r camau allweddol yn y Cynllun oedd cynhyrchu Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Lles Addysg (EWS). Mae'r ddogfen hon yn darparu safonau a chanllawiau ar gyfer ymarferwyr i sicrhau mwy o gysondeb o ran ymarfer ledled Cymru. Ei nod hefyd yw galluogi'r EWS ac ysgolion i ddarparu gwasanaethau sy'n gyson, yn hygyrch ac o safon uchel. Yn anad dim, gall staff sy'n gweithio yn yr EWS ddefnyddio'r ddogfen fel pecyn cymorth adnoddau ymarferol.

7. Mae'r ddogfen hon yn manteisio ar brofiad, gwybodaeth ac arbenigedd cydweithwyr o bob cwr o Gymru sydd wedi'u tynnu ynghyd gan weithgor o reolwyr canlynol y Gwasanaethau Lles Addysg:

Gerwyn Matthews	Wrecsam
John Gould	Castell-nedd Port Talbot
Jackie Morton	Rhondda Cynon Taf
John Jenkins	Caerdydd
Noella Roberts	Conwy

8. Mae'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r dogfennau canlynol yn ategu'r holl wybodaeth a'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn cymorth hwn:

- Deddf Addysg 1996
- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
- Cod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru 2004
- Y Wlad sy'n Dysgu a'r Wlad sy'n Dysgu II: Gweledigaeth ar Waith, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006)
- Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
- Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005)
- Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc
- Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)
- Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 47/2006
- Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 001/2004
- Gwella Presenoldeb 2006, Estyn
- Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009
- Gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl, Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, 2009.

9. Fel rhan o ddatblygiad y pecyn cymorth penderfynodd y gweithgor ei bod yn bwysig cynnwys datganiad cenhadaeth sy'n nodi gweledigaeth a gwerthoedd y Gwasanaeth Lles Addysg yn glir. Mae'r gweithgor yn cynnig y datganiad canlynol y gallech ei fabwysiadu.

Datganiad Cenhadaeth ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg

10. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg (EWS) yn ceisio darparu cymorth proffesiynol o safon i blant, pobl ifanc, teuluoedd ac ysgolion fel y gall plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru elwa ar y cyfleoedd addysgol a ddarperir ar eu cyfer.
11. Bydd y Gwasanaeth yn ymchwilio i'r rhesymau dros absenoldeb o'r ysgol, yn cynnig gwybodaeth a chanllawiau, yn cynnal ymyriadau a fydd wedi'u trefnu, yn rhoi cyngor i deuluoedd ar wasanaethau cymorth arbenigol ac yn gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau priodol yn ôl y gofyn.
12. Cred y Gwasanaeth fod plant a phobl ifanc yn unigolion a bod ganddynt hawl i gyfle cyfartal, beth bynnag fo'u gallu, hil, diwylliant, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu gefndir cymdeithasol.
13. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod hwyrach y bydd angen cymorth ychwanegol ar adegau yn achos plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a theuluoedd dan anfantais gymdeithasol.
14. Bydd y Gwasanaeth yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau eraill i helpu pob plentyn ac unigolyn ifanc, gyda phwyslais penodol ar faterion amddiffyn plant.

Y Pecyn Cymorth

15. Mae'r pecyn cymorth hwn mewn 3 adran:

Mae **Adran 1** yn cynnwys canllawiau a safonau sy'n crynhoi rôl a chyfrifoldeb yr EWS.

Mae **Adran 2** yn cynnwys CD gyda deunydd enghreifftiol wedi'i gasglu gan awdurdodau lleol ledled Cymru a'r DU. Nid oes rhaid defnyddio'r deunyddiau hyn, ond hwyrach y byddant yn ddefnyddiol fel templedi fel y gallwch greu dogfennau newydd neu addasu'ch dogfennau cyfredol.

Mae **Adran 3** yn cynnwys canllaw arfer da i ysgolion gyda strategaethau ac astudiaethau achos i helpu i wella presenoldeb a rheoli diffyg prydlondeb.



Adran 1: Canllawiau a Safonau

Rhan 1: Y Gwasanaeth Lles Addysg

Nod y rhan hon yw:

- diffinio rôl a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth Lles Addysg (EWS)
- diffinio rôl rhieni
- diffinio rôl ysgolion; ac
- amlinellu'r broses atgyfeirio.

a. Rôl y Gwasanaeth Lles Addysg

Crynodeb

16. Mae'r EWS yn darparu cymorth i ysgolion, disgyblion a rhieni i sicrhau presenoldeb rheolaidd ac i ddatrys problemau sy'n ymwneud ag absenoldeb. Mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu ag asiantaethau eraill ac yn darparu cysylltiad pwysig rhwng y cartref a'r ysgol, gan helpu rhieni ac athrawon i weithio mewn partneriaeth fel y gall disgyblion elwa ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael yn lleol.
17. Weithiau, cyfeirir at Swyddogion Lles Addysg (EWO) fel Gweithwyr Cymdeithasol Addysg. Yn y ddogfen hon, defnyddir EWO ar gyfer y swydd hon.
18. Mae'r EWS yn gweithredu ar ran yr awdurdod lleol gan orfodi dyletswydd rhiant i ddarparu addysg briodol. Prif swyddogaeth yr EWS yw gwella presenoldeb cyffredinol a lleihau absenoldeb parhaus ym mhob ysgol a darpariaeth addysg amgen. Fodd bynnag, mewn sawl achos, mae'r EWS hefyd yn cyflawni dyletswyddau cysylltiedig eraill, gan gynnwys:
 - rheoleiddio cyflogaeth plant a thrwyddedau perfformio ar gyfer plant o oedran ysgol;
 - helpu i drefnu darpariaeth addysgol amgen ar gyfer disgyblion unigol;
 - cynghori ar blant yn cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol; a
 - chynghori ar ddiogelu plant mewn addysg.
19. Prif rôl yr EWS yw:
 - cyfrannu at ymdrech yr awdurdod lleol a'r ysgol i sicrhau effeithiolrwydd ysgolion;
 - gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, disgyblion, rhieni a chymunedau i sicrhau hawl i addysg a phresenoldeb rheolaidd; ac
 - ymgysylltu â rhwydwaith o asiantaethau sy'n darparu addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer unigolion ag anghenion penodol.
20. Y nod yw gwneud hyn trwy:
 - hyrwyddo a chefnogi polisiâu presenoldeb ysgol gyfan;
 - darparu cyngor ar arferion da sydd wedi ennill eu plwyf;
 - gweithio gyda staff yr ysgol, disgyblion, rhieni a phobl berthnasol eraill ar raglenni i geisio gwella lefelau presenoldeb;

- cyflawni gwaith unigol gyda disgyblion;
- cyflawni gwaith sy'n canolbwyntio ar y teulu;
- datblygu gwaith grŵp gyda disgyblion a rhieni; a
- chychwyn ar gamau statudol ar ran yr awdurdod lleol.

21. Dim ond yr Awdurdod Lleol all gymryd camau cyfreithiol i orfodi presenoldeb.

b. Gwerthoedd ac egwyddorion y Gwasanaeth Lles Addysg

Diben

- Helpu rhieni, ysgolion a'r awdurdod lleol i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â deddfwriaeth berthnasol.
- Galluogi a gwella cyfathrebu effeithiol rhwng ac o fewn teuluoedd, ysgolion, asiantaethau a gwasanaethau eraill a'r gymuned ehangach.
- Meithrin a chynnal amgylchedd lle gall aelodau'r EWS gyflawni'r egwyddorion hyn.

Hawliau'r Unigolyn

- Cydnabod hawliau'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gael mynediad i gyngor a chymorth gan yr EWS wrth ddefnyddio'r gwasanaethau y mae ganddynt yr hawl iddynt.
- Gweithredu fel eiriolwr, lle bo'n briodol, ar ran plant, pobl ifanc a theuluoedd pan fyddant yn ceisio cael mynediad i'r gwasanaethau y mae ganddynt yr hawl iddynt.

Cyfrinachedd

- Cynnal hyder a chyfranogiad yn y gwasanaethau, gan helpu i ddiogelu addysg a lles plant. Fodd bynnag, gellir torri cyfrinach pan fydd hyn er lles y plentyn a'r cyhoedd.
- Cynnal perthnasoedd gwaith gyda phlant, pobl ifanc a rhieni mewn ffordd agored a gonest fel y gellir rhannu gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi'n gywir.

Arferion gwrthwahanïaethol

- Darparu cymorth yr EWS mewn ffordd deg yn ôl yr angen, beth bynnag fo hil, diwylliant, crefydd, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, cefndir cymdeithasol neu anghenion dysgu ychwanegol yr unigolyn.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar y gwaith.
- Mynd i'r afael â gwahaniaethu pryd bynnag y bo'n codi.

Rheoli gwybodaeth

- Sicrhau agwedd gydgysylltiedig a chyson at systemau atgyfeirio, cofnodi ac adrodd.
- Cydnabod yr angen am wrthrychedd, cywirdeb a chyfrinachedd lle bo'n briodol.
- Cydnabod gofynion y deddfwriaeth a'r egwyddorion sylfaenol yn ymwneud â diogelu data, mynediad i ffeiliau personol a chofnodion disgyblion.

- n. Casglu, dehongli a chyflwyno data ar faterion yn ymwneud ag agweddau perthnasol ar waith yr EWS ac wedyn ei ddefnyddio i gynllunio a rheoli gwaith yr EWS.

Rheoli achosion a llwyth gwaith

- o. Sefydlu polisi rheoli achosion sy'n ymgorffori system atgyfeirio ffurfiol.
- p. Sefydlu system rheoli achosion sy'n ymgorffori asesu, cynllunio, monitro a gwerthuso.
- q. Sefydlu a chynnal systemau clir ar gyfer asesu, cynllunio, monitro a gwerthuso llwythi gwaith, gan gynnwys hunanwerthuso, arfarnu ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
- r. Sefydlu mynediad i oruchwyliaeth a chymorth effeithiol gan reolwr llinell.
- s. Sefydlu system ar gyfer cau achosion.

Ymyrraeth

- t. Hwyluso'r broses ymyrraeth trwy gynnal asesiad llawn o anghenion ac ystyried yr adnoddau a'r dulliau sydd ar gael.
- u. Gwneud defnydd priodol o drafodion cyfreithiol fel rhan o ymyrraeth arfaethedig.
- v. Grymuso teuluoedd pan fyddant yn ceisio datrys eu hanawsterau eu hunain.
- w. Helpu plant a phobl ifanc i fanteisio'n llawn ar eu cyfleoedd addysgol.

Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

- x. Sicrhau gwasanaeth cymwys trwy gefnogi cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol¹.

c. Ymsefydlu a Hyfforddiant mewn Swydd a argymhellir

22. Mae'n bwysig bod pob aelod newydd o staff yn teimlo'n rhan o'r tîm ac yn cael ei gefnogi yn ei swydd. Yn ystod y cyfnod ymsefydlu, dylid:-
- egluro'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau yn y gwasanaeth lles
 - dechrau ar y broses o nodi anghenion dysgu / datblygu mewn perthynas â'r swydd; ac
 - amlinellu sut mae'r swydd yn cyfrannu at y gwasanaeth a sut mae'n berthnasol i flaenoriathau ac amcanion cyffredinol yr awdurdod lleol.
23. Anogir aelodau newydd o staff i gysgodi cydweithwyr fel y gallant gael eu cyflwyno i'r swydd a chael cymorth parhaus aelod o'r tîm.
24. Anogir unigolion i gymryd rhan mewn rhaglenni Hyfforddiant mewn Swydd ac i fynyachu cyrsiau arbenigol perthnasol. Weithiau, bydd hyfforddiant yn orfodol. Anogir hyfforddiant amlasiantaethol aml, yn enwedig mewn partneriaeth â chydweithwyr sy'n ymwneud â diogelu a chynnwys yn unol ag arfer da. Mae enghreifftiau o restr gwirio ar gyfer y broses o ymsefydlu staff newydd yn Adran 2.

¹ Yn 2010, bydd y Cynulliad yn dechrau gweithio gyda swyddogion yr EWS i greu strwythur hyfforddi a llwybr cymhwys a chynnydd ar gyfer yr EWS yng Nghymru.

d. Gweithio gydag ysgolion

25. Mae gan yr EWO ddwy rôl - mae'n ddarparwr gwasanaethau i ysgolion ac yn gyfryngwr rhwng y cartref a'r ysgol. Fel arfer, bydd gan ysgolion EWO penodol sydd â dyletswydd i ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac, fel arfer i gychwyn, bydd yn gweld y pennaeth neu'r pennaeth blwyddyn. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr ysgol gyfan yw sicrhau presenoldeb. Felly, dylai ysgolion ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cysylltu â'r EWO ac yn deall ei gyfrifoldebau yn yr ysgol. Ni ddylid ystyried mai dim ond staff bugeiliol ddylai weithio gyda'r EWO.
26. Mae amser yr EWO yn brin iawn. Felly, dylai ysgolion sicrhau bod trefniadau clir ar waith ynglŷn â sut a phryd y gwneir atgyfeiriad i'r EWS a sicrhau bod pob aelod staff yn deall y gweithdrefnau. Cyn atgyfeirio, mae'n rhaid i ddau beth ddigwydd:
 - dylai ysgol ddefnyddio ei holl weithdrefnau ei hun er mwyn delio ag absenoldeb;
 - dylid defnyddio ffurflen atgyfeirio bob amser fel bod yna gofnod ysgrifenedig o bresenoldeb y disgybl, ei brydlondeb, ei gryfderau a'i wendidau, ei berthynas gyda'i gyfoedion a'i athrawon, ei gysylltiad ag asiantaethau allanol nawr neu yn y gorffennol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall o gofnodion yr ysgol (mae templedi ar gyfer y ffurflen atgyfeirio yn Adran 2).

Cofrestr Presenoldeb yn yr Ysgol

27. Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion gofrestru presenoldeb disgyblion ddwywaith y dydd; ar ddechrau'r sesiwn fore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Hwyrach y gofynnir i'r ysgol gyflwyno'r gofrestr mewn llys fel tystiolaeth mewn achos am absenoldeb. Gall hefyd gyfrannu gwybodaeth at adroddiadau diwedd tymor, cofnodion cyrhaeddiad a geir daon disgyblion sy'n gadael. Mae system gofrestru gywir a chyson yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb a phrydlondeb gwael mewn ysgol. Mae'n hollbwysig bod disgyblion yn ymwybodol bod cofrestru'n rhan bwysig o'r diwrnod ysgol.
28. Dylai pob aelod staff sy'n rhan o'r broses gofrestru fod yn ymwybodol bod y gyfraith yn benodol ynglŷn â threfniadau cadw cofrestri. Mae marcio a chadw'r gofrestr yn bwysig dros ben.
29. Ystyr absenoldeb heb ei awdurdodi yw absenoldeb heb ei gymeradwyo gan un o gynrychiolwyr awdurdodedig yr ysgol, ac mae'n cynnwys pob absenoldeb heb esboniad. Bydd yna adegau pan fydd yr ysgol yn awdurdodi absenoldeb disgybl, ac felly ystyrir nad oes unrhyw drosedd wedi'i chyflawni. Felly, mae penderfyniad yr ysgol i awdurdodi neu wrthod awdurdodi absenoldeb yn ffactor hollbwysig wrth i'r awdurdod lleol benderfynu a yw am erlyn rhieni gan fod erlyniad yn bosibl ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig yn unig.

30. Mae'n bwysig bod ysgolion yn ofalus wrth awdurdodi absenoldeb. Os yw'r ysgol yn amau'r esboniad a roddir gan rieni, dylid ymchwilio ymhellach i'r absenoldeb a gwrthod ei awdurdodi hyd nes i'r mater gael ei ddatrys yn foddhaol yn nhyb yr ysgol. Mae penderfyniad yr ysgol i awdurdodi absenoldeb ai peidio yn ffactor hollbwysig wrth bennu i ba raddau y bydd yr EWS yn cymryd rhan. Os yw'r ysgol wedi awdurdodi absenoldeb disgybl, yn ôl y gyfraith ni fydd gan y rhieni achos i'w ateb.

Polisi Presenoldeb yn yr Ysgol

31. Anogir ysgolion i ddatblygu polisi ysgol gyfan ar bresenoldeb mewn ymgynghoriad â staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion, gan ystyried canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion ac arferion da a nodir gan yr awdurdod lleol. Dylai'r polisi hwn:
- roi blaenoriaeth uchel i bresenoldeb a phrydlondeb;
 - sicrhau cydymffurfriad â'r holl ofynion statudol;
 - sicrhau bod gwybodaeth glir yn cael ei chyfathrebu'n rheolaidd i rieni a disgyblion;
 - casglu data presenoldeb a gwneud defnydd effeithiol ac adeiladol ohono;
 - darparu canllawiau clir i staff ar y broses gofrestru a materion cysylltiedig fel categorreiddio absenoldeb yn briodol;
 - cynnwys gweithdrefnau clir i nodi ac ymchwilio i bob achos o absenoldeb a diffyg prydlondeb;
 - cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar;
 - gwneud darpariaeth ar gyfer cyswllt ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb;
 - monitro triwantiaeth ar ôl cofrestru trwy gymryd cofrestrï dosbarth a hapwiriadau;
 - bod yn wylidwrus ar adegau hollbwysig (e.e. trosglwyddo rhwng Cyfnodau Allweddol 2/3);
 - nodi amrywiaeth o strategaethau i fynd i'r afael ag absenoldeb / diffyg prydlondeb;
 - darparu hierarchaeth glir a dealladwy o gosbau;
 - datblygu cynlluniau cymell presenoldeb sy'n cydnabod cyraeddiadau presenoldeb disgyblion;
 - ystyried gosod targedau ar gyfer unigolion, dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn ac ati;
 - sefydlu gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac ailintegreiddio disgyblion sydd wedi bod yn absennol dros gyfnod hir;
 - darparu ar gyfer cyfarfodydd strwythuredig rheolaidd rhwng staff yr ysgol a'r EWO;
 - sicrhau bod yr ysgol yn cymryd camau rhesymol cyn gwneud atgyfeiriad priodol i'r EWO;
 - pwysleisio i rieni bwysigrwydd parhad dysgu, yn enwedig mewn perthynas â gwyliau teuluol yn ystod y tymor (prin yw'r absenoldeb ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor y dylai ysgolion ei ganiatáu);
 - defnyddio cyfleoedd fel nosweithiau rhieni a phrosbectws yr ysgol i atgoffa rhieni o bolisi'r ysgol ar bresenoldeb;
 - cynnwys llywodraethwyr;

- nodi uwch aelod staff allweddol â chyfrifoldeb cyffredinol dros bresenoldeb;
- sicrhau bod arferion da'n cael eu nodi a'u rhannu;
- cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd; a
- cymryd camau i greu diwylliant sy'n annog presenoldeb, gan fynd i'r afael ag achosion presenoldeb gwael yn yr ysgol fel bwlio, hiliaeth, y cwricwlwm ac ati.

e. Ymgysylltu a gweithio gyda rhieni

32. Mewn sawl ffordd, mae absenoldeb a gymeradwyir gan rieni'n anoddach i'w nodi nag unrhyw fath arall o absenoldeb. Mae'r math hwn o absenoldeb yr un mor niweidiol i brofiad addysgol y disgybl ag unrhyw fath arall o absenoldeb. Mewn llawer o achosion, mae'r rhieni'n teimlo eu bod yn cadw eu plentyn o'r ysgol am resymau dilys. Hwyrach y byddant yn teimlo eu bod yn diogelu eu plentyn. Pan fo staff yr ysgol yn teimlo bod yna batrwm o absenoldeb, mae'n hanfodol eu bod yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cymorth iechyd, cymdeithasol ac addysg i sicrhau bod yr ymyrraeth fwyaf priodol ac effeithiol ar gael i'r disgybl a rhieni.
33. Rheoli effeithiol yw'r conglfaen ar gyfer gweithio gyda rhieni. Dylai'r gwaith ymgysylltu fod yn seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion sy'n arwain gwaith yr EWS. Yr hyn sy'n hanfodol yw parch tuag at hawliau rhieni a chymorth i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau.
34. Hwyrach y bydd rhieni plant o wahanol ddiwylliannau'n teimlo nad yw'r ysgol yn amgylchedd diogel neu addas i'w plant. Mae'n hollbwysig bod ysgolion yn ymchwilio ac yn ceisio adnabod materion diwylliannol a all atal disgybl rhag mynychu'r ysgol. Mae yna wasanaethau cymorth a fydd yn cynorthwyo ac yn cynghori ysgolion a rhieni ar ffyrdd ymlaen pan fydd yr anawsterau hyn yn codi.
35. Mae prydlondeb disgybl yn ofyniad cyfreithiol ac mae rhieni / gofalwyr disgybl sy'n aml yn hwyr yn euog o drosedd. Mae'r gyfraith yn ystyried bod yn hwyr yn aml (ar ôl Cofrestru) yr un fath â phresenoldeb afreolaidd, a gall rhieni gael eu herlyn os na chaiff y broblem ei datrys.
36. Mae taflenni o'r enw "Is your child missing out?", sy'n darparu gwybodaeth am bresenoldeb i rieni mewn gwahanol ieithoedd, ar gael yn Adran 2.
37. Gall rhieni wneud llawer i wella presenoldeb a phrydlondeb eu plant. Dylai ysgolion a'r EWS weithio gyda rhieni i'w helpu a'u hannog i:
 - ddangos diddordeb ym mywyd a gwaith ysgol eu plentyn;
 - mynychu nosweithiau rhieni a digwyddiadau eraill yn yr ysgol lle bo'n bosibl;
 - sicrhau bod eu plentyn yn cwblhau ei waith cartref ac yn mynd i'r gwely ar adeg briodol;
 - bod yn ymwybodol o lythyrau y mae eu plentyn yn dod â nhw adref o'r ysgol gyda nhw;
 - sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol ar amser bob dydd;

- sicrhau nad yw eu plentyn yn colli ysgol oni bai bod rhesymau na ellir eu hosgoi neu resymau y gellir eu cyfiawnhau, fel salwch neu ddiwrnodau a neilltuir ar gyfer defodau crefyddol;
- rhoi gwybod i'r ysgol cyn gynted â phosibl - ar y bore cyntaf os yw'n bosibl - am unrhyw absenoldeb;
- cadarnhau hyn yn ysgrifenedig pan fo'r plentyn yn dychwelyd i'r ysgol;
- ceisio osgoi trefnu gwyliau teuluol yn ystod y tymor;
- siarad â'r ysgol os ydynt yn poeni efallai bod eu plentyn yn gyndyn i fynd i'r ysgol.

f. Cytundebau Lefel Gwasanaeth

38. Diben Cytundeb Lefel Gwasanaeth yw amlinellu cytundeb clir rhwng yr ysgol a Gwasanaeth Lles Addysg yr awdurdod lleol ar y camau i'w cymryd gan yr ysgol a'r EWS. Mae dogfennau o'r fath yn helpu i sicrhau dull cyson a dealltwriaeth gyffredin o pwy sy'n gwneud beth. Dylai awdurdodau lleol lunio Cytundebau Lefel Gwasanaeth sy'n amlinellu faint o gymorth y gall ysgolion ddisgwyl ei dderbyn yn seiliedig ar feini prawf clir, gan gynnwys staff penodol sy'n gyfrifol am bresenoldeb, ynghyd â chyfrifoldebau'r ysgol o ran atgyfeiriadau priodol ac amserol ac ati.
39. Ceir enghreifftiau o Gytundebau Lefel Gwasanaeth yn Adran 2.

g. Cadw cofnodion

40. Dylai EWOs gadw cofnod cywir a gwrthrychol o'u gwaith parhaus gyda defnyddwyr gwasanaethau, ynghyd â manylion atgyfeiradau a chanlyniadau.
41. Gall y defnydd o ffurflenni safonol helpu i hwyluso'r broses hon, a gallant gynnwys:
- ffurflen atgyfeirio;
 - ffurflen asesiad cychwynnol;
 - ffeil achos;
 - ffurflen crynodeb o gysylltiad;
 - cofnod o oruchwyliaeth; a
 - crynodeb terfynol

Ceir enghreifftiau o'r ffurflenni hyn yn Adran 2.

42. Mae llawer o waith yr EWO ar bresenoldeb yn ymwneud â'r fframwaith deddfwriaethol, a gall arwain at ddarparu gwybodaeth i'r llysoedd pan fydd camau cyfreithiol yn cael eu cymryd. O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, disgwylir y byddai adroddiadau y gofynnwyd amdanynt am blentyn neu deulu penodol yn cael eu trafod gyda nhw cyn eu cyflwyno. Mae'n hanfodol bod yr EWO yn cadw tystiolaeth ddogfennol o'r gwaith achos a gyflawnir.

h. Y broses atgyfeirio

43. Yn ystod yr ymweliad â'r ysgol, dylid dadansoddi'r data presenoldeb. Bydd gwybodaeth am yr absenoldebau'n ffactor wrth benderfynu a ddylid atgyfeirio i'r EWO. Cyn derbyn atgyfeiriad am waith mwy dwys, dylai EWO edrych am dystiolaeth bod yr ysgol wedi gwneud ymdrech i fynd i'r afael â'r mater presenoldeb trwy:
- gamau gweithredu gan y tiwtor dosbarth fel rhan o'i ddyletswyddau o ddydd i ddydd
 - cynnwys eraill yn yr ysgol e.e. Pennaeth Blwyddyn, Pennaeth ac ati; a
 - cysylltiad â rhieni.
44. Gall atgyfeiriadau gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- gwybodaeth am y disgybl e.e. enw, oedran, dyddiad geni, grŵp blwyddyn/ dosbarth, rhyw, tarddiad ethnig, iaith heblaw Saesneg/Cymraeg, gofynion unrhyw ddefodau crefyddol, cyfeiriad os yw'n wahanol i gyfeiriad rhieni/gofalwyr ac ati;
 - asesiad o'r disgybl gan yr ysgol e.e. gallu, hanes academiaidd, meysydd sy'n peri anhawster, rheswm dros atgyfeirio, manylion presenoldeb ac ati;
 - gwybodaeth am rieni/gofalwyr, gan gynnwys eu dyddiadau geni;
 - camau a gymerwyd gan yr ysgol i ddatrys anawsterau a chanlyniadau'r camau hyn;
 - gwybodaeth berthnasol arall yn ymwneud â ffactorau sy'n cyfrannu ac unrhyw unigolion/asiantaethau eraill sy'n rhan o'r gwaith;
 - materion risg e.e. materion diogelu, ymddygiad ymosodol neu drais yn y teulu neu gan ddisgybl; ac
 - unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r achos.
45. Dylid gwneud atgyfeiriadau pan fo:
- patrwm o bresenoldeb afreolaidd wedi datblygu;
 - cyfnod o absenoldeb hirdymor wedi sefydlu;
 - llythyrau a anfonwyd gan yr ysgol at y rhieni heb enyn fawr ddim ymateb os o gwbl;
 - diffyg cydweithrediad gan rieni i sicrhau presenoldeb rheolaidd plentyn;
 - patrwm o driwantiaeth ar ôl cofrestru yn parhau er gwaethaf ymdrechion yr ysgol i'w atal;
 - rhiant yn tynnu disgybl o'r ysgol ar ôl mynegi bwriad i'w addysgu gartref, ond nad yw wedi dadgofrestru'r plentyn yn ffurfiol trwy hysbysu'r awdurdod lleol;
 - disgybl yn cael ei dynnu o'r ysgol gan rieni sy'n symud i ardal arall ond nad yw'r ysgol yn derbyn cais am gofnodion y disgybl gan ysgol yn yr ardal newydd;
 - mae plentyn wedi cyrraedd cyrhaedd nod canran absenoldeb a osodir gan yr ysgol;
 - patrwm o ddiffyg prydlondeb cyson (ar ôl cau'r gofrestr) wedi datblygu;
 - materion lles penodol ac amlwg sy'n atal disgybl rhag cael mynediad i addysg; a

- pan fydd pryderon penodol yn ymwneud â materion amddiffyn plant, dylid atgyfeirio'r achosion hyn yn uniongyrchol i Swyddog Amddiffyn Plant yr ysgol.

Ymateb yr EWO i atgyfeiriad

46. Mae'n arfer da i'r EWO gynnal asesiad risg cyn ymweld â chartref. Dylai fod gan bob awdurdod lleol Brotocol Iechyd a Diogelwch staff sy'n amlinellu'r broses hon. Fel rhan o'r gwaith hwn, hwyrach y bydd hi'n ofynnol i'r EWO gasglu gwybodaeth gan staff yr ysgol, aelodau eraill o'r Gwasanaeth ac, os yw'n briodol, asiantaethau eraill, er enghraifft yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, CAMHS, seicolegydd addysg ac ati, cyn ymweld â'r cartref a chyfweld y rhieni. Ceir asesiadau risg enghreifftiol yn Adran 2.
47. Mae ymweliadau cartref yn gwneud cyfraniad pwysig a phriodol at effeithiolrwydd gwaith yr EWS. Dylai penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymweliadau cartref ystyried y rheswm dros yr ymweliad, asesiad o lefel a thebygolrwydd y risg a gwaith rheoli risg effeithiol. Mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb cyfreithiol dros iechyd a diogelwch gweithwyr cyflogedig. Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb dros ei ddiogelwch a'i les personol a diogelwch a lles aelodau staff eraill. Ceir polisi gweithio unigol enghreifftiol yn Adran 2.
48. Mae diben yr ymweliad cartref yn amrywio o achos i achos yn dibynnu ar amgylchiadau'r gwaith sy'n cael ei gyflawni. Mae'n bwysig bod staff yn cydnabod ac yn derbyn y gofyniad bod cysylltiad â phobl ifanc a'u rhieni / gofalwyr yn eu cartrefi ac mewn mannau eraill yn y gymuned yn elfen briodol a phwysig o ymateb y Gwasanaethau i deuluoedd.

Amserlen ar gyfer ymateb


49. Mae'n arfer da cynnal ymweliad o fewn 3 diwrnod gwaith i wneud atgyfeiriad a darparu ymateb ysgrifenedig ar y ffurflen atgyfeirio a'i thrafod gyda'r pennaeth/tiwtor blwyddyn o fewn 5 diwrnod gwaith. Lle na cheir ateb yn y cartref a lle nad yw'r rhieni wedi ymateb i gerdyn ymweld, dylid cymryd camau dilynol, naill ai'n ysgrifenedig (dylid cyflwyno copi o'r llythyr i'r ysgol), trwy ymweld â'r cartref gyda'r nos neu drwy gysylltu â'r rhieni yn y gwaith. Os na fydd presenoldeb y disgybl yn gwella ac os bydd pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni/gofalwyr yn methu, gellir cyflwyno rhybudd swyddogol.

Materion a nodir gan y teulu / camau penodol

50. Os yw salwch yn ffactor, bydd angen i'r EWO gadarnhau'r problemau meddygol a nodir gan y plentyn / rhiant (yn enwedig os oes sawl atgyfeiriad wedi'i wneud ac os mai salwch yw'r esboniad a roddir am yr absenoldeb). Os teimlir nad yw'r rhieni wedi gofyn am gymorth meddygol priodol a bod yr absenoldeb yn parhau, gyda chydweithrediad y rhieni, dylid gwneud atgyfeiriad i nyrs yr ysgol neu swyddog meddygol yr ysgol. Yn ogystal, os nodir salwch fel asthma ysgafn, meigrin neu boenau mislif fel y rheswm dros absenoldeb aml neu barhaus, hwyrach y bydd angen cael barn feddygol nyrs yr ysgol neu swyddog meddygol yr ysgol.

51. Yn achos anghenion dysgu ychwanegol neu broblemau'n ymwneud â ffobia neu wrthod mynd i'r ysgol, bydd angen i'r EWO ymgynghori â'r cydgysylltydd anghenion addysgol'r arbennig (SENCO) i ystyried atgyfeiriad i'r athro anghenion addysgol ymgynghorol neu'r seicolegwyr addysg priodol. Hefyd, hwyrach y bydd angen i'r EWO drafod gyda'r teulu a'r plentyn atgyfeiriad i'r CAMHS neu asiantaethau eraill os yw hynny'n briodol.
52. Os yw'r gwasanaethau cymdeithasol ynghlwm wrth y mater, bydd angen i'r EWO ymgysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol dynodedig i bennu meysydd o gyfrifoldeb ac i ystyried y posibilrwydd o ymweliad ar y cyd.
53. Yn dibynnu ar oedran, hwyrach y bydd angen i'r EWO drafod gyda'r teulu a'r ysgol ddewisiadau eraill, fel darpariaeth addysg amgen.
54. Bydd angen i'r EWO fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir gan y plentyn a/neu'r teulu sy'n ymwneud ag unrhyw anawsterau a all atal presenoldeb rheolaidd, er enghraifft bwlio, problemau gyda'r cwricwlwm, perthynas athro / disgybl, problemau domestig, cyni ariannol, camddefnyddio cyffuriau / alcohol ac ati, a llunio cynllun gweithredu gyda'r ysgol i ddatrys y problemau.
55. Mae asesu'n broses barhaus a hwyrach y bydd angen sawl ymweliad os bydd achosion cymhleth. Ar ôl yr asesiad cychwynnol, bydd yr EWO, mewn cydgysylltiad â staff yr ysgol ac asiantaethau eraill o bosibl, yn llunio cynllun gweithredu. Mewn rhai achosion, gall hyn olygu gweithio gyda rhieni i'w helpu i weld safbwynt yr ysgol, ac fel arall. Ystyrir bod datrys anghydfod rhwng yr ysgol a'r cartref a cheisio newid agweddau rhieni at addysg yn hanfodol i'r EWS.

Gweithdrefnau ar gyfer Absenoldeb





Rhan 2: Canllawiau ar y pwerau cyfreithiol i Sicrhau Presenoldeb Rheolaidd yn yr Ysgol yng Nghymru

56. Bwriad y rhan hon yw:
- egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r holl randdeiliaid sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi presenoldeb
 - crynhoi'r amrywiaeth o ymyriadau sydd ar gael i awdurdodau lleol i gefnogi a gorfodi presenoldeb rheolaidd
 - darparu gwybodaeth am y pwerau sydd ar gael o dan y gyfraith i sicrhau presenoldeb rheolaidd; a
 - rhoi enghreifftiau o arferion da e.e. rheoli achosion, gweithio gyda Llysoedd Ynadon.
57. Mae'r EWS yn gweithredu ar ran yr awdurdod lleol mewn perthynas â rhieni nad ydynt yn sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plant yn yr ysgol neu rieni nad ydynt yn ymrestru eu plant mewn ysgol neu ddarpariaeth addysgol heblaw yn yr ysgol.
58. Bydd yr EWS yn gwneud asesiadau perthnasol a chynlluniau gweithredu mewn partneriaeth â disgyblion, rhieni, staff yr ysgol a phartïon perthnasol eraill yn ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysgol amgen.
59. Ystyrir dwyn camau cyfreithiol yn erbyn rhieni fel rhan o ymyrraeth arfaethedig gyda theuluoedd. Mae'n rhaid i'r EWS sicrhau atebolrwydd ar gyfer achosion sy'n mynd gerbron y llysoedd ac ymgysylltu ag ysgolion ynglŷn ag achosion o'r fath.
60. Bydd yr EWS yn cynnig gwybodaeth i rieni a disgyblion am hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â phresenoldeb a'r broses gyfreithiol yn ystod unrhyw ymyrraeth gyda'r teulu.

a. Diffiniadau

61. **Oedran ysgol gorfodol** - O dan adran 8 o Ddeddf Addysg 1996, dylai plant a phobl ifanc fynychu'r ysgol o ddechrau'r tymor cyntaf ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed. 31 Mawrth, 31 Awst a 31 Rhagfyr yw dyddiadau diwedd y tymhorau. Mae oedran ysgol gorfodol unigolyn yn dod i ben ar y dydd Gwener diwethaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y mae'n dathlu ei ben-blwydd yn 16 oed.
62. Amlinellir y diffiniad o '**riant**' yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996, ac mae'n cynnwys:
- pob rhiant naturiol, waeth a yw'n briod ai peidio;
 - unrhyw unigolyn, er nad yw'n rhiant naturiol, sydd â chyfrifoldeb rhiant (yn ôl diffiniad Deddf Plant 1989) dros blentyn neu unigolyn ifanc; ac
 - unrhyw unigolyn, er nad yw'n rhiant naturiol, sy'n gofalu am blentyn neu unigolyn ifanc.
63. Mae gofalu am blentyn neu unigolyn ifanc yn golygu yr ystyrir unigolyn y mae'r plentyn yn byw gydag ef ac sy'n gofalu am y plentyn, beth bynnag fo'i berthynas â'r plentyn, yn rhiant o dan y gyfraith addysg.

64. **Pellter Cerdded** - Yn ôl diffiniad adran 3 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008:
- mewn perthynas â phlentyn oedran cynradd sy'n derbyn addysg mewn ysgol a gynhelir, ysgol arbennig nas cynhelir, Uned Cyfeirio Disgyblion neu ysgol annibynnol a enwir mewn datganiad a gynhelir ar gyfer y plentyn, dwy filltir (3.218688 cilometr)
 - mewn perthynas â phlentyn oedran uwchradd sy'n derbyn addysg mewn ysgol a gynhelir, ysgol arbennig nas cynhelir, Uned Cyfeirio Disgyblion neu ysgol annibynnol a enwir mewn datganiad a gynhelir ar gyfer y plentyn, tair milltir (4.828032 cilometr).
65. Ym mhob achos, mesurir y pellter hwn yn ôl y llwybr agosaf sy'n ddiogel i'w gerdded gyda chwmni neu heb gwmni.
66. **Addysg llawn amser** - Mae Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion 47/2006 yn diffinio addysg llawn amser fel:
- | | |
|---|----------|
| Cyfnod Allweddol 1: | 21 awr |
| Cyfnod Allweddol 2: | 23.5 awr |
| Cyfnod Allweddol 3/4 (gan gynnwys Blwyddyn 10 yn unig): | 24 awr |
| Cyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 11): | 25 awr |

b. Swyddogaethau a chyfrifoldebau

67. Mae sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn faes anodd sy'n dibynnu ar sefydlu a meithrin perthnasoedd gwaith agos rhwng rhieni, disgyblion, ysgolion, yr EWS a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau cymdeithasol, addysgol a gofal iechyd.
68. Mae dealltwriaeth glir o rôl a chyfrifoldebau pob unigolyn yn rhan allweddol o unrhyw berthynas waith lwyddiannus ac mae'r adran hon, felly, yn mynd ati i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r sawl sy'n ceisio mynd i'r afael â materion presenoldeb.

Rhiant

69. O dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, y rhiant sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei blentyn o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg llawn amser effeithlon sy'n addas i oedran, gallu a medr y plentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo. Gall yr addysg hon fod trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, darpariaeth amgen neu addysg yn y cartref o ddewis (gall y rhiant ddewis darparu addysg i'w blentyn).

Ysgol

70. Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) Cymru 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion gofrestru presenoldeb disgyblion ddwywaith y dydd; ar ddechrau'r sesiwn fore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Mae cywirdeb y gofrestr yn bwysig er mwyn cefnogi unrhyw ymyriadau statudol gofynnol a all fod eu hangen. Dylid nodi bod methu cadw cofrestri cywir yn drosedd. Ceir canllawiau manwl ar godau presenoldeb (a ddiwygiwyd yn 2010) yn Atodiad 4i yn y ddogfen gyfarwyddyd 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion'.

Awdurdod lleol

71. O dan adran 437 o Ddeddf Addysg 1996, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau bod plentyn y maent yn gyfrifol amdano'n derbyn addysg addas, naill ai trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu ddarpariaeth amgen. Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 4 yn y ddogfen gyfarwyddyd 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion'.
72. Ym mis Medi 2009, cychwynnodd Llywodraeth y Cynulliad adran 436A o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i'w galluogi i ganfod (cyn belled ag y bo'n bosibl) plant sy'n byw yn eu hardal nad ydynt yn derbyn 'addysg addas'.
73. Dylai'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd o dan adran 436A gael ei integreiddio gyda'r amrywiaeth ehangach o ddyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Deddf Plant 2004 (adrannau 25-29) a Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 sy'n ceisio gwella canlyniadau, a diogelu a hyrwyddo lles plant. Dylai'r ddyletswydd newydd gryfhau ac ategu'r dyletswyddau cyfredol hyn. Mae cyfarwyddyd statudol i gynorthwyo atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg, gan gynnwys pecyn cymorth ymarferol, ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.
<http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/missingeducation/?lang=cy>

c. Gorchymynion Mynychu'r Ysgol (SAO)

Sail ddeddfwriaethol

Adrannau 437 - 443, Deddf Addysg 1996

Defnydd


74. Mae Gorchymyn Mynychu'r Ysgol (SAO) yn berthnasol mewn achosion lle mae rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol yn methu profi bod y plentyn yn derbyn addysg addas a lle mae'r awdurdod o'r farn y dylai'r plentyn fynychu ysgol. Gellir defnyddio SAO i gyfarwyddo rhiant i anfon ei blentyn i ysgol benodol, a dylid ei ddefnyddio pan nad yw disgybl ar gofrestr **unrhyw** ysgol. Ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgol yn afreolaidd.
75. Mae SAO yn parhau mewn grym cyhyd ag y bo'r plentyn o oedran ysgol gorfodol. Os bydd y rhieni'n parhau i fethu cofrestru'r plentyn, gall yr awdurdod lleol ddewis atgyfeirio'r achos i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried camau gofal.

Proses

76. Mae yna nifer o amgylchiadau a all arwain at blentyn yn methu â chael ei gofrestru mewn ysgol sy'n golygu y gall SAO fod yn briodol:
 - nid yw'r rhiant wedi cofrestru ei blentyn gydag unrhyw ysgol gynradd;
 - mae yna newid mewn cyfnod ysgol, er enghraifft pontio rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd;

- mae'r rhiant wedi methu sicrhau lle yn yr ysgol o'i ddewis, ac mae'n amharod i anfon ei blentyn i ysgol y cred sy'n anaddas;
 - mae'r rhiant wedi methu yn ei ddyletswydd o dan drefniadau ar gyfer addysg yn y cartref o ddewis, ac mae'n amharod i ymgysylltu ag unrhyw ysgol; neu
 - mae plant o awdurdod lleol arall yn symud i'r ardal ac wedi'u tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol yn eu hawdurdod lleol blaenorol.
77. Cyn cyflwyno SAO, dylai EWOs wneud pob ymdrech i ymgysylltu â'r rhiant a'i helpu i gael ei blant i'r ysgol. Gall hyn gynnwys sicrhau bod y rhiant yn ymwybodol o leoliad ysgolion yn yr ardal ac esbonio a helpu gyda'r trefniadau derbyn neu apelio yn ôl yr angen.
78. Ar ôl ymgysylltu, os na fydd rhiant wedi gwneud trefniadau ar gyfer addysg ei blentyn, dylai awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefnau i gyflwyno SAO. Mae crynodeb o'r cyfnodau allweddol yn y weithdrefn hon yn y siart llif canlynol.

Siart Llif SAO



Fformat Gorchymyn Mynychu'r Ysgol:

Gan eich bod chi [enw'r rhiant] o [cyfeiriad y rhiant], fel rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ardal yr Awdurdod, wedi methu bodloni'r Awdurdod yn unol â gofynion yr hysbysiad a gyflwynwyd i chi o dan adran 437(1) o Ddeddf Addysg 1996 gan yr Awdurdod ar [dyddiad yr hysbysiad] bod [enw'r plentyn] yn derbyn addysg addas, naill ai trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu ddarpariaeth arall:

Ac oherwydd, ym marn yr Awdurdod, y dylai [enw'r plentyn] fynychu ysgol:

Mae'n ofynnol i chi gofrestru [enw'r plentyn] fel disgybl cofrestredig yn yr ysgol ganlynol:

[Rhowch enw a chyfeiriad llawn yr ysgol a dilëwch y darn canlynol neu ran ohono fel sy'n berthnasol]

sef yr ysgol [a nodwyd gan yr Awdurdod] [a ddewiswyd gennych] [a bennwyd gan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth] [fel yr ysgol a enwir yn y Gorchymyn hwn] [a nodwyd yn y datganiad ar gyfer y plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996].

Mae methu cydymffurfio â gofynion y Gorchymyn hwn yn drosedd oni bai y gallwch chi profi bod [enw'r plentyn] yn derbyn addysg addas y tu allan i'r ysgol.

Llofnod [enw'r swyddog] o Awdurdod Lleol [enw'r Awdurdod].

[Dyddiedig]

d. Methu cydymffurfio â Gorchymyn Mynychu'r Ysgol

Sail ddeddfwriaethol

Adran 443, Deddf Addysg 1996

Trosedd

79. Bod yn rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol y cyflwynwyd Gorchymyn Mynychu'r Ysgol yn ei gylch sydd wedi methu cydymffurfio â gofynion y gorchymyn.

Pwyntiau allweddol

80. Bydd angen profi:

- bod y plentyn o oedran ysgol gorfodol;
- bod y rhiant yn gofalu am y plentyn;
- bod y rhiant wedi methu cydymffurfio â'r gorchymyn;
- bod hysbysiadau a gyflwynwyd o dan adrannau 437(1) a 438 yn cydnabod y terfynau amser a amlinellir yn y Ddeddf h.y. bod y rhiant yn cael 15 diwrnod i ymateb i bob hysbysiad; a
- bod hysbysiadau wedi'u cyflwyno i'r rhiant.

Amddiffyniadau Statudol

Dim

Nodiadau

81. Gall y drosedd hon arwain at ddirwy hyd at uchafswm o lefel 3 ar y raddfa safonol - ar hyn o bryd, £1,000 y rhiant ar gyfer pob plentyn absennol.
82. Oni bai ei fod yn cael ei ddiddymu, bydd SAO yn parhau mewn grym cyhyd ag y bo plentyn o oedran ysgol gorfodol. Os yw rhiant yn parhau i fethu cydymffurfio, nid yw erlyniad pellach yn bosibl; mae'n rhaid cyflwyno SAO arall cyn gwneud ail erlyniad.
83. Ar gyfer rhieni nad ydynt yn cydymffurfio â Gorchymyn Mynychu'r Ysgol, fel arfer caiff y teulu ei atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel arall, gellir cyflwyno cais am Orchymyn Goruchwyliaeth Addysg i'r Llys Achosion Teuluol.

e. Gorchymyn Goruchwyliaeth Addysg (ESO)

Sail ddeddfwriaethol

Adran 36, Deddf Plant 1989 (gweler hefyd adran 447, Deddf Addysg 1996)

Defnydd

84. Gellir defnyddio Gorchymyn Goruchwyliaeth Addysg (ESO) i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, waeth a yw plentyn wedi ymrestru mewn ysgol ai peidio. Dylai hefyd sicrhau bod plentyn yn derbyn addysg llawn amser sy'n addas i'w oedran, ei allu, ei ddawn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo, a bod y rhiant a'r plentyn yn cael cymorth a chanllawiau digonol.
85. Mae gan awdurdod lleol ddyletswydd o dan adran 447 o Ddeddf Addysg 1996 i ystyried gwneud cais am ESO cyn penderfynu a ddylid erlyn rhieni am bresenoldeb gwael neu fethu cydymffurfio ag SAO. Gall awdurdod lleol wneud cais am ESO yn lle neu yn ogystal ag erlyn y rhieni. Os bydd awdurdod lleol yn dewis peidio â gwneud cais am ESO, dylai gofnodi/darparu tystiolaeth o'r ystyriaeth a'r rhesymau dros benderfynu na fyddai'n briodol.
86. Mae ESO yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i fod yn gyfrifol am gynghori, cefnogi a rhoi 'cyfarwyddiadau' i'r plentyn sy'n derbyn goruchwyliaeth a'i rieni mewn ffordd sy'n sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu'n gywir. Mae'n rhaid i'r cyfarwyddiadau hyn gael eu diffinio gan yr awdurdod lleol a dylent geisio helpu i wella presenoldeb y plentyn (er enghraifft, gallai'r awdurdod lleol gyfarwyddo'r rhiant i fynychu cyfarfodydd yn yr ysgol dros gyfnod yr ESO, ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant / plentyn hysbysu'r awdurdod lleol am ei gyfeiriad presennol neu ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant fynychu dosbarthiadau rhianta).
87. Fel arfer, ni fydd ESO yn effeithiol:
 - ar ôl blwyddyn
 - pan fydd plentyn yn mynd yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol
 - pan fydd yn cael ei ryddhau gan y llys yn dilyn cais gan y plentyn, rhieni neu'r awdurdod lleol.

88. Fodd bynnag, gall awdurdod lleol wneud cais i ymestyn ESO am hyd at dair blynedd os yw'n teimlo bod hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod addysg y plentyn yn parhau i ddatblygu. Mae'n rhaid gwneud hyn dri mis cyn i'r ESO ddod i ben.

89. Ni all llysoedd gyflwyno ESO os yw'r plentyn eisoes dan ofal yr awdurdod.

Proses

90. Mae ESO yn fater 'achosion teuluol' yn ôl diffiniad Deddf Plant 1989, sy'n ystyried mai lles y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf, ac yn fater sifil.

91. Wrth wneud cais am ESO, dylai awdurdodau lleol ddarparu i'r llys adroddiad ar y plentyn a ddylai gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- cofnod presenoldeb, sy'n darparu gwybodaeth am bresenoldeb dros y ddau dymor cyn y cais am ESO, neu dros gyfnod hirach os yw'n briodol. Dylid cyflwyno'r cofnod fel dadansoddiad canrannol o bresenoldeb, absenoldeb wedi'i awdurdodi ac absenoldeb heb ei awdurdodi;
- manylion perthnasol am amgylchiadau'r plentyn, gan gynnwys: oedran, rhyw, cefndir ac unrhyw anghenion corfforol, emosiynol neu addysgol penodol (gan gynnwys anghenion addysgol arbennig fel y'u diffinnir yn adran 312 o Ddeddf Addysg 1996) sydd gan y plentyn;
- asesiad o'r rhesymau dros bresenoldeb gwael y plentyn;
- asesiad meddygol, os yw'n berthnasol;
- syniad o agweddau'r plentyn, rhieni, yr ysgol ac asiantaethau eraill at y presenoldeb gwael;
- disgrifiad byr o effaith gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni;
- rhesymau dros y cais am ESO ac asesiad o sut y bydd y plentyn dan anfantais os na chyflwynir ESO;
- amlinelliad o'r ymyrraeth arfaethedig, gan gynnwys targedau ar gyfer amseru a monitro; a
- rhaglen o'r gwaith arfaethedig, yn nodi rôl y plentyn, y rhieni a'r ysgol, gyda syniad o sut mae'r awdurdod lleol yn credu y bydd hyn yn helpu i ddatrys y broblem a sicrhau bod y plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

92. Hefyd, mae'n rhaid i'r llys ystyried anghenion lles y plentyn (mae rhestr o'r rhain yn adran 1(3) o Ddeddf Plant 1989), ac mae angen nodi ac ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn.

93. Dylid adolygu ESO yn rheolaidd trwy drafodaeth rhwng swyddogion goruchwyllo a'u rheolwyr.

f. Methu sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol - adran 444(1)

Sail ddeddfwriaethol

Adran 444(1), Deddf Addysg 1996 fel y'i diwygiwyd gan adrannau 3 a 4 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Trosedd

94. Bod yn rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol sydd wedi ymrestru mewn ysgol sy'n methu sicrhau bod y plentyn yn mynychu'r ysgol hon yn rheolaidd.

Pwyntiau allweddol

95. Bydd angen profi:

- bod y plentyn o oedran ysgol gorfodol
- bod y plentyn ar gofrestr yr ysgol
- bod y rhiant yn gofalu am y plentyn; a
- bod y rhiant wedi methu sicrhau bod y plentyn yn mynychu'r ysgol hon yn rheolaidd.

Amddiffyniad Statudol

96. Ni ddylid ystyried bod plentyn wedi methu mynychu ysgol lle:

- roedd y disgybl yn absennol gyda chaniatâd un o gynrychiolwyr awdurdodedig yr ysgol
- nad oedd y disgybl yn gallu mynychu oherwydd salwch neu reswm anochel arall
- roedd y disgybl yn absennol ar ddiwrnod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer ymlyniad crefyddol gan y corff crefyddol y mae rhieni'r plentyn yn perthyn iddo; ac
- mae'r awdurdod lleol wedi methu yn ei ddyletswydd o dan adran 3 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i wneud trefniadau cludo addas mewn perthynas â'r plentyn i hwyluso ei bresenoldeb bob dydd yn y lleoliad lle mae'n derbyn ei addysg, neu wedi methu yn ei ddyletswydd o dan adran 4 o'r un Mesur i wneud trefniadau cludo eraill.

97. Mae yna dair set o amgylchiadau posibl lle byddai'r pwynt bwled olaf hwn yn berthnasol. Mae'r set gyntaf o amgylchiadau'n ymwneud â dewis y rhieni o ysgol. Lle mae rhieni'n dewis anfon eu plentyn i ysgol heblaw eu hysgol leol, mae'r awdurdodau lleol yn rhagdybio y bydd y rhiant yn ysgwyddo cyfrifoldeb am gludo'r plentyn a darparu llety ar ei gyfer. Os bydd y rhiant am newid ei feddwl ac anfon ei blentyn i'w hysgol leol yn ddiweddarach, bydd yr awdurdod lleol yn ceisio galluogi i'r plentyn ymrestru yn yr ysgol honno.

98. Mae'r ail set o amgylchiadau'n ymwneud â disgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol. Trwy gael ei wahardd yn barhaol, hwyrach y bydd hi'n ofynnol i blentyn fynychu ysgol heblaw ei ysgol leol. Mae awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i rieni mai nhw sy'n gyfrifol am ariannu cludiant eu plentyn i'r ysgol ac oddi yno o dan yr amgylchiadau hyn.

99. Mae'r drydedd set o amgylchiadau'n ymwneud â disgyblion oedran cynradd lle mae'r ysgol leol wedi gosod cyfyngiadau ar niferoedd disgyblion/maint dosbarthiadau. Hwyrach na fydd yr ysgol gynradd agosaf yn gallu derbyn y disgybl oherwydd y cyfyngiadau.
100. Mae sefyllfa arbennig teuluoedd o Deithwyr yn cael ei chydabod yn y gyfraith (adran 444(6) o Ddeddf Addysg 1996). Mae rhiant yn cael ei ddiogelu rhag collfarn os gall ddangos:
- ei fod yn rhan o fasnach neu fusnes sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo deithio o fan i fan;
 - bod y plentyn wedi mynychu ysgol fel disgybl cofrestredig mor rheolaidd ag y mae natur y fasnach neu'r busnes hwnnw'n ei ganiatáu; a
 - bod y plentyn, pan fo'n chwech oed neu'n hŷn, wedi mynychu ysgol am o leiaf 200 o sesiynau (hanner diwrnod) yn ystod y deuddeg mis blaenorol.

Nodiadau

101. Mae adran 444(1) yn creu trosedd atebolrwydd caeth/absoliwt sy'n arwain at ddirwy hyd at uchafswm o lefel 3 ar y raddfa safonol - ar hyn o bryd, £1,000 y rhiant ar gyfer pob plentyn absennol.
102. Collfarnau diannod yn unig a gyflwynir o dan adran 444, sy'n golygu y cânt eu cynnal gerbron ynadon ac ni fyddant yn destun gwrandawriad yn yr uchel lys.

g. Methu sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol - adran 444(1A)

Sail ddeddfwriaethol

Adran 444(1A), Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 72 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000).

Trosedd

103. Ym mis Mawrth 2001, cyflwynwyd trosedd ddifrifolach lle mae rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n gwybod bod ei blentyn yn methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn methu gorfodi ei blentyn i fynychu heb gyfiawnhad rhesymol.

Pwyntiau allweddol

104. Bydd angen profi:
- bod y plentyn o oedran ysgol gorfodol
 - bod y plentyn ar gofrestr yr ysgol
 - bod y rhiant yn gofalu am y plentyn
 - **bod y rhiant yn gwybod bod y plentyn yn methu mynychu'n rheolaidd; a**
 - **bod y rhiant yn methu gorfodi ei blentyn i fynychu'n rheolaidd heb gyfiawnhad rhesymol.**

Amddiffyniadau statudol

Yr un fath ag yn adran 444(1)

105. Mae hi hefyd yn amddiffyniad i rywun ddangos fod ganddo gyfiawnhad rhesymol dros fethu gorfodi'r plentyn i fynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Nodiadau

106. O dan y drosedd uwch hon, gellir cyflwyno gwarant yn gorfodi rhieni i fynychu'r llys.

107. Mae adran 444(1A) yn creu trosedd atebolrwydd caeth/absoliwt sy'n arwain at ddirwy hyd at uchafswm o lefel 4 ar y raddfa safonol - ar hyn o bryd, £2,500 y rhiant ar gyfer pob plentyn absennol, neu garchar hyd at uchafswm o 3 mis, neu'r ddau.

108. Os bydd y llys yn dod i'r casgliad bod rhiant yn ddieuog o drosedd o dan adran 444(1A), ond ei fod yn fodlon bod rhiant yn euog o drosedd o dan adran 444(1), hwyrach y bydd y llys yn dod i'r casgliad bod y rhiant yn euog o'r drosedd honno.

109. Lle mae'r erlyniad yn cael ei gyflwyno o dan adran 444(1A), gall yr awdurdod lleol ofyn i'r llys gyflwyno gwarant i orfodi'r rhiant i fynychu'r llys. Dylid gofyn i gynghorydd cyfreithiol y llys am y weithdrefn i'w dilyn ym mhob achos. Gall y llys ddewis cyflwyno gwarant gyda neu heb fechnïaeth. Os cyflwynir gwarant gyda mechnïaeth, bydd y diffynnydd yn cael ei arestio gan yr Heddlu ac yn derbyn mechnïaeth ar yr amod ei fod yn mynychu'r llys ar ddyddiad newydd y gwrandawriad. Os cyflwynir gwarant heb fechnïaeth, caiff y diffynnydd ei arestio a'i gyflwyno gerbron y llys nesaf, lle penderfynir sut i fynd i'r afael â'r achos.

h. Methu sicrhau presenoldeb rheolaidd mewn darpariaeth amgen - adran 444(ZA)

Sail ddeddfwriaethol

110. Adran 444(ZA), Deddf Addysg 1996 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 116, Deddf Addysg 2005). Mae'r adran hon yn ymestyn yr amgylchiadau y gall rhiant gael ei erlyn oddi tanynt o dan adran 444 am fethu sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ddarpariaeth amgen sydd wedi'i gwneud ar ei gyfer. Yn gyntaf, dylai'r rhiant fod wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig, neu drwy ddull effeithiol arall, o'r ddarpariaeth amgen.

111. Mae adran 29(3) o Ddeddf Addysg 2002 (fel y'i diwygiwyd gan adran 115 o Ddeddf Addysg 2005) yn rhoi grym i'r corff llywodraethu gyfarwyddo disgybl i fynychu darpariaeth addysgol amgen os nad yw'r disgybl yn bresennol er ei fod ar gofrestr yr ysgol e.e. disgybl sydd wedi'i wahardd am gyfnod penodol neu ddisgybl sy'n dal i fod ar y gofrestr yn disgwyl apêl yn dilyn gwaharddiad parhaol.

Defnydd

112. Pan fydd plentyn o oedran ysgol gorfodol, ond nad yw ar gofrestr unrhyw ysgol a:

- pan fydd awdurdod lleol wedi gwneud trefniadau o dan adran 19 o Ddeddf 1996 i ddarparu addysg i'r plentyn y tu allan i'r ysgol, neu yng nghartref y plentyn; a

- pan fydd hysbysiad ysgrifenedig o'r trefniadau wedi'i gyflwyno i rieni'r plentyn.
113. Yna, os bydd rhiant y plentyn yn methu sicrhau ei bresenoldeb rheolaidd yn y ddarpariaeth amgen, bydd yn euog o drosedd o dan adran 444.
114. Pan fydd plentyn o oedran ysgol gorfodol wedi'i wahardd o ysgol berthnasol, a:
- pan fydd yn dal i fod ar gofrestr yr ysgol am y tro
 - pan fydd awdurdod priodol yr ysgol yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo fynychu lleoliad y tu allan i'r ysgol at ddiben derbyn unrhyw gyfarwyddyd neu hyfforddiant; a
 - pan fydd hysbysiad ysgrifenedig o'r gofyniad wedi'i gyflwyno i rieni'r plentyn.
115. Yna, os bydd rhiant y plentyn yn methu sicrhau ei bresenoldeb rheolaidd yn y ddarpariaeth amgen hon (nid yr ysgol y mae ar ei chofrestr), bydd yn euog o drosedd o dan adran 444.
116. Fodd bynnag, amddiffyniad i gamau o'r fath yw bod y plentyn yn derbyn addysg addas heblaw trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu mewn lleoliad a nodwyd yn adran 444ZA(1).

Nodiadau

117. Mae Adran 444(ZA) yn darparu ar gyfer erlyniadau o dan adrannau 444(1) a 444(1A), sy'n cael rhagor o sylw ar dudalennau 21 - 23.
118. Diffinnir dulliau o gyflwyno hysbysiad yn adran 572 o Ddeddf Addysg 1996:
- a) trwy ei gyflwyno i'r unigolyn hwnnw
 - b) trwy ei adael yn ei gartref neu y cartref y gwyddir ei fod yn byw diwethaf, neu
 - c) drwy ei anfon mewn llythyr at y rhiant yn y lleoliad hwnnw.
119. Fodd bynnag, mae adran 444(ZA) hefyd yn nodi y gellir cyflwyno hysbysiad o drefniadau darpariaeth amgen i rieni plentyn trwy unrhyw ddull effeithiol.

i. Contractau Rhianta

Sail deddfwriaethol

120. Mae adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn dweud fod rhiant yn cyflawni trosedd os nad yw ei blentyn sydd mewn oedran pan mae'n orfodol iddo/iddi fynd i'r ysgol, ac sy'n ddisgybl cofrestredig, yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Cyflawni'r drosedd hon sy'n sbarduno'r defnydd o gontract rhianta. Mae'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos fod trosedd wedi ei chyflawni'r un fath â'r dystiolaeth y byddai ei hangen i erlyn trosedd atebolrwydd caeth o dan adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996.

Defnydd

121. Os nad yw disgybl yn mynychu'r ysgol yn gyson neu os yw'n cael ei wahardd o'r ysgol, gall yr ALL neu gorff llywodraethu'r ysgol ystyried addasrwydd cynnig contract rhianta i'r rhiant. Gellir rhoi contract rhianta ar gyfer camymddygiad digonol pan fo'r ysgol neu'r ALL â rheswm i gredu bod disgybl wedi ymddwyn mewn modd sy'n:
- achosi, neu'n debygol o achosi, amhariad sylweddol i addysg disgyblion eraill neu niwed sylweddol i les disgybl neu ddisgyblion eraill neu i iechyd neu ddiogelwch unrhyw staff; neu
 - yn ffurfio patrwm ymddygiad a fyddai, pe bai'n parhau, yn arwain at wahardd y disgybl.
122. Gall yr ymddygiad dan sylw ddigwydd yn yr ysgol neu mewn man arall y mae'n rhesymol i'r ysgol ei reoleiddio. Bydd yr hyn sy'n rhesymol yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau ac yn cael ei nodi ym mholisi ymddygiad yr ysgol.
123. Mae contract rhianta yn gytundeb ysgrifenedig ffurfiol rhwng y rhiant ac un ai'r ALL neu gorff llywodraethu'r ysgol a dylai gynnwys:
- datganiad gan y rhiant eu bod yn cytuno i gydymffurfio am gyfnod penodedig gydag unrhyw ofynion a bennwyd yn y contract;
 - datganiad gan yr ALL neu'r corff llywodraethu'n cytuno i ddarparu cymorth i'r rhiant i bwrpas cydymffurfio â'r contract.
124. Gweithred wirfoddol yw ymgymryd â chontract rhianta. Ni ellir gorfodi'r rhiant i ymgymryd â chontract rhianta os nad ydynt yn dymuno gwneud. Yn yr un modd, nid oes unrhyw orfodaeth ar yr ALL neu gorff llywodraethu i gynnig contract rhianta mewn achosion o ddiffyg presenoldeb neu wahardd.
125. Fe fydd contractau rhianta, er hynny, yn aml yn arf gwerthfawr i adnabod a chanolbwyntio ar y problemau y tu ôl i'r diffyg presenoldeb neu gamymddwyn ac wrth ddatblygu perthynas ffrwythlon gyda rhieni i ymdrin â'r problemau hyn.
126. Dylai'r ALL neu gorff llywodraethu'r ysgol ystyried nifer o faterion cyn penderfynu gwneud contract rhianta. Mae'r rhain yn cynnwys os oes asiantaethau eraill eisoes yn gweithio gyda'r disgybl a'r teulu, a fyddai contract rhianta yn ategu neu ychwanegu at y gwaith yma, y math o gefnogaeth a allai fod o gymorth i'r rhiant a sut y bydd contract rhianta wedi'i drefnu gan yr ALL neu'r corff llywodraethu yn cael ei gyllido.

Nodiadau

127. Bydd y sawl sy'n gwneud y contract rhianta gyda'r rhiant (sef yr ALL neu gorff llywodraethu ysgol) yn gyfrifol am gostau unrhyw gymorth sydd yn cael ei ddarparu o dan y contract rhianta; serch hynny, gellir adennill y costau hynny gan gorff arall, e.e. gall ysgol achosi'r costau ond gellir eu hadennill gan yr awdurdod lleol.

128. Nid oes atebolrwydd mewn cyfraith camwedd na chontract am dorri contract rhianta.
129. Fodd bynnag, mewn achosion o wahardd o'r ysgol, byddai methiant y rhiant i gydymffurfio gyda'r contract yn ystyriaeth berthnasol i'r ALL benderfynu a yw am wneud cais am orchymyn rhianta ac, wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn rhianta, mae'n rhaid i'r llys ystyried unrhyw fethiant gan y rhiant i gydymffurfio â'r gofynion a nodwyd mewn contract rhianta.
130. Yn yr un modd, mewn achosion o driwantiaeth, gallai peidio cydymffurfio â'r contract beri i'r ALL neu'r ysgol ystyried rhoi rhybudd o gosb i'r rhiant, neu achosi i'r ALL ystyried erlyn y rhiant am fethu sicrhau fod eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac os felly gellid cyflwyno tystiolaeth i'r llys fod y rhiant wedi methu cydymffurfio gyda'r contract.
131. Mae'n bwysig felly cofnodi torri unrhyw amod yn y contract fel y gellid ei gyflwyno i'r llys os bydd angen.
132. Ceir mwy o fanylder am Contractau Rhianta yn Atodiad 3i yn y Canllaw Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion

j. Gorchymynion Rhianta

Sail ddeddfwriaethol

133. Cyflwynna adran 20 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ac adrannau 97 i 99 o Ddeddf Addysg ac Aroglgiadau 2006 y darpariaethau i awdurdodau lleol ymgymryd â chontractau rhianta mewn achosion o wahardd o'r ysgol, camymddygiad neu driwantiaeth.

Defnydd

134. Gall y llys gyflwyno Gorchymyn Rhianta o dan sawl set o amgylchiadau, gan gynnwys yn dilyn collfarn am drosedd o dan adran 443 neu 444 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'n rhaid i'r llys fod yn fodlon y byddai'r Gorchymyn yn ddymunol er mwyn atal unrhyw droseddu pellach o dan yr adrannau hynny. Mae'r Gorchymyn Rhianta'n orchymyn ategol ac ni all fod yn ddedfryd ar ei ben ei hun - felly, os caiff ei gyflwyno, bydd yn ychwanegol at unrhyw gosb arall a roddir.
135. Cyn cyflwyno Gorchymyn Rhianta mewn perthynas â phlentyn neu unigolyn ifanc o dan 16 oed, mae'n rhaid i'r llys gael ac ystyried gwybodaeth am amgylchiadau'r teulu ac effaith debygol Gorchymyn ar yr amgylchiadau hynny. Fel arfer, mae'r wybodaeth hon ar ffurf adroddiad ysgrifenedig neu lafar a baratoir gan yr EWS fel sy'n briodol. Dylai'r EWS gynnwys yr adroddiad hwn yng ngwybodaeth y llys.
136. Nod Gorchymynion Rhianta yw helpu rhieni i fynd i'r afael ag ymddygiad problemus eu plentyn. Eu bwriad yw bod yn ddull cymorth yn hytrach na chosb.

137. Mae'r Gorchymyn Rhianta'n cynnwys 2 elfen:

- Gofyniad ar y rhiant i fynychu sesiynau cwnsela neu gyfarwyddyd lle bydd yn derbyn help a chymorth i ddelio â'i blentyn. Dyma graidd y Gorchymyn Rhianta, ac mae'n para 3 mis.
- Gofyniad ar y rhiant i gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y gorchymyn. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod y disgybl yn mynychu'r ysgol bob dydd neu ei fod yn cyrraedd adref erbyn amser penodol. Mae adran 8(4) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn nodi y gall yr elfen hon bara hyd at 12 mis. Fodd bynnag, nid oes angen nodi unrhyw ofynion o'r fath os oes gorchymyn blaenorol wedi'i gyflwyno mewn perthynas â'r rhiant.

138. Gellir cyflwyno'r Gorchymyn i un rhiant neu'r ddau riant ac nid oes angen eu caniatâd.

139. Gellir cyflwyno Gorchymynion Rhianta i rieni plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, ond dylid gofalu bod hyn yn briodol. Ni ddylai'r llys ystyried hyn oni bai ei fod o'r farn y byddai'r rhieni neu'r gwarcheidwaid yn elwa ar yr help a'r gefnogaeth a gynigir ac y gall arwain at y plentyn yn gallu dychwelyd adref.

140. Caiff pob Gorchymyn Rhianta ei oruchwylio gan 'swyddog cyfrifol'. Mae swyddog cyfrifol yn golygu un o'r canlynol a nodir yn y gorchymyn:

- a. swyddog awdurdod addysg lleol, a chyda'i ganiatâd
- b. pennaeth neu unigolyn a enwebir gan bennaeth.

141. Rôl y swyddog cyfrifol yw trefnu bod sesiynau cwnsela neu gyfarwyddyd yn cael eu darparu a sicrhau bod y rhiant yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion ychwanegol. Mae'r sesiynau cwnsela a chyfarwyddyd yn para hyd at 3 mis, gydag uchafswm o un sesiwn yr wythnos. Gallant gael eu darparu un-i-un neu ar fformat grŵp. Caiff y rhan fwyaf o Orchymynion eu darparu trwy grwpiau gan fod hyn yn rhoi cyfle i rieni gael cymorth gan rieni eraill sy'n wynebu problemau tebyg.

142. Gall gofynion ychwanegol bara hyd at 12 mis ochr yn ochr â'r cymorth a'r cyfarwyddyd i rieni. Gallant nodi y dylai'r unigolyn ifanc:

- fynychu'r ysgol neu ddarpariaeth addysgol arall;
- osgoi cysylltiad â phlant penodol eraill;
- osgoi ymweld â mannau penodol ar adegau penodol;
- cyrraedd adref erbyn amser penodol; a
- gallant fynnu bod rhieni yn mynychu rhaglen benodol, fel sesiynau rheoli tymer.

143. Unwaith y bydd rhiant wedi cwblhau Gorchymyn yn llwyddiannus, gellir cynnig cymorth pellach yn wirfoddol os yw'n briodol.

144. Os bydd y rhiant, heb esgus rhesymol, yn methu cydymffurfio â Gorchymyn, dylid ystyried cymryd camau i gywiro hyn. Dylai'r swyddog cyfrifol gymryd pob cam rhesymol i gysylltu â'r rhiant a'i annog i gydymffurfio. Fodd bynnag, os bydd hyn yn methu, dylai'r rhiant ymddangos gerbron y Llys Ynadon a'i erlyn am dorri amodau'r

Gorchymyn. Cynhelir gwrandawriad i farnu a yw'n euog ac, os caiff ei gollfarnu, bydd yn rhaid i'r rhiant dalu dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 a gall y llys hefyd ystyried unrhyw ddedfryd arall sydd ar gael ar gyfer trosedd nad yw carcharu yn ddewis ar ei chyfer.

k. Addasiadau i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Chontractau Rhianta a Gorchmynion Rhianta

145. Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad Gontractau Rhianta ar gyfer triwantiaeth a gwaharddiadau a Gorchmynion Rhianta ar gyfer gwaharddiadau ym mis Mai 2006 fel ymyrraeth arall i hyrwyddo gwell presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, gyda rhagor o fanylion yn Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006.
146. O 5^{ed} Ionawr 2011, mae adrannau 97 a 99 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn cynyddu nifer y Contractau Rhianta a Gorchmynion Rhianta sydd ar gael mewn perthynas â chamymddygiad yn yr ysgol.
- Mae adran 97 yn ehangu ar y defnydd o gontractau rhianta fel y gellir eu defnyddio ar gyfer camymddygiad difrifol, yn ogystal â gwaharddiadau. Mae hefyd yn egluro y gall yr ymddygiad dan sylw ddigwydd yn yr ysgol neu rywle arall os yw'n rhesymol i'r ysgol ei reoleiddio.
 - Mae adran 99 yn ychwanegu gofyniad i lysoedd ystyried methiant rhieni i fynychu cyfweliad ailintegreiddio wrth ystyried a ddylid cyflwyno gorchymyn rhianta. Mae hefyd yn caniatáu rheoliadau i amlinellu trefniadau ar gyfer disgyblion 'trawsffiniol' neu 'ar draws ysgolion'.
147. Yn ogystal â hyn, o 5^{ed} Ionawr 2011, bydd rheoliadau newydd ar Orchymynion Rhianta a Chontractau Rhianta yn cyflwyno'r darpariaethau ychwanegol canlynol:
- Os bydd disgybl yn byw mewn un awdurdod, ond yn mynychu'r ysgol mewn awdurdod arall, mae gan yr awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn mynychu'r ysgol y grym i wneud cais am Orchymyn Rhianta neu lunio Contract Rhianta. Gallai'r awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw wneud hynny gyda chytundeb yr awdurdod addysgu. Yn achos disgybl sydd wedi'i wahardd yn barhaol, mae gan yr awdurdod lle mae'r disgybl yn byw y grym i wneud cais am Orchymyn Rhianta neu lunio Contract Rhianta. Yn yr achos hwn, gall yr awdurdod addysgu hefyd wneud hynny gyda chytundeb yr awdurdod lle mae'r disgybl yn byw.
 - Os bydd disgybl sydd wedi'i wahardd yn barhaol wedi symud ysgolion, mae gan yr ysgol newydd y grym i lunio Contractau Rhianta. Gall yr ysgol wreiddiol hefyd wneud hynny gyda chytundeb yr ysgol newydd.
 - Os bydd gan fwy nag un corff y grym i wneud cais am Orchymyn Rhianta neu lunio Contract Rhianta (e.e. ysgol ac awdurdod lleol), mae'n rhaid i'r corff sy'n bwriadu defnyddio'r pŵer ymgynghori â phob corff arall.
 - Os bydd sefydliad yn cynnig defnyddio'r pwerau hyn, mae'n rhaid iddo ofyn am wybodaeth gan unrhyw gorff arall a fydd hefyd o bosibl yn gallu defnyddio'r pwerau hyn i benderfynu ai dyma'r ffordd orau o fynd ati, i osgoi ceisiadau neu gontractau lluosog ac i benderfynu ai gorchymyn neu gontract fyddai'r dewis dymunol.

- Caiff costau'r Gorchymyn neu'r Contract Rhianta eu talu gan y corff sy'n cyflwyno'r cais neu'n llunio'r contract, er y gallant gael eu hadennill gan gorff arall trwy gytundeb. Er enghraifft, er mai ysgol fydd yn talu'r costau, gallant gael eu hadennill gan yr awdurdod lleol.

I. Canllawiau a pholisïau erlyn

148. Dylai erlyniad fod yn ymyrraeth wedi'i chynllunio yn yr achosion hynny lle nodir ei fod yn briodol. O'i gymhwyso'n gyson, gall ddiogelu hawl plentyn i addysg a chynnig ffordd o ymgysylltu â rhieni sydd wedi methu cydweithredu ag ymyriadau blaenorol i wella presenoldeb.
149. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod eu proses erlyn yn dryloyw, yn gyson ac yn deg. Dylai hyn fod ar ffurf datganiad ysgrifenedig clir o sut y bydd yr awdurdod lleol yn mynd i'r afael ag absenoldeb, a dylai gael ei ddiweddarau'n rheolaidd a bod ar gael i bob parti â buddiant.
150. Er y bydd gan bob awdurdod lleol bolisi unigryw wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â'i amgylchiadau lleol, dylai pob polisi erlyn:
- ddarparu datganiad clir o ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol;
 - ymgorffori amddiffyniadau i hyrwyddo gwasanaeth mwy teg a chyson;
 - ymgorffori arferion gwaith;
 - nodi blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth;
 - darparu strwythur clir ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y meini prawf a'r amserlen ar gyfer erlyn;
 - cwmpasu trefniadau ar gyfer goruchwyllo, adolygu a monitro gwaith achos;
 - ymgorffori manylion dulliau gwaith amlasiantaethol;
 - mynd i'r afael â materion cyfrinachedd, cyfle cyfartal a hawliau rhieni a phlant; a
 - nodi trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso arferion a gweithdrefnau.

Hysbysu Rhiant yn Ffurfiol

151. Anfonir hysbysiadau ffurfiol (2 fel arfer) at rieni cyn dechrau cymryd camau cyfreithiol, ond nid ar ddechrau gwaith achos EWS. Wrth gwrs, dylid egluro goblygiadau cyfreithiol absenoldeb o'r ysgol yn gynnar iawn yn ystod yr ymyrraeth, ond dylid gofalu peidio â thanseilio'r dull cydweithredol o fynd i'r afael â phroblemau sylfaenol.

m. Penderfyniad i erlyn

152. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon y gellir cyfiawnhau erlyniad o dan Ganllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar gyfer Erlynwyr y Goron. (Mae'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn www.cps.gov.uk/publications/prosecution)

153. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn darparu canllawiau ar gyfer erlynwyr y goron, gan amlinellu'r egwyddorion cyffredinol y dylid eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau am erlyniadau i sicrhau eu bod yn deg a chyson.

154. Mae'r CPS yn cynghori bod erlyniad yn debygol o fod yn briodol:

- os yw collfarn yn debygol o arwain at ddedfryd sylweddol;
- os oedd y diffynnydd mewn unrhyw sefyllfa o awdurdod neu ymddiriedaeth;
- os oes tystiolaeth bod y drosedd yn rhagfwrriadol;
- os yw collfarnau neu rybuddion blaenorol y diffynnydd yn berthnasol i'r drosedd dan sylw;
- os honnir bod y diffynnydd wedi cyflawni'r drosedd tra'i fod o dan orchymyn y llys;
- os oes sail dros gredu bod y drosedd yn debygol o barhau neu gael ei hailadrodd; ac
- os yw'r drosedd, er nad yw'n ddifrifol ar ei phen ei hun, yn gyffredin yn yr ardal lle cafodd ei chyflawni.

155. Mae erlyniad yn llai tebygol o fod yn angenrheidiol:

- os yw'r llys yn debygol o gyflwyno cosb mewn enw'n unig;
- os yw'r diffynnydd eisoes wedi bod yn destun dedfryd ac y byddai unrhyw gollfarn bellach yn annhebygol o arwain at ddedfryd neu orchymyn ychwanegol, oni bai bod natur y drosedd dan sylw'n gofyn am erlyniad;
- os bu oedi mawr rhwng cyflawni'r drosedd a dyddiad y treial; ac
- os yw'r diffynnydd yn hen neu os yw'n dioddef o salwch meddwl neu gorfforol sylweddol, neu os oedd yn dioddef o salwch o'r fath adeg y drosedd, oni bai bod y drosedd yn ddifrifol a / neu fod yna bosibilrwydd go iawn y caiff ei hailadrodd.

156. Felly, mae'n rhaid i awdurdod lleol fod yn fodlon y gellir cyfiawnhau unrhyw erlyniad o dan y canllawiau uchod. Dylai hefyd ystyried ffactorau fel:

- Pa mor wael yw'r lefel presenoldeb?
- A oes yna hanes o bresenoldeb gwael?
- A oes yna resymau dilys dros yr absenoldeb? e.e. Bwlio, profedigaeth, materion emosiynol, materion meddygol
- A yw'r ysgol wedi awdurdodi'r absenoldeb; os felly, am ba reswm?
- A yw'r rhieni'n ymwybodol o'r absenoldeb?
- Faint o reolaeth / dylanwad sydd gan y rhieni dros y plentyn?
- Pa mor gydweithredol yw'r rhieni?
- Beth yw amgylchiadau'r teulu?
- Beth yw barn y plentyn ac i ba raddau y dylid ystyried hyn (e.e. oedran y plentyn)?
- Pa waith sydd eisoes wedi'i wneud gyda'r teulu? Pa mor effeithiol oedd y gwaith hwnnw?
- A oes yna ddigon o dystiolaeth i gefnogi erlyniad?

- A fyddai erlyniad yn datrys y broblem presenoldeb?
- A fyddai erlyniad er lles y cyhoedd?

n. Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)

157. Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) yn amlinellu egwyddorion tegwch a gonestrwydd wrth ymchwilio i droseddau. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o ran ymchwilio ac erlyn rhieni am absenoldeb eu plentyn, bydd awdurdodau lleol yn amodol ar PACE pan fyddant yn cyfweld rhiant ynglŷn ag absenoldeb ei blentyn gyda'r nod o gael tystiolaeth ar gyfer erlyniad. Os na fydd awdurdod lleol yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol Codau Ymarfer PACE, hwyrach na ellir defnyddio tystiolaeth a gafwyd mewn cyfweiliad yn y llys, gan roi'r erlyniad cyfan mewn perygl. Trwy ddilyn PACE, gall yr awdurdod lleol wahodd y llys i ddod i gasgliad os bydd rhiant yn codi materion yn ei amddiffyniad yn ddiweddarach yn yr achos na chododd yn ystod y cyfweiliad.
158. Dylai awdurdodau lleol geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar ddefnyddio PACE mewn achosion penodol.
159. Am ragor o wybodaeth am PACE a fersiynau diweddaraf o'r codau PACE, ewch i <http://police.homeoffice.gov.uk/operational-policing/powers-pace-codes/pace-code-intro/>

Canllawiau pellach ar ddefnyddio PACE

160. Mae PACE, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 1986, yn amlinellu sut y dylai'r Heddlu neu unigolion heblaw Swyddogion yr Heddlu sydd â dyletswydd i ymchwilio i droseddau neu gyhuddo troseddwr ymddwyn wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn (adran 69(9) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984). Mae hyn yn cynnwys EWOs a swyddogion eraill awdurdodau lleol sy'n ymchwilio ac yn erlyn rhieni o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.
161. Cyhoeddir Codau Ymarfer PACE mewn perthynas â phwerau a gyflwynir o dan y Ddeddf, sy'n esbonio sut y dylid dehongli'r egwyddorion yn ymarferol. Yn achos presenoldeb afreolaidd yn yr ysgol, dyma'r codau y mae angen i EWOs ac awdurdodau lleol fod yn ymwybodol ohonynt:
162. Cod C - mewn perthynas â chyfweld pobl dan amheuaeth - yn enwedig, dylai'r rhiant:
- ddeall pwyntiau sylfaenol y cyfweiliad
 - bod yn ymwybodol o'i hawliau (i dawelwch a chynrychiolaeth gyfreithiol)
 - cael mynediad i gyngor cyfreithiol, cyfieithwyr ac oedolion priodol (e.e. pan fo gan y rhiant broblemau iechyd meddwl) fel sy'n briodol.
163. Dylid hefyd recordio'r cyfweiliad ar dâp neu drwy nodyn ysgrifenedig.
164. Cod E - Mae hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth recordio cyfweiliadau â phobl dan amheuaeth ac o ran trafod a diogelwch tapiau.

Pryd ddylai awdurdodau lleol ddefnyddio PACE?

165. Mae codau ymarfer PACE yn amlinellu fframwaith ymchwilio sy'n ystyried egwyddorion tegwch a chydarddoldeb, a dylid edrych arnynt fel arferion gorau. Felly, byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol weithio o fewn ysbryd PACE wrth ymchwilio i droseddau absenoldeb. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n glir ynglŷn â'r drosedd, yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau ac yn cael mynediad i gymorth lle bo'n briodol.
166. Dylai awdurdodau lleol gael cyngor cyfreithiol ynghylch a ddylid defnyddio Deddf PACE mewn perthynas â gwaith achos ac, os felly, pryd y dylid ei defnyddio. Fodd bynnag, fel canllaw:

Erlyniadau o dan adran 444(1))

167. O dan yr adran hon, mae angen i'r awdurdod lleol ddangos bod y plentyn wedi methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd heb awdurdod.
168. Mae'r erlyniad hwn yn dibynnu ar dystiolaeth ddogfennol a ddarperir gan yr ysgol, y cofnod presenoldeb, ac felly nid oes angen cael tystiolaeth trwy gyfnewid y rhiant na defnyddio tystiolaeth o'r fath yn y llys.
169. Felly, er bod gweithredu'n unol â Chod Ymarfer PACE yn arfer da, nid oes angen i'r awdurdod lleol ddilyn y codau wrth erlyn o dan yr adran hon.
170. Fodd bynnag, os bydd rhieni'n ymosodol neu'n gwrthod helpu, byddai'n briodol defnyddio PACE. Os bydd amgylchiadau'n codi lle na fydd hi'n bosibl rhybuddio'r rhieni am ryw reswm, dylid parhau â'r erlyniad heb gyflwyno'r rhybudd, a byddai'r EWS yn dilyn y canllawiau y cytunwyd arnynt o dan Ddeddf PACE.

Erlyniadau o dan adran 444(1A)

171. O dan yr adran hon, mae angen i'r awdurdod lleol ddangos bod y plentyn wedi methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd heb awdurdod, a bod y rhiant yn ymwybodol o hynny ac wedi methu gorfodi'r plentyn i fynychu'r ysgol yn rheolaidd heb gyfiawnhad rhesymol.
172. Dim ond os bydd erlyniadau blaenorol wedi methu ac y gellir rhagdybio bod y rhieni'n ymwybodol nad yw eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd y gellir cyflwyno achos o dan adran 444(1A). Yna, cyflwynir rhybudd terfynol penodol cyn dechrau cyflwyno achos o dan adran 444(1A).
173. Hwyrach y bydd angen i awdurdodau lleol gynnal cyfweiliadau gyda'r rhiant er mwyn canfod i ba raddau y mae'n ymwybodol o'r absenoldeb ac unrhyw gyfiawnhad rhesymol dros fethu gorfodi ei blentyn i fynychu'r ysgol. Os bydd yr awdurdod lleol am ddefnyddio tystiolaeth a gafwyd yn ystod y cyfweiliadau hyn fel rhan o'i achos dros erlyniad, dylai fod wedi cael y dystiolaeth honno o fewn codau ymarfer PACE.
174. Er na fydd methu cydymffurfio â'r codau a gyhoeddir o dan PACE ohono'i hun yn gwneud gweithiwr achos yn atebol mewn achos sifil neu droseddol, gallai arwain at beidio â defnyddio tystiolaeth a gafwyd trwy dorri'r codau, ac felly gallai beryglu'r erlyniad cyfan.

Cydymffurfio â PACE

Cod C - Beth sydd angen i chi ei wybod

Sail y cyfweliad

175. Cyn gofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r erlyniad posibl, dylai'r EWO esbonio i'r rhiant ar ba sail y mae'r cyfweliad yn cael ei gynnal h.y. bod yr awdurdod lleol yn ystyried erlyn y rhiant o dan adran 444 (1A) o Ddeddf Addysg 1996. Dylent esbonio beth yw'r drosedd a gwneud yn siŵr bod y rhiant yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud.

Hawl i adael a hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol

176. Hefyd, dylai'r rhiant fod yn ymwybodol nad yw wedi cael ei arestio a'i fod yn rhydd i adael unrhyw bryd. Dylid hefyd sicrhau ei fod yn ymwybodol bod ganddo hawl i gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol yn y cyfweliad. Dylai rhieni gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain ynghylch a yw cymorth cyfreithiol ar gael iddynt.

Rhybuddio

177. Dylai'r EWO neu swyddog yr awdurdod lleol sy'n cynnal y cyfweliad hefyd rybuddio'r rhiant fel a ganlyn:

Nid oes rhaid ichi ddweud dim, ond fe all fod yn niweidiol i'ch amddiffyniad os na chrybwyllwch, pan holir chi, rywbeth y byddwch yn dibynnu arno'n ddiweddarach mewn llys. Gellir defnyddio unrhyw beth a ddywedwch fel tystiolaeth.

178. Dylai'r EWO fodloni ei hun bod y rhiant yn deall byrdwn y rhybudd. Os bydd unrhyw doriad yn y cyfweliad, dylid atgoffa'r rhiant ei fod yn dal i fod yn destun rhybudd. Byddai hyn hefyd yn berthnasol pe bai'r rhybudd yn cael ei gynnwys mewn llythyr yn gwahodd y rhiant i'r cyfarfod.

Cyfieithydd

179. Os bydd rhiant yn cael trafferth deall Saesneg ac yn gwneud cais am gyfieithydd, dylai awdurdodau lleol drefnu bod cyfieithydd addas yn bresennol yn y cyfweliad.

Oedolyn Priodol

180. Mewn rhai achosion, hwyrach y bydd yna bryderon ynglŷn ag iechyd meddwl y rhiant. Os bydd yr awdurdod lleol o'r farn bod y rhiant yn dioddef o anhwylder meddwl neu'n agored i niwed oherwydd ei gyflwr meddyliol, dylid cyflwyno'r rhybudd a chynnal y cyfweliad ym mhresenoldeb oedolyn priodol. Gall hwn fod yn oedolyn sydd fel arfer yn gyfrifol am ofalu amdano, gweithiwr iechyd meddwl neu weithiwr cymdeithasol sydd â phrofiad o ddelio â phobl sy'n agored i niwed oherwydd eu cyflwr meddyliol neu oedolyn cyfrifol arall, ond ni ddylai fod yn rhywun sy'n cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol yn yr un adran â'r swyddog sy'n cynnal y cyfweliad.

181. Ni ddylid cynnal cyfweliad:

- os yw'r rhiant yn agored i niwed oherwydd ei gyflwr meddyliol ac nad oes oedolyn priodol ar gael
- os yw'r rhiant dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau
- os yw'r rhiant yn dioddef o salwch, anhwylder neu gyflwr arall a all effeithio ar ei allu i ddeall ac ateb y cwestiynau a ofynnir iddo mewn cyfweliad.

Cofnod o'r cyfweliad

182. Mae'n rhaid cadw cofnod cywir o bob cyfweliad, gan nodi'r lleoliad, amser dechrau a diwedd y cyfweliad ac, os yw'n wahanol, yr amser y gwnaed y cofnod.

183. Os yw'n bosibl, dylid tapio'r cyfweliad (gweler y canllawiau ar god E isod). Fodd bynnag, yn aml, ni fydd hyn yn bosibl i awdurdodau lleol. Yn y rhan fwyaf o achosion presenoldeb, caiff cyfweliadau rhwng swyddog yr awdurdod lleol a'r rhiant eu cofnodi trwy nodyn ysgrifenedig.

184. Os felly, dylid gwneud nodyn mor gywir â phosibl (gair am air o ddewis) yn ystod y cyfweliad a dylid rhoi cyfle i'r rhiant ddarllen y nodyn a'i lofnodi i gadarnhau ei fod yn gywir neu i nodi pa rannau sy'n anghywir yn ei farn ef. Lle bo'n bosibl, dylai ail swyddog o'r awdurdod lleol fod yn bresennol i wneud y nodyn.

185. Os yw cyfieithydd yn bresennol, dylai wneud nodyn o'r cyfweliad yn iaith y sawl sy'n cael ei gyfweld. Dylid neilltuo digon o amser i'r cyfieithydd wneud nodyn o bob cwestiwn ac ateb yn syth ar ôl iddynt gael eu traddodi a'u cyfieithu.

Cod E - Beth sydd angen i chi ei wybod

186. Yn aml, ni fydd gan awdurdodau lleol gyfarpar recordio er mwyn tapio cyfweliadau gyda rhieni. Os na fydd ganddynt fynediad i'r cyfarpar neu os nad yw tapio cyfweliad yn ymarferol, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod nodyn ysgrifenedig cywir yn cael ei wneud o'r cyfweliad fel yr amlinellir uchod. Fodd bynnag, os bydd awdurdodau lleol yn gallu tapio'r cyfweliad, dylent ddilyn y canllawiau a amlinellir isod.

187. Os caiff cyfweliad ei recordio, dylid gwneud hynny'n agored ac, os yw'n bosibl, ar ddau dâp ar beiriant casetiau dwbl. Dylai'r sawl sy'n cynnal y cyfweliad nodi bod y cyfweliad yn cael ei recordio. Dylai'r tapiau fod yn lân a chael eu hagor a'u llwytho i'r peiriant ym mhresenoldeb y rhiant.

188. Unwaith i'r recordiad ddechrau, dylai'r sawl sy'n cynnal y cyfweliad:

- nodi ei enw a'i swydd ac enw a swydd unrhyw gyfwelydd arall sy'n bresennol
- gofyn i'r rhiant ac unrhyw un arall sy'n bresennol gadarnhau eu henwau ar gyfer y tâp
- nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad
- cadarnhau y bydd y rhiant yn cael gwybod beth fydd yn digwydd i'r tapiau.

189. Os oes gan y rhiant nam ar ei glyw, dylid hefyd wneud nodyn ysgrifenedig o'r cyfweliad. Os bydd y rhiant yn gwrthwynebu recordio'r cyfweliad, dylid gofyn iddo gofnodi ei wrthwynebiadau ar y tâp cyn ei ddiffodd. Os bydd yn gwrthod cofnodi ei wrthwynebiadau, dylai'r sawl sy'n cynnal y cyfweliad gofnodi'r hyn y mae'n ei ddeall yw'r gwrthwynebiadau ar y tâp. Yna, dylid gwneud nodiadau ysgrifenedig o'r cyfweliad fel yr amlinellir uchod.
190. Dylid cofnodi unrhyw doriad a'r rheswm drosto ar y tâp. Ar ôl unrhyw doriad, dylid atgoffa'r rhiant ei fod yn dal i fod yn destun rhybudd neu gyflwyno'r rhybudd unwaith eto.
191. Ar ddiwedd y cyfweliad, dylid gofyn i'r rhiant a hoffai egluro neu ychwanegu unrhyw beth. Dylid cofnodi'r amser, diffodd y recordiwr a selio un tâp (y prif dâp) gyda label i'w lofnodi gan y cyfwelydd, y rhiant ac unrhyw drydydd parti (e.e. cyfreithiwr neu oedolyn priodol). Os oes yna ail dâp, gellir ei ddefnyddio fel copi gweithiol.
192. Yna, dylid cyflwyno i'r rhiant hysbysiad yn esbonio sut y defnyddir y recordiad [e.e. fel tystiolaeth yn y llys], trefniadau ar gyfer cael gafael ar y tâp [e.e. trwy fynychu swyddfeydd yr awdurdod lleol neu wneud cais am gopi o'r tâp drwy'r post] ac, os penderfynir parhau â'r erlyniad, copi o'r tâp cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Dylid gwneud copïau o'r tâp heb ei selio (y copi gweithiol). Os mai dim ond ar un tâp y gellir recordio, gellir gwneud copi o'r tâp wedi'i selio, ond dylid gwneud cofnod o'r amser, y dyddiad, y lleoliad, y bobl sy'n bresennol a'r camau a gymerwyd pan dorrwyd y sêl [e.e. "cafodd y tâp ei roi yn y recordiwr a'i chwarae er mwyn gwneud copi"].

o. Datgeliad

193. Mae Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA) yn amlinellu rhwymedigaethau penodol mewn perthynas â datgeliad, a chaiff ei hategu gan god ymarfer (Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, Cod Ymarfer), sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gofnodi a chadw deunydd a thystiolaeth.
194. Dylai EWOs a staff awdurdodau lleol sy'n ymchwilio neu'n erlyn o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 weithredu'n unol â Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA) a darpariaethau perthnasol cod ymarfer CPIA.
195. Dylai EWOs a staff awdurdodau lleol sy'n rhan o erlyniadau mewn achosion yn ymwneud ag absenoldeb o'r ysgol weithredu'n unol â Chanllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Ddatgeliad a gyhoeddwyd yn 2000.
(<http://www.attorneygeneral.gov.uk/attachments/disclosure.doc>)

Beth ddylech chi ei ddatgelu?

196. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddatgelu i'r rhiant unrhyw ddeunydd y mae'n bwriadu dibynnu arno i gefnogi ei achos ac unrhyw ddeunydd a all danseilio ei achos neu gefnogi achos y rhiant. Amlinellir y cyfnodau a'r broses o ddatgelu deunydd o'r fath isod.

Sut mae'r datgeliad hwn yn digwydd?

197. Yn gyntaf, dylai'r awdurdod lleol lunio crynodeb o'i achos yn amlinellu'r ffeithiau y mae'r awdurdod lleol yn dibynnu arnynt.
198. Os bydd y rhiant yn pledio'n ddieuog, dylai'r awdurdod lleol gynhyrchu rhestr o'r holl ddeunydd sydd ganddo sy'n cefnogi neu'n taseilio achos yr awdurdod lleol, gan amlinellu a fydd y deunydd yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â'r rhiant (h.y. gwneud copiâu a'u hanfon ato) neu, fel arall, lle y gellir ei weld. Gelwir hyn yn ddatgeliad sylfaenol.
199. Yna, gall y rhiant (neu ei gyfreithwyr) gyflwyno datganiad amddiffyn yn amlinellu natur yr amddiffyniad ac unrhyw faterion y mae'n anghytuno â nhw. Dylai'r awdurdod lleol ddarllen y datganiad amddiffyn yn ofalus ac ystyried a oes ganddo unrhyw ddeunydd nad yw wedi'i ddatgelu'n flaenorol ("deunydd erlyn nas defnyddiwyd") a allai gynorthwyo'r amddiffyniad y mae'r rhiant wedi'i gyflwyno yn y datganiad amddiffyn. Mae'n rhaid datgelu deunydd o'r fath. Gelwir hyn yn ddatgeliad eilaidd.
200. Gall y rhiant (neu ei gyfreithwyr) hefyd wneud cais am ddatgeliad penodol e.e. cofnodion yr ysgol. Dylid delio â cheisiadau o'r fath yn brydlon. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod lleol neu'r EWO fod yn effro i geisiadau ar hap. Dim ond os yw'n uniongyrchol berthnasol i'r achos y dylid datgelu deunydd h.y. os bydd yn cefnogi neu'n taseilio naill ai achos yr awdurdod lleol neu achos y rhiant.
201. Os yw'r awdurdod lleol yn gwrthod datgelu deunydd y gofynnwyd amdano (e.e. os nad yw'n ystyried ei fod yn berthnasol i'r achos), gall yr amddiffyniad wneud cais o dan adran 8 o'r CPIA i'r datgeliad gael ei orchymyn gan y llys. Yn yr un modd, gall yr amddiffyniad wneud cais i'r llys ar gyfer datgelu deunydd a gedwir gan drydydd parti. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i'r amddiffyniad fodloni'r llys o dan Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Presenoldeb Tystion) 1965 bod y deunydd yn debygol o fod yn dystiolaeth berthnasol.
202. Dylid hefyd ddatgelu dogfennau a all fod yn berthnasol i'r ddeddfryd e.e. gwybodaeth a all leihau difrifoldeb y drosedd.

p. Y broses erlyn

203. Dylai awdurdodau lleol ymgysylltu â llysoedd lleol i sicrhau bod yna ddealltwriaeth glir o bwerau a gweithdrefnau'r llys.
204. Ar gyfer adrannau EWS sy'n erlyn yn rheolaidd, archebir dyddiadau llys ymlaen llaw i leihau'r oedi rhwng rhybuddion / ceisiadau am wysion a dyddiad y gwrandawriad.
205. Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn darparu crynodeb o'r cyfnodau allweddol yn y broses erlyn, gan ddechrau gyda'r hysbysiad ffurfiol i'r rhiant.
206. Dylid nodi bod pob awdurdod lleol yn tynnu sylw'r llysoedd at wybodaeth mewn ffyrdd gwahanol. Mewn rhai awdurdodau lleol, Swyddogion y Gyfraith neu gyfreithwyr sy'n gyfrifol am gyflwyno achosion i'r llys ond, mewn achosion eraill, yr EWS sy'n gyfrifol. Dylid dilyn yr egwyddorion a amlinellir isod, pwy bynnag fydd yn cyflwyno'r achos i'r llys.

Hysbysu rhiant yn ffurfiol

- Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol ar ddechrau'r gwaith achos yn nodi y gall yr awdurdod lleol gymryd camau cyfreithiol.
- Neilltuo 15 diwrnod i'r rhiant wella'r sefyllfa cyn dechrau cymryd camau cyfreithiol.



Dechrau cymryd camau cyfreithiol

- Cyflwyno cais am wŷs i'r Llys Ynadon trwy 'gyflwyno gwybodaeth' gerbron y llys.
- Rhaid i'r wybodaeth gael ei chyflwyno gerbron y llys o fewn 6 mis i'r drosedd honedig a dylai gynnwys disgrifiad cryno o'r drosedd, enw'r troseddwr, dyddiadau'r drosedd a lle y cafodd ei chyflawni.
- Ystyried yr wybodaeth.
- Trefnu dyddiad y gwrandawriad.
- Y llys yn cyflwyno gwŷs - mae hon yn rhoi manylion y drosedd honedig, dyddiad y gwrandawriad ac ym mha lys y cynhelir y gwrandawriad.



Cyflwyno'r wŷs

- Penderfynu ar ddull y gwasanaeth - â llaw / post dosbarth cyntaf / post cofrestredig / gweinyddwr proses.
- Cael Tystysgrif Gwasanaeth. (Gweler isod)
- Ceisio darparu hysbysiad o ddyddiad y gwrandawriad o leiaf 10 diwrnod ymlaen llaw.
- Cynnwys Datganiad Tyst (adran 9, Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967) - dyma'r dystiolaeth y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei chyflwyno i'r llys.
- Cynnwys Tystysgrif Presenoldeb wedi'i llofnodi gan y pennaeth.
- Cynnwys manylion unrhyw gollfarnau blaenorol y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu dwyn at sylw'r llys.
- Cynnwys hysbysiad yn nodi bod gan y rhiant 7 diwrnod i wrthwynebu i gynnwys y datganiad tyst ac i wneud cais i'r 'tyst' (yr EWO) fod yn bresennol yn y gwrandawriad.
- Cynnwys ffurflen i'r rhiant nodi'r ble, ei llofnodi a'i dychwelyd i'r llys.



Y gwrandawriad llys

- Barnwr Rhanbarth / Mainc Leyg
- Dewis i wneud cais am ohiriad - caiff achos ei ohirio os bernir bod hynny er lles cyfiawnder.
- Gofyn i'r rhiant nodi ei ble.
- Ple Dieuog - gohirio'r achos tan i'r llys bennu dyddiad y treial.
- Ple Euog - cynrychiolydd yr awdurdod lleol yn amlinellu'r achos, ac yna'r rhiant neu ei gyfreithiwr.



Methu mynychu

- Anfon hysbysiad o'r gohiriad, gan nodi dyddiad newydd y gwrandawriad.
- Gall methu mynychu ar yr ail ddyddiad olygu y caiff yr achos ei glywed yn absenoldeb y rhiant.
- Erlyniadau o dan adran 444(1A) - gall y llys gyflwyno gwarant yn gorfodi'r rhiant i fynychu.



Pledio'n euog mewn absenoldeb

(adran 12, Deddf Llysoedd Ynadon 1980)

- Rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno tystiolaeth i'r rhiant cyn y gwrandawriad llys (datganiad tyst) a
- Diffynnydd yn nodi ei fod am bledio'n euog ac i'r achos gael ei drafod yn ei absenoldeb.
- Dim ond gwybodaeth a gyflwynir i'r diffynnydd y gellir cyfeirio ati yn y llys.
- Gall llys ddedfrydu ar sail yr hyn a gyflwynir ger ei fron.

Ddim yn briodol ar gyfer adran 444(1A)

q. Y dewisiadau dedfrydu sydd ar gael i'r llys

207. Wrth benderfynu ar ddedfryd, bydd y Llys Ynadon yn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynir i'r llys. Cyn penderfynu ar ddedfryd, bydd angen i'r Llys Ynadon ystyried ffactorau sy'n gwaethygu neu'n lliniaru'r drosedd yng nghyd-destun Canllawiau Dedfrydu Llysoedd Ynadon, sydd ar gael yn <http://www.sentencing-guidelines.gov.uk/>
208. Wrth gollfarnu, gall y llys ddewis o blith y gwahanol lwybrau sydd ar gael, gan gynnwys y canlynol:

Gohirio

209. Ar ôl collfarnu, dim ond am hyd at 4 wythnos ar y tro y gellir gohirio achos, a hynny er mwyn gwneud ymholiadau a phennu'r dull mwyaf addas o fynd i'r afael â'r achos. Yn ogystal, gellir gohirio'r achos cyn collfarnu, fel arfer am gyfnod penodol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, byddai'n rhaid i'r rhiant ailymddangos gerbron y llys, oni bai bod presenoldeb y plentyn wedi gwella a bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu dod â'r achos yn erbyn y rhiant i ben.

Rhyddhad Absoliwt

210. Os bydd achos yn cael ei brofi ond fod y llys yn credu nad yw'r rhiant yn haeddu cosb, gellir defnyddio'r dull gwaredu hwn. Gellir dyfynnu hyn mewn erlyniadau yn y dyfodol.

Rhyddhad Amodol

211. Mae'r dull gwaredu hwn yn ddedfryd sy'n para am gyfnod penodol, hyd at 3 blynedd. Os caiff y diffynnydd ei gollfarnu o drosedd arall yn ystod y cyfnod penodol, gallai gael ei ailddedfrydu am y drosedd hon.
212. Yn achos absenoldeb o'r ysgol, gellid defnyddio'r dull hwn os yw presenoldeb y plentyn wedi gwella. Cyn belled nad yw'r rhiant yn aildroseddu o fewn y cyfnod rhyddhau, ni chymerir unrhyw gamau pellach.

Dirwy

213. Ar gyfer trosedd o dan adran 444(1), gallai'r ddirwy hon fod hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd). Os yw'r drosedd o dan adran 444(1A), gallai'r ddirwy fod hyd at lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd). Wrth ystyried y ddirwy, mae'n rhaid i'r llys ynadon ystyried sut y bydd y troseddwr yn ei thalu.

Dedfryd Ohiriedig

214. Ystyr dedfryd ohiriedig yw pan fo'r penderfyniad i ddedfrydu'n cael ei ohirio am gyfnod penodol, hyd at uchafswm o 6 mis, yn dibynnu ar amodau penodol y mae'n rhaid i'r diffynnydd gytuno i gydymffurfio â nhw. Mae hyn yn galluogi'r llys i ystyried ymddygiad y rhiant ar ôl collfarnu. Bydd y llys yn esbonio beth y mae'n ei ddisgwyl yn ystod y gohiriad e.e. y plentyn i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Os bydd y rhiant yn bodloni disgwyliadau'r llys, gellid cyflwyno dedfryd lai.

Gorchmynion Cymunedol

215. Cyn pasio dedfryd gymunedol, mae'n rhaid i'r llys fod o'r farn bod y drosedd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau dedfryd o'r fath. Os nad yw'n ddigon difrifol, bydd dirwy neu ryddhad yn briodol. Ni ddylai'r gorchymyn cymunedol, sydd ar gael ar gyfer pobl 18 oed neu hŷn, bara mwy na 3 blynedd. Mae'n rhaid iddo hefyd gynnwys o leiaf un o'r deuddeg gofyniad canlynol.
- Gwaith Di-dâl: rhwng 40 a 300 awr, fel arfer o fewn cyfnod o ddeuddeg mis.
 - Gweithgarwch Penodol: gweithgarwch penodol am nifer penodol o ddiwrnodau a all fod at ddiben gwneud iawn.
 - Rhaglen: rhaglen achrededig benodol gyda'r nod o newid ymddygiad y troseddwr.
 - Gweithgarwch Gwaharddedig: ar amserau penodol, dylai'r troseddwr beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau penodol.
 - Cyrffyw: presenoldeb mewn lleoliad penodol am rhwng 2 a 12 awr y dydd am gyfnod penodol hyd at 6 mis. (Mae yna ragdybiaeth statudol y bydd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro'n electronig).
 - Gwaharddiad: atal rhag mynd i leoliad penodol am gyfnod penodol hyd at uchafswm o ddwy flynedd.
 - Preswylfa: preswyllo mewn lleoliad penodol am gyfnod penodol.
 - Triniaeth Iechyd Meddwl: y troseddwr yn cytuno i gael triniaeth gan neu dan oruchwyliaeth ymarferydd meddygol cofrestredig neu seicolegydd siartredig am gyfnod penodol gyda'r nod o wella cyflwr meddyliol y troseddwr.
 - Adsefydlu Cyffuriau: y troseddwr yn cytuno i gael triniaeth am gyfnod penodol gyda'r nod o leihau dibyniaeth ar gyffuriau neu'r duedd i'w camddefnyddio.
 - Triniaeth Alcohol: y troseddwr yn cytuno i gael triniaeth am gyfnod penodol, heb fod yn llai na 6 mis, gyda'r nod o leihau dibyniaeth ar alcohol.
 - Goruchwyliaeth: rhaid i'r troseddwr fynychu apwyntiadau i fonitro ei waith adsefydlu. Mae gofyniad goruchwyllo'n para hyd y gorchymyn.
 - Canolfan Bresenoldeb: y troseddwr, os yw'n iau na 25 oed, yn mynychu am nifer penodol o oriau (rhwng 12 a 36) heb fod yn hwy na 3 awr y dydd. Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr - Cymru sy'n gyfrifol am 'ganolfannau presenoldeb' yng Nghymru.
216. Mae yna 6 chanolfan bresenoldeb yng Nghymru (1 i oedolion a 5 i bobl ifanc). Prif ddiben canolfannau presenoldeb yw rhoi cyfyngiad ar amser hamdden troseddwr ifanc - maent ar agor ddyddiau Sadwrn am ddwy neu dair awr. Mae eu rhaglenni'n canolbwyntio ar waith grŵp i roi sgiliau sylfaenol i'r rhai sy'n mynychu - llythrennedd a rhifedd, sgiliau bywyd, coginio, cymorth cyntaf a rheoli arian, er enghraifft - yn ogystal ag annog y rhai sy'n mynychu i wneud defnydd gwell o'u hamser hamdden. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth o ddioddefwyr, sy'n ystyried effaith troseddu ar unigolion a'r gymuned a sut y gall yr unigolyn ifanc wneud iawn am hynny; a sesiynau ar ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol a materion iechyd rhywiol.

217. Yn aml, bydd y llys yn gorchymyn y Gwasanaeth Prawf i baratoi adroddiad cyn cyflwyno dedfryd gymunedol. Hwyrach y paratoir Adroddiad Dedfryd Benodol ar y dydd, ond bydd adroddiad cyn dedfrydu'n gofyn am ohirio'r achos.

Dedfrydau o Garchar (Dim ond ar gael o dan adran 444(1A))

218. Gallai hyn fod yn gyfnod o hyd at 3 mis. Mae'n rhaid i'r drosedd fod mor ddifrifol fel mai dim ond carchar sy'n briodol. Ni roddir y ddedfryd o garchar heb fod y rhiant yno. Fel arfer, bydd y llys yn gofyn i'r gwasanaeth prawf baratoi adroddiad cyn dedfrydu cyn ystyried dedfryd o garchar. O dan amgylchiadau eithriadol, gallai'r llys ohirio'r ddedfryd am hyd at 2 flynedd, yn amodol ar gwblhau gofynion yn y gymuned yn llwyddiannus.

r. Eithriadau: Yr elfennau cyfreithiol

Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006

219. Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn cynnwys llawer o gymalau'n ymwneud â disgyblaeth, ymddygiad a gwaharddiad. Mae'r adran hon yn amlinellu pa gymalau sy'n berthnasol i Gymru.

Cyfrifoldebau rhieni a disgyblion wedi'u gwahardd

- Adran 102 Cyfweliadau ailintegreiddio - gofyniad i benaethiaid ofyn i rieni fynychu cyfweliad ailintegreiddio.
- Adran 108 Symud disgyblion wedi'u gwahardd i eiddo dynodedig.
- Adran 109 Methu sicrhau presenoldeb yn yr ysgol.

Rhan 3: Dadansoddi Data Presenoldeb

220. Bwriad y rhan hon yw:

- rhoi crynodeb o'r codau presenoldeb ysgol newydd
- amlinellu'r wybodaeth ystadegol sydd ar gael i'r EWS
- crynhoi'r mathau o ddadansoddiadau
- darparu enghreifftiau o'r mathau o ddadansoddiadau i wella gwaith a dargedir; a
- darparu fframwaith sy'n galluogi awdurdodau lleol i hunanwerthuso eu gwaith ar bresenoldeb.

a. Codau presenoldeb ysgol

221. Un o gamau gweithredu allweddol y Cynllun Gweithredu ar Ymddygiad a Phresenoldeb oedd diwygio codau presenoldeb ysgol cyfredol a diweddarau'r canllawiau ar fonitro a dadansoddi absenoldeb. Mae'r codau newydd yn cefnogi dull mwy cyson o gasglu data presenoldeb ysgolion ledled Cymru ac yn hwyluso mwy o botensial i archwilio ymhellach y rhesymau pam mae disgyblion yn absennol.

222. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau'n cynrychioli rhaniad manylach o'r codau cyfredol ac nid ydynt yn effeithio ar ddsbarthiad cyffredinol presenoldeb sef presennol neu absenoldeb wedi'i awdurdodi/heb ei awdurdodi. Fodd bynnag, mae rhai newidiadau yn effeithio ar y dosbarthiad cyffredinol. Dyma'r prif newidiadau:

- 5ed categori ystadegol newydd, sef 'dim angen iddo/iddi fynychu', i'w ddefnyddio o dan nifer fach o amgylchiadau anaml penodol. Bydd y categori hwn yn cwmpasu absenoldeb oherwydd cau ysgol yn rhannol e.e. oherwydd tywydd gwael pan fo cyflwr y ffyrdd yn golygu na ellir teithio ar rai ffyrdd sy'n golygu mai dim ond rhai o'r disgyblion y gall bws neu darsi'r ysgol eu casglu. Ni chânt eu cofnodi fel absenoldeb heb ei awdurdodi mwyach.
- Os bydd plant Teithwyr ar gofrestr mwy nag un ysgol ac yn bresennol yn un o'r ysgolion hynny, gall yr ysgol(ion) eraill y maent ar eu cofrestr eu derbyn fel rhai sy'n derbyn gweithgarwch addysgol cymeradwy. Ni chânt eu cofnodi fel absenoldeb wedi'i awdurdodi mwyach.
- Erbyn hyn, dim ond os bydd ei gyfnod yn y ddalfa'n para o leiaf bedwar mis ac os bydd gan yr ysgol reswm rhesymol dros gredu na fydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw y gellir dileu enw troseddwr ifanc o'r gofrestr. Nodir ei fod ar absenoldeb wedi'i awdurdodi nes i'w enw gael ei ddileu o'r gofrestr. Os darperir gweithgarwch addysgol cymeradwy amgen yn ystod y cyfnod yn y ddalfa, gall yr ysgol nodi bod y disgybl yn derbyn gweithgarwch addysgol cymeradwy. Yn flaenorol, gellid dileu enw'r disgybl o'r gofrestr os oedd wedi bod yn absennol am bedair wythnos ac wedi'i gadw yn y ddalfa gan orchymyn llys.

223. Cofnodir y codau newydd o dan y categorïau ystadegol canlynol

- Presennol
- Gweithgarwch addysgol cymeradwy (a gaiff ei drin fel presennol)
- Absenoldeb wedi'i awdurdodi
- Absenoldeb heb ei awdurdodi
- Dim angen mynychu

Cod	Ystyr	Categori ystadegol
/ \	Presennol adeg cofrestru	presennol
L	Yn hwyr ond yn cyrraedd cyn diwedd cofrestru	presennol
B	Yn derbyn addysg oddi ar y safle (nid cofrestriad deuol)	gweithgarwch addysgol cymeradwy
D	Cofrestriad deuol (presennol mewn ysgol arall)	gweithgarwch addysgol cymeradwy
P	Gweithgarwch chwaraeon cymeradwy	gweithgarwch addysgol cymeradwy
V	Ymweliad neu daith addysgol	gweithgarwch addysgol cymeradwy
J	Cyfweliad	gweithgarwch addysgol cymeradwy
W	Profiad gwaith (nid dysgu seiliedig ar waith)	gweithgarwch addysgol cymeradwy
C	Amgylchiadau eraill wedi'u hawdurdodi (na chwmpesir gan god/disgrifiad priodol arall)	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
F	Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd iddo	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
H	Gwyliau teuluol y cytunwyd iddo	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
I	Salwch	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
M	Apwyntiad meddygol neu ddeintyddol	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
S	Absenoldeb astudio	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
E	Wedi'i wahardd ond heb wneud darpariaeth amgen	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
R	Diwrnod wedi'i neilltuo'n arbennig ar gyfer defodau crefyddol	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
T	Absenoldeb teithwyr	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
N	Dim rheswm dros yr absenoldeb wedi'i ddarparu hyd yma	Absenoldeb heb ei awdurdodi
O	Absenoldeb arall heb ei awdurdodi (na chwmpesir gan godau neu ddisgrifiadau eraill)	Absenoldeb heb ei awdurdodi
G	Gwyliau teuluol (na chytunwyd iddo neu dros gyfnod hirach na'r hyn y cytunwyd iddo)	Absenoldeb heb ei awdurdodi
U	Hwyr a chyrraedd ar ôl diwedd cofrestru	Absenoldeb heb ei awdurdodi
X	Sesiynau nad ydynt ar yr amserlen ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol	Dim angen mynychu
Y	Rhan o'r ysgol wedi gorfod cau	Dim angen mynychu
Z	Disgybl ddim ar y gofrestr hyd yma	Dim angen mynychu
#	Ysgol ar gau i bob disgybl	Dim angen mynychu

224. Mae canllawiau llawn ar ddefnyddio'r codau hyn ar y tudalennau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion ar wefan y Cynulliad.

b. Gwybodaeth ystadegol

225. Mae data ar ben ei hun yn annhebygol o ddarparu atebion i faterion sy'n codi – yn hytrach, mae'n gofyn cwestiynau y gallai'r atebion iddynt ddatrys problemau. Mae'n arfer da i awdurdodau lleol gasglu, dadansoddi a dosbarthu data ar bresenoldeb. Gall y gwaith o gyflwyno data fod yn bwerus tu hwnt o annog ysgolion a staff i ddangos diddordeb yn effaith unrhyw strategaethau a gyflwynir a all effeithio ar bresenoldeb.
226. Dylai awdurdodau lleol casglu a dadansoddi data ar sail o leiaf pob hanner tymor. Mae'n arfer da i gasglu'r data yn wythnosol neu fisol.
227. Ers cyflwyniad casgliad data presenoldeb electronig yn flynyddol yn 2008 mae data nawr ar gael ar lefel disgyblion unigol. Mae hyn yn galluogi ysgolion i nid yn unig fonitro patrymau presenoldeb disgyblion unigol ond hefyd ar draws grwpiau flwyddyn a cohortau penodol. Mae hyn yn caniatáu'r adnabyddiaeth gynnar o dueddiadau absenoldeb (h.y. pob dydd Llun neu ddydd Gwener). Mae rhai ysgolion hefyd yn cofnodi presenoldeb ym mhob gwrs sydd yn eu galluogi i ddadansoddi yn bellach y datblygiad o batrymau absenoldeb ar lefel disgybl, grŵp flwyddyn neu bwnc.
228. Mae'r dadansoddiad trylwyr o ddata presenoldeb yn gallu amlygu unrhyw ddangosyddion o ymddieithrio a all arwain at absenoldeb parhaol.

c. Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

229. Cyflwynwyd y Setiau Data Craidd Cymru Gyfan cyntaf ym mlwyddyn academiaidd 2009/2010. Mae cyflwyno'r setiau data hyn yn adlewyrchu'r penderfyniad i ddiddymu Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion o 31 Awst 2009 ac yn ymateb i faterion a gododd yn adroddiad Estyn yn 2008 ar y defnydd o ddata perfformiad mewn awdurdodau lleol ac ysgolion.
230. Cynhyrchir Set Ddata Graidd Cymru Gyfan ar gyfer pob ysgol i wella cysondeb a sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio i wella ysgolion yn gweithio i'r un set o ddadansoddiadau. Mae'r pecynnau'n ffordd allweddol o gefnogi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, ac maent yn cefnogi Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn ar gyfer 2010 ac yn gydnaws ag ef. Mae'r data mewn adroddiadau fformat sefydlog, ac yn cael ei gefnogi gan nodiadau cyfarwyddyd a deunyddiau hyfforddi.
231. Mae cyflwyno 'teuluoedd ystadegol' yn un o elfennau allweddol y dull newydd. Mae ysgolion yn cael eu grwpio mewn teuluoedd o oddeutu 10 yn ôl eu hamgylchiadau a nodweddion y disgyblion. Mae hyn yn galluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad, eu cryfderau, eu gwendidau a'u cynnydd eu hunain ag eraill sy'n gweithio o dan amgylchiadau tebyg. Bwriad y pecynnau yw helpu ysgolion i hunanwerthuso a hyrwyddo her a chymorth ar draws ysgolion.

232. Mae'r pecynnau'n cynnwys y data presenoldeb canlynol:

- % y sesiynau hanner diwrnod a gollir oherwydd absenoldeb heb ei awdurdodi fesul rhyw a blwyddyn ysgol, ar lefel ysgol, Cymru ac awdurdod lleol.
- % y sesiynau hanner diwrnod a gollir oherwydd pob math o absenoldeb fesul rhyw a blwyddyn ysgol, ar lefel ysgol, Cymru ac awdurdod lleol.
- Data meincnodi cenedlaethol yn seiliedig ar y gydberthynas rhwng % y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim ac absenoldebau o'r ysgol.

d. Dadansoddiad

233. Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod gan ysgolion fynediad i ddata lleol a chenedlaethol fel y gallant gael cyfle i'w roi ar waith. Mae'r tabl canlynol yn amlinellu rhai dadansoddiadau posibl ac yn rhoi enghreifftiau o ddefnyddiau posibl.

Math o ddadansoddiad	Sut mae ALLau yn gallu defnyddio'r dadansoddiadau	Sut mae ysgolion yn gallu defnyddio'r dadansoddiadau
Dadansoddiad o gyfraddau presenoldeb cyffredinol ysgolion o fewn awdurdod lleol.	Mae'n galluogi awdurdod lleol i bennu pa ysgolion sydd mewn trafferth a pha ysgolion sy'n perfformio'n dda.	Mae'n galluogi ysgolion i gael synnwyr o'u sefyllfa gymharol yn lleol a pha mor bwysig yw'r mater iddynt.
Dadansoddiad o gyfraddau absenoldeb heb ei awdurdodi ysgolion o fewn awdurdod lleol.	Fel uchod, ond hefyd, pan gânt eu dadansoddi ar lefel cod absenoldeb, mae'n rhoi syniad o dueddiadau neu faterion penodol e.e. cynnydd mewn gwyliau teuluol estynedig y tu hwnt i'r hyn y cytunwyd arno.	Mae'n galluogi ysgolion i ystyried a chanolbwyntio ar feysydd penodol o bryder e.e. cyrraedd yn hwyr ar ôl diwedd cofrestru.
Dadansoddiad o gyfraddau absenoldeb cyson	Mae'n galluogi awdurdod lleol i bennu pa ysgol neu pa ardal a allai fod yn cael problem â hyn.	Mae'n galluogi ysgolion i ystyried a chanolbwyntio ar unigolion penodol a rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â'r broblem
Dadansoddiad o gyfraddau presenoldeb mewn gwahanol grwpiau blwyddyn.	Mae'n rhoi syniad i'r awdurdod lleol o dueddiadau neu faterion rhwng gwahanol gohortau.	Fel gydag awdurdodau lleol, ond mae hefyd yn darparu gwybodaeth am faterion fel effeithiolrwydd posibl staff neu systemau ysgol mewn perthynas â phresenoldeb.
Dadansoddiad o welliant yng nghyfraddau presenoldeb awdurdod lleol.	Mae'n rhoi syniad o ba mor galed mae ysgol yn gweithio ar faterion presenoldeb. Gall hefyd roi syniad o lle mae arfer effeithiol.	Mae'n galluogi ysgolion i weld a yw'r mesurau a gymerant yn cael effaith a lle mae ysgolion lleol eraill yn gweithredu arfer da.

Math o ddadansoddiad	Sut mae ALLau yn gallu defnyddio'r dadansoddiadau	Sut mae ysgolion yn gallu defnyddio'r dadansoddiadau
Cymharu data â'r cyfartaledd cenedlaethol.	Darparu trosolwg o'r awdurdod lleol o gymharu ag awdurdodau lleol eraill ledled y wlad a rhoi cyrraeddau lleol yn eu cyd-destun.	Rhoi syniad o sut mae'r ysgol yn cyflawni o gymharu â safonau cenedlaethol.
Cymharu data â chymdogion ystadegol.	Fel uchod ond yng nghyd-destun amrywiaeth o ffactorau economaidd-gymdeithasol.	Fel uchod ond yng nghyd-destun amrywiaeth o ffactorau economaidd-gymdeithasol.
Cymharu data ysgolion lleol â nodweddion tebyg.	Mae hyn yn rhoi cyfle i'r awdurdod lleol wneud cymariaethau dilys (yn seiliedig ar faterion fel maint a phrydau ysgol am ddim ac ati) rhwng ysgolion lleol.	Mae'n rhoi cyfle i ysgolion lleol weithio mewn partneriaeth â'i gilydd mewn cyd-destun ystyrllon i rannu arfer da.
Cymharu cohortau o ddisgyblion ar gyfnodau pontio (e.e. cyfnod allweddol 2 i 3).	Mae'n galluogi awdurdodau lleol i asesu effaith newid ysgol ar bresenoldeb.	Mae'n rhoi syniad i ysgolion o ba mor effeithiol yw eu gweithdrefnau pontio ar gyfer disgyblion.
Cydberthynas rhwng AAA a phresenoldeb.	Gellid ei ddefnyddio i roi syniad o effeithiolrwydd polisi cynhwysiant cymdeithasol.	Mae'n amlygu materion mynediad a chynhwysiant posibl.
Cydberthynas rhwng ethnigrwydd, rhyw, statws derbyn gofal a phresenoldeb.	Mae'n amlygu materion mynediad a chynhwysiant posibl.	Mae'n amlygu materion mynediad a chynhwysiant posibl.
Cydberthynas rhwng ymddygiad a phresenoldeb.	Mae'n amlygu materion cynhwysiant posibl.	Mae'n amlygu materion cynhwysiant posibl.
Cydberthynas rhwng presenoldeb a chyrraeddad.	Mae'n hollbwysig i wella chyrraeddad.	Mae'n hollbwysig i wella chyrraeddad.

234. Trwy ddadansoddi data presenoldeb, hwyrach y bydd hi'n briodol gofyn y cwestiynau canlynol:

- Beth yw'r lefelau absenoldeb?
- Sut mae'r rhain yn cymharu â ffigurau'r awdurdod lleol a'r ffigurau cenedlaethol?
- A oes unrhyw dueddiadau ar gyfer bechgyn, merched neu'r holl ddisgyblion?
- A ellir priodoli lefelau absenoldeb i ddisgyblion penodol yn yr ysgol?
- Pa strategaethau sydd wedi'u defnyddio i fynd i'r afael ag absenoldeb disgyblion penodol?
- A yw'r strategaethau hyn wedi effeithio ar bresenoldeb?

235. Mae gan bob ysgol lawer o wybodaeth am bresenoldeb nad yw'n cael ei defnyddio bob amser. Gall yr wybodaeth hon fod o ddefnydd mawr i ysgolion wrth gyflawni gwaith cynllunio strategol, a gall alluogi ysgolion i reoli materion presenoldeb yn fwy effeithiol. Gall ffigurau presenoldeb ysgol gyfan a gynhyrchir yn fisol, yn dymhorol neu'n flynyddol, yn seiliedig ar grwpiau blwyddyn, nodi ffactorau fel:

- gostyngiad yn lefelau presenoldeb grwpiau blwyddyn; ac
- effaith presenoldeb tymhorol e.e. gall presenoldeb ddirywio yn ystod misoedd oerach a chyn gwyliau ysgol.

236. Gall ffigurau wythnosol ddangos:

- effaith absenoldeb staff
- gostyngiad mewn presenoldeb cyn diwrnodau hyfforddi athrawon, hanner tymor, absenoldeb astudio neu brofiad gwaith
- effaith gorffen tymor ar ddydd Llun neu ddydd Mawrth
- effaith diwrnodau gweithgarwch, teithiau dydd neu deithiau preswyl
- effaith amserau'r diwrnod ysgol; ac
- effaith gwyliau disgyblion yn ystod y tymor.

237. Gall dadansoddiad parhaus o bresenoldeb disgyblion unigol a'r ysgol gyfan gyfrannu at gynllunio strategol. Trwy nodi'r lefelau hynny y mae'r ysgol o'r farn eu bod yn dangos absenoldeb parhaus neu bresenoldeb afreolaidd, mae'n bosibl nodi maint y broblem. Yna, gall yr ysgol dargedu amser a ddarperir gan yr EWO a staff bugeiliol yn fwy effeithiol trwy gynhyrchu:

- cofnodion presenoldeb unigol sy'n amlygu'r rhesymau dros absenoldeb a phatrwm a chyfradd yr absenoldeb heb ei awdurdodi; a
- chael rhestr o'r holl ddisgyblion sy'n absennol heb esboniad y gellir eu defnyddio i roi adborth i'r aelod staff cyfrifol.

238. Yna, bydd y staff bugeiliol yn gallu nodi'r disgyblion hynny sy'n peri pryder iddynt. Byddai defnyddio codau absenoldeb, a dosbarthu absenoldeb fesul dosbarth a / neu grŵp, yn golygu bod modd nodi absenoldeb gormodol heb ei awdurdodi.

e. Dosbarthu data

239. Mae'r gwaith o ddsbarthu data'n tynnu sylw at bresenoldeb, sy'n hollbwysig i gyrhaeddiad a chynhwysiant cymdeithasol, gan hwyluso'r gwaith o fynd i'r afael â'r mater. Mae'n bwysig esbonio'r data i ryw raddau fel y gall y rheini sy'n ei dderbyn wneud y defnydd gorau ohono, gwneud penderfyniadau adeiladol a gofyn cwestiynau allweddol a fydd yn golygu bod modd gwneud gwelliannau.
240. Dylai'r rhai sy'n derbyn data'n rheolaidd gynnwys Prif Swyddogion Addysg ac aelodau staff perthnasol eraill awdurdodau lleol, gan gynnwys Prif Gynghorwyr, Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu, Penaethiaid, y Tîm Troseddau Ieuencid, yr Heddlu, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Weithredwyr ac aelodau etholedig. Dylai'r data a'r dadansoddiadau gael eu dosbarthu'n dymhorol ac yn flynyddol (blwyddyn academaidd). Mae'n arfer da ymgynghori â'r rheini sy'n derbyn y data er mwyn penderfynu a oes angen unrhyw ddatansoddiadau newydd ac a ellir gwella'r wybodaeth mewn unrhyw ffordd.
241. Gall gwerthuso presenoldeb wythnosol mewn sesiynau penodol ddangos patrymau rheolaidd o absenoldeb, a gall ddangos, er enghraifft, cysylltiad â phynciau, athrawon neu grwpiau addysgu penodol. Gall dadansoddiad o'r fath hefyd dynnu sylw pobl at welliant neu ddirywiad ym mhresenoldeb disgyblion unigol. Gall y dadansoddiad helpu i dargedu ymyrraeth yn fwy dethol a helpu i ganfod y rheswm dros absenoldeb.

f. Dull Hunanwerthuso - Rhestr Wirio Arferion Presenoldeb Da

Fframwaith Hunanwerthuso

240. Mae'r fframwaith hunanwerthuso wedi'i gynhyrchu i gefnogi awdurdodau lleol a helpu i bennu sefyllfa'r awdurdod lleol. Gellir ei ddefnyddio fel dull hunanwerthuso ac i gefnogi'r gwaith o nodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith datblygu.
241. Mae'r fframwaith hunanwerthuso'n adlewyrchu elfennau'r Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion. Y bwriad yw disgrifio pob elfen 'fel y mae'n ymddangos' mewn awdurdod lleol. Mae'r datganiadau hyn wedi'u gosod ar hyd continiwm o 'disgwyliedig' i 'trawsffurfio'. Mae'r continiwm yn disgrifio taith o welliant a'r cyfnodau y gallai awdurdod lleol fynd trwyddynt wrth iddo geisio sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer pob dysgwr. Yn gyffredinol, dyma'r diffiniadau o bob cyfnod:

Disgwyliedig	Datblygu	Dyfnhau	Trawsffurfio
Mae elfennau ac agweddau'r Fframwaith ar waith i'r graddau y gellid ei ddisgwyl gan bob awdurdod lleol.	Mae yna synnwyr clir o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn elfennau'r fframwaith. Mae strategaethau i adeiladu ar gryfderau a mynd i'r afael â meysydd i'w datblygu ar waith. Mae effaith yn amlwg mewn rhannau o'r awdurdod lleol.	Mae arweinyddiaeth wasgaredig, ynghyd â diwylliant cynhwysol cryf, yn effeithio ar bresenoldeb, canlyniadau dysgwr a lles ledled yr awdurdod lleol.	Mae arferion effeithiol yn cael eu hymwreiddio a'u cadw. Maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u gwerthuso am eu heffaith ar ganlyniadau dysgu a lles. Mae'r gwerthusiadau hyn yn llywio cynllunio ar gyfer y dyfodol. Maent yn cynnwys ac yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae'r awdurdod lleol yn rhannu arferion ag eraill yn rheolaidd.

Presenoldeb	Disgwyliedig	Datblygu	Dyfnhau	Trawsffurfio
<p>Gwelliant ac Atebolirwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Data • Targedau • Gwerthuso 	<p>Data wedi'i gasglu a'i adrodd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Presenoldeb cyffredinol • Absenoldeb heb ei awdurdodi <p>Mae angen datblygu'r gwaith o werthuso'r gwasanaeth i lywio polisi ac ymarfer.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r dangosydd perfformiad cenedlaethol (EDU/016) ac ystod ehangach o ddata lleol a chenedlaethol (e.e. Setiau Data Craidd Cenedlaethol) i wella cyfraddau presenoldeb ar lefelau cynradd ac uwchradd.</p>	<p>Gwneir rhywfaint o ddadansoddi data ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bresenoldeb cyffredinol • Absenoldeb heb awdurdodi • Nifer yr ysgolion uwchradd â lefelau presenoldeb uwch • Nifer yr ysgolion cynradd â lefelau presenoldeb uwch • Cyfradd cau achosion oherwydd gwelliant i gyfraddau presenoldeb a sichawyd gan EWS <p>Gwerthusir y gwasanaeth i ryw raddau ac mae'n cael ei ddatblygu i lywio polisi ac ymarfer.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r dangosydd perfformiad cenedlaethol (EDU/016) ac ystod ehangach o ddata lleol a chenedlaethol (e.e. Setiau Data Craidd Cenedlaethol) i olrhain gwelliant yng nghyfraddau presenoldeb ar lefelau cynradd ac uwchradd.</p>	<p>Mae data'n cael ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i gynllunio'r cynllun yn strategol.</p> <p>Cynhelir gwerthusiad o'r gwasanaeth ac mae'n cael ei rannu i lywio polisi ac ymarfer.</p> <p>Gall yr awdurdod lleol ddangos bod presenoldeb mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion arbennig yn gwella ac ar y trywydd iawn i fodloni targedau.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r dangosydd perfformiad cenedlaethol (EDU/016) ac ystod ehangach o ddata lleol a chenedlaethol (e.e. Setiau Data Craidd Cenedlaethol) i olrhain gwelliant a llywio gwaith cynllunio mentrau ar gyfer presenoldeb ar lefelau cynradd ac uwchradd.</p>	<p>Mae gan yr awdurdod lleol ganlyniadau clir yn gysylltiedig â strategaethau a mentrau cyfredol ar gyfer gwella presenoldeb.</p> <p>Mae'r holl waith yn cael ei lywio gan ddadansoddiad data cynhwysfawr, gan gynnwys cymharu'r awdurdodau.</p> <p>Caiff y gwerthusiad o'r gwasanaeth ei fesur a'i ddefnyddio i lywio polisi ac ymarfer.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r dangosydd perfformiad cenedlaethol (EDU/016) ac ystod ehangach o ddata lleol a chenedlaethol (e.e. Setiau Data Craidd Cenedlaethol) yn ei ddadansoddiad data i lywio'r holl waith.</p>

Presenoldeb	Disgwyliedig	Datblygu	Dyfnhau	Trawsfurfio
<p>2. Arweinyddiaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> Polisiau a gweithdrefnau 	<p>Mae Polisi Presenoldeb yr awdurdod lleol wrthi'n cael ei ddatblygu.</p> <p>Mae polisiau presenoldeb yn canolbwyntio ar wasanaethau presenoldeb ac yn cael eu diweddarau i gynnwys yr holl randdeiliaid.</p>	<p>Mae'r awdurdod lleol yn datblygu Polisi Presenoldeb sy'n nodi'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau gwahanol a ddisgwyliar gan randdeiliaid a fydd yn canolbwyntio ar effaith gwaith a gyflawnir o fewn yr awdurdod lleol (gan gynnwys ysgolion).</p>	<p>Mae yna Bolisi Presenoldeb clir. Mae polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig yn ymwneud â phresenoldeb ac absenoldeb parhaus yn cael eu rhannu a'u dilyn ar sawl lefel gan swyddogion, ysgolion, disgyblion a rhieni / gofalwyr.</p>	<p>Mae canlyniadau'n cael eu mesur a pholisiau a gweithdrefnau'n cael eu haddasu i adlewyrchu arferion effeithiol.</p>
<p>3. Ymyrraeth a Chymorth:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwella canlyniadau i bawb Cau'r bylchau ar gyfer plant diffreintiedig 	<p>Mae gwaith cynllunio a chymau gweithredu sy'n ymwneud â phresenoldeb yn cael eu datblygu i sicrhau nad y gwasanaeth presenoldeb yn unig sy'n gyfrifol amdano.</p> <p>Darperir cymorth i ddisgyblion agored i niwed sy'n absennol byth a hefyd gan y gwasanaeth presenoldeb ac ysgolion.</p> <p>Mae cyfraddau presenoldeb grwpiau agored i niwed fel Teithwyr, Plant sy'n Derbynn Gofal a'r rheini ag Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu monitro.</p>	<p>Mae pob ysgol a rhan o'r awdurdod lleol yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i gyfrannu at wella presenoldeb a lleihau achosion o absenoldeb.</p> <p>Mae gan yr awdurdod lleol ddull integredig o gefnogi disgyblion a nodir.</p> <p>Mae cyfraddau presenoldeb grwpiau agored i niwed fel Teithwyr, Plant sy'n derbyn Gofal a'r rheini ag Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu dadansoddi i lywio ymarfer.</p> <p>Mae gweithdrefnau cyfeirio ar gyfer ysgolion i awdurdodau lleol yn glir, yn gyson ac yn cael eu dilyn.</p>	<p>Cyflawnir gwaith cynllunio ar gyfer presenoldeb yn strategol yn unol â'r strategaeth bresenoldeb.</p> <p>Mae'n amlwg bod yr awdurdod lleol yn defnyddio data i nodi grwpiau agored i niwed a chynllunio ar draws gwasanaethau ac ysgolion i sicrhau bod adnoddau'n cyfateb i'r angen.</p> <p>Mae atgyfeiriadau gan ysgolion a gwasanaethau'n gyson ac yn sicrhau bod disgyblion agored i niwed yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.</p> <p>Mae presenoldeb mewn darpariaeth amgen yn cael sylw manwl, gyda llinellau cyfathrebu ac atebolrwydd clir.</p>	<p>Mae'r awdurdod lleol yn glir iawn ynglŷn â pha mor gynnar y darperir ymyrraeth a pha strategaethau sy'n gwella presenoldeb.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn gwybod pa wasanaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ar absenoldeb parhaus.</p> <p>Lle nodir bylchau, mae'r awdurdod lleol yn cytuno ar y ffordd orau o fynd i'r afael â nhw.</p>

Presenoldeb	Disgwyliedig	Datblygu	Dyfnhau	Trawsfurfio
<p>4. Gweithio gydag Eraill / Rhwydweithiau o Arferion Proffesiynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio mewn partneriaethau - ysgolion a gwasanaethau • Datblygu diwylliant ysgol 	<p>Mae ysgolion a'r awdurdod lleol yn datblygu cynllun gweithredu i leihau absenoldeb parhaus.</p> <p>Mae gwasanaethau cymorth yn datblygu eu gallu cyfyngedig mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn sefydlu diwylliant o gyfrifoldeb ysgol gyfan dros bresenoldeb.</p> <p>Mae gwaith partneriaeth yn datblygu i wneud presenoldeb yn gyfrifoldeb a rennir yn hytrach nag yn waith i ddim presenoldeb yr awdurdod lleol yn unig.</p> <p>Mae gan yr awdurdod lleol rywfaint o dystiolaeth o farn disgyblion a rhieni ar bresenoldeb.</p>	<p>Mae'r awdurdod lleol yn gwybod bod ysgolion yn mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus yn eu gwaith cynllunio cyffredinol.</p> <p>Mae partneriaethau ysgol ac awdurdod lleol yn dechrau cydgyssylltu a blaenoriaethu gwasanaethau i leihau absenoldeb parhaus.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn gweithio i annog ysgolion i ysgwyddo cyfrifoldeb ysgol gyfan ac mae hyn yn gweithio mewn rhai ysgolion.</p> <p>Mae awdurdodau lleol yn bwriadu ymgynghori ag amrywiaeth o ddisgyblion a rhieni ynglŷn â'u barn a'u profiadau mewn perthynas â phresenoldeb.</p> <p>Defnyddir mesurau cyfrifoldeb rhieni ond nid yw'r system i bennu effaith hyn wedi sefydlu'n llawn.</p> <p>Mae llenyddiaeth a gwybodaeth am bresenoldeb ar gael.</p>	<p>Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod ganddynt gyntundeb cyson a chydgyssylltiedig gydag amrywiaeth o wasanaethau cymorth.</p> <p>Mae ymyrraeth gynnar yn sicrhau bod gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n absennol byth a hefyd.</p> <p>Gall yr awdurdod lleol ddangos bod pob ysgol wedi ysgwyddo cyfrifoldeb ysgol gyfan, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Uwch arweinydd ar gyfer presenoldeb a swyddogaethau a chyfrifoldebau clir a chyson ar gyfer yr holl staff • Defnyddio data i lywio ymarfer • Gwaith i leihau nifer y disgyblion sy'n absennol byth a hefyd <p>Defnyddir amrywiaeth o fesurau cyfrifoldeb rhieni a chaiff effaith y rhain ei mesur a bydd camau'n cael eu cymryd.</p>	<p>Caiff effaith y cymorth a gynigir gan wasanaethau i'r bartneriaeth i leihau absenoldeb parhaus ei mesur bob tymor a chaiff camau gweithredu eu haddasu os yw lefelau effaith yn isel.</p> <p>Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau'n cydnabod y cymorth cadarnhaol ac amserol sydd ar gael.</p> <p>Cysylltiadau datblygedig ag ynadon lleol yn eu lle.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi rhannu arferion effeithiol ac yn mesur canlyniadau i helpu ysgolion i lywio meysydd i'w datblygu yn y dyfodol.</p> <p>Ymgynghorir yn rheolaidd â disgyblion ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys presenoldeb a lles.</p>

Presenoldeb	Disgwyliedig	Datblygu	Dyfnhau	Trawsffurfio
<p>5. Cwricwlwm ac Addysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dulliau addysgu a dysgu personol • Datblygu'r gweithlu 	<p>Mae cynlluniau a disgwyliadau wedi'u sefydlu yn yr holl ddarpariaeth i sicrhau agwedd uned/ysgol gyfan at bresenoldeb gydag arferion a gweithdrefnau sy'n diogelu'r holl ddisgyblion a'r staff. Mae'r awdurdod lleol yn datblygu'r system i sicrhau cysondeb.</p> <p>Mae gan staff y gwasanaeth presenoldeb ddealltwriaeth glir o sut mae eu rôl yn cyfrannu at amcanion a blaenoriaethau'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.</p> <p>Darperir rhywfaint o hyfforddiant presenoldeb.</p> <p>Darperir goruchwyliaeth yn rheolaidd gan weithwyr presenoldeb proffesiynol.</p>	<p>Gwneir cysylltiadau rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad i gefnogi ysgolion.</p> <p>Mae angen datblygu hyn ymhellach fel ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn darparu'r holl gymorth sydd ei angen ar Unedau Cyfeirio Disgyblion, Ysgolion Arbennig a darpariaethau amgen i sefydlu arferion i hyrwyddo presenoldeb a lleihau absenoldeb parhaus.</p> <p>Caiff disgyblion agored i niwed eu nodi'n gyflym a chynigir cymorth perthnasol.</p> <p>Mae gan weithlu'r awdurdod lleol ddigon o wybodaeth am bresenoldeb i gynnig cyngor lle bo'n briodol.</p> <p>Mae yna gyfleoedd ar gyfer hyfforddi ar y cyd.</p>	<p>Ystyrir bod ansawdd yr addysgu a dysgu'n rheswm dros bresenoldeb. Cymeir camau priodol i fynd i'r afael ag absenoldeb trwy strategaethau gwella ysgol effeithiol.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn darparu data fel y gall ysgolion feincnodi gwelliant.</p> <p>Mae lefelau cymorth a her yn amlwg, gyda disgwyliadau clir mewn perthynas â safonau.</p> <p>Mae'r awdurdod lleol yn darparu archwiliadau ffurfiol fel rhan o adolygiadau gwella ysgolion rheolaidd gydag adborth clir i gefnogi'r gwaith o gynllunio camau gweithredu.</p> <p>Mae yna raglen datblygu staff y cytunwyd arni i sicrhau cysondeb a datblygiad arbenigedd ym maes presenoldeb yn yr ysgol.</p>	<p>Mae yna ddealltwriaeth glir ynglŷn ag effaith presenoldeb ar gyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig.</p> <p>Mae camau priodol yn cael eu cymryd gan yr holl wasanaethau perthnasol a chaiff yr effaith ei mesur a'i rhannu gydag ysgolion.</p> <p>Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth glir o effaith y math o ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud ar gyfer disgyblion sy'n absennol byth a hefyd a gall ddangos gwelliannau.</p> <p>Mae yna adolygiad parhaus o anghenion datblygiad proffesiynol staff mewn awdurdod lleol i sicrhau bod ganddo'r sgiliau i gefnogi a herio ysgolion.</p> <p>Mae gan staff lawer o sgiliau ac mae yna lwybrau datblygiad proffesiynol sy'n croesi disgyblaethau.</p>

Rhan 4: Gweithdrefnau a Gweithredu Ymarferol

242. Bwriad rhan hon yw:

- Amlinellu gweithdrefnau ar gyfer yr EWS
- Darparu cyfeiriadau at ddogfennau perthnasol eraill; ac
- Amlygu meysydd/materion sy'n wynebu'r EWS a chefnogi ymatebion gyda chanllawiau.

a. Diogelu ac amddiffyn plant

243. Mae gan bob aelod o dîm EWS gyfrifoldeb i: -

- Helpu i nodi pryderon lles a dangosyddion camdriniaeth neu esgeulustod posibl mewn perthynas â phob disgybl yn gynnar, gan atgyfeirio'r pryderon hynny at yr asiantaeth briodol (y categorïau camdriniaeth yw camdriniaeth gorfforol, emosiynol, rhywiol ac esgeulustod)
- Gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn gyfarwydd â gweithdrefnau diogelu ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddarparu cyngor a hyfforddiant yn ôl y gofyn
- Helpu asiantaethau amddiffyn plant i ymchwilio i gamdriniaeth ac i amddiffyn plant sydd "mewn perygl" yn ôl y gofyn
- Cynrychioli addysg mewn adolygiadau, grwpiau craidd a chynadledau achos Amddiffyn Plant
- Lle bo'n briodol, gweithredu fel eiriolwr y plentyn
- Bod yn ymwybodol o faterion megis priodas dan orfod, masnachu mewn plant, diogelu plant y ffugiwyd eu salwch a diogelu plant rhag camdriniaeth mewn perthynas â chredoau eu bod wedi'u meddiannu gan ysbryd drwg.

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

244. Dylai holl staff yr EWS gydymffurfio'n llawn â'r fersiwn ddiweddaraf o'r gweithdrefnau gan eu bod yn rhan hanfodol o'r agenda ehangach mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc a hyrwyddo eu lles. Mae'r gweithdrefnau wedi'u hailysgrifennu a'u diwygio'n sylweddol i ystyried newidiadau mwy diweddar mewn polisi a deddfwriaeth.

245. Mae'r canllawiau ar gyfer EWOs yn nodi:

- Os oes yna bryder neu os gwneir honiad o gamdriniaeth mewn sefyllfa ysgol, dylid rhoi gwybod yn syth i'r pennaeth neu'r aelod staff uwch â chyfrifoldeb dros ddelio â materion amddiffyn plant a dylid dilyn gweithdrefnau'r ysgol.
- Os oes yna bryder neu os gwneir honiad o gamdriniaeth "y tu allan i'r sefyllfa ysgol", dylid dilyn yr un gweithdrefnau yn ddi-oed.

246. Mae Polisi Amddiffyn Plant Enghreifftiol yn Adran 2.

247. Mae canllawiau pellach ar gael yn Diogelu Plant mewn Addysg (Cylchlythyr Rhif 005/2008). Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys atodiad ar feysydd cyfrifoldeb eang yr Unigolyn Dynodedig Uwch dros Amddiffyn Plant.

b. Cyflogaeth / Perfformiadau

248. Cynhwysir y prif ddarpariaethau sy'n llywodraethu cyflogaeth plant yn adran 18 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Gall is-ddeddfau Awdurdodau Lleol a wneir o dan Ddeddf 1933 osod amodau pellach ar yr oriau ac amgylchiadau gwaith a natur y gyflogaeth a ganiateir. Er bod yr is-ddeddfau hyn yn gwahaniaethu o awdurdod i awdurdod mae'n rhaid i bob un gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r egwyddor gyffredinol mai lles y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf. Mae'r Rhwydwaith Cenedlaethol dros Blant mewn Cyflogaeth neu Berfformiadau (NNCEE) yn darparu mwy o wybodaeth yn <http://www.bucksinfo/nncee/>

Cyflogaeth Plant: Ffeithiau Allweddol

- Ni ddylai unrhyw un o dan 13 oed weithio'n rhan-amser.
- Dim ond ar ôl gadael yr ysgol yn swyddogol y gall unigolyn ifanc weithio'n llawn amser.
- Dim ond rhwng 7am a 7pm a'r tu allan i oriau ysgol y gellir gweithio.
- Gall pobl ifanc 13 ac 14 oed weithio hyd at 2 awr ar ddiwrnodau ysgol a 5 awr ar ddydd Sadwrn ac yn ystod y gwyliau, hyd at uchafswm o 12 awr yr wythnos yn ystod y tymor a 35 awr yr wythnos yn ystod y gwyliau.
- Ni ddylai unigolyn ifanc o unrhyw oedran weithio mwy na 2 awr ar ddydd Sul.
- I sicrhau amddiffyniad ac yswiriant, mae'n rhaid i gyflogwyr gofrestru'r holl blant sy'n gweithio iddynt gyda'r awdurdod lleol.
- Nid yw'r isafswm cyflog yn berthnasol i blant o dan 16 oed.
- Gellir atal plant rhag gweithio os bydd eu presenoldeb a/neu eu prydlondeb yn yr ysgol neu eu hiechyd yn dioddef.
- Ni all plant weithio mewn tafarn neu glwb; arcêd neu ffair; warws neu ffatri; lladd-dy neu safle bwtsiera; cegin neu siop goginio; ar stryd; mewn theatr neu sinema oni bai eu bod wedi'u trwyddedu i weithio yno.
- Ni all plant werthu alcohol, sigarêts neu feddyginiaeth; bod yn rhan o unrhyw gamblo; danfon llaeth; gwerthu o ddrws i ddrws; casglu arian; gweithio gyda pheiriannau neu gemegau peryglus; didoli clytiau neu sbwriel; cyflawni gwaith a all achosi anaf neu niwed.
- Dim ond gwaith ysgafn y gellir cyflogi pobl ifanc 14, 15 ac 16 oed i'w gyflawni (eithriadau uchod).
- Caniateir i bobl ifanc 13 oed gyflawni gwaith ysgafn yn y safleoedd canlynol yn unig: gwaith amaethyddol neu arddwriaethol; danfon papurau newydd, cylchgronau, taflenni; gwaith siop; siopau trin gwallt; gwaith swyddfa, mewn caffi neu fwyty (ond nid yn y gegin); mewn stablau marchogaeth a chyfleusterau gofalu am gathod a chŵn.

Gwaith Rhan-amser - Oriau gwaith a ganiateir:

249. Os yw plentyn neu unigolyn ifanc yn gweithio, mae'r rheolau canlynol yn berthnasol tan iddynt gyrraedd oedran gadael ysgol. Dylai ffurflen gais wedi'i llofnodi gan eu rhieni a'u cyflogwr gael ei llenwi a'i hanfon i'r awdurdod lleol isod cyn iddynt ddechrau gweithio.

Oedran	Oriau y gellir gweithio	Yn ystod yr oriau canlynol -
13 ac 14	Diwrnod ysgol	Dim mwy na chyfanswm o 2 awr mewn un diwrnod yn ystod y cyfnodau canlynol: a) Yn y bore rhwng 7am a dechrau'r diwrnod ysgol (uchafswm o 1 awr) b) Gyda'r nos rhwng diwedd y diwrnod ysgol a 7pm
	Dydd Sadwrn*	5 awr y dydd rhwng 7am a 7pm
	Dydd Sul	2 awr y dydd rhwng 7am ac 11am
	Hyd at uchafswm o 12 awr mewn unrhyw wythnos y mae'n ofynnol i fyfyrwyr fynychu'r ysgol	
	Gwyliau ysgol*	5 awr y dydd unrhyw ddiwrnod o'r wythnos (ac eithrio dydd Sul) rhwng 7am a 7pm, ond ni ddylai cyfanswm yr oriau a weithir fod yn fwy na 25 awr. Mae'n rhaid i blentyn/unigolyn ifanc gael seibiant o 2 wythnos yn olynol mewn blwyddyn, a rhaid ei gymryd yn ystod gwyliau ysgol
15	Diwrnod ysgol	Dim mwy na chyfanswm o 2 awr mewn un diwrnod yn ystod y cyfnodau canlynol: a) Yn y bore rhwng 7am a dechrau'r diwrnod ysgol (uchafswm o 1 awr) b) Gyda'r nos rhwng diwedd y diwrnod ysgol a 7pm
	Dydd Sadwrn*	8 awr y dydd rhwng 7am a 7pm
	Dydd Sul	2 awr y dydd rhwng 7am ac 11am
	Hyd at uchafswm o 12 awr mewn unrhyw wythnos y mae'n ofynnol i fyfyrwyr fynychu'r ysgol	
	Gwyliau ysgol*	8 awr y dydd unrhyw ddiwrnod o'r wythnos (ac eithrio dydd Sul) rhwng 7am a 7pm, ond ni ddylai cyfanswm yr oriau a weithir fod yn fwy na 35 awr. Mae'n rhaid i blentyn/unigolyn ifanc gael seibiant o 2 wythnos yn olynol mewn blwyddyn, a rhaid ei gymryd yn ystod gwyliau ysgol.
16	Bydd yr oriau gwaith a nodir ar gyfer pobl ifanc 15 oed yn berthnasol tra'u bod o oedran ysgol gorfodol. Os dymuna'r plentyn/unigolyn ifanc, mae ganddo hawl gyfreithiol i adael yr ysgol ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan gafodd ei ben-blwydd yn 16 oed. Nid yw'n gallu gweithio'n llawn amser tan ar ôl y dyddiad hwnnw.	

* Ni all unrhyw blentyn o unrhyw oedran weithio mwy na 4 awr y dydd heb seibiant o 1 awr

Gwaith a Ganiateir

Oedran	Oriau y gellir gweithio
13	<p>Dim ond gwaith ysgafn yn un neu fwy o'r safleoedd canlynol y gallwch chi ei gyflawni:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gwaith amaethyddol neu arddwriaethol - Danfon papurau newydd, cylchgronau a deunyddiau printiedig eraill - Gwaith siop, gan gynnwys llenwi silffoedd - Siopau trin gwallt - Gwaith swyddfa - Mewn caffi neu fwyty (ond nid mewn cegin) - Mewn stablau marchogaeth - Gwaith domestig mewn gwestai a sefydliadau eraill sy'n cynnig llety
14 a 15	<ul style="list-style-type: none"> • Dim ond gwaith ysgafn y gall plentyn/unigolyn ifanc ei gyflawni. • Gall plentyn/unigolyn ifanc fasnachu ar y stryd os yw'n cael ei gyflogi gan ei rieni mewn cysylltiad â'u busnes ac os yw'n cael ei oruchwylio neu os yw wedi derbyn trwydded masnachu ar y stryd gan yr awdurdod lleol.
Pan rydych chi'n 16 oed	Bydd y cyfyngiadau uchod yn parhau'n berthnasol tra'u bod o oedran ysgol gorfodol.

Cyflogaeth waharddedig ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol

250. Ni ellir cyflogi plentyn o unrhyw oedran:

- Ar unrhyw ddiwrnod y mae'n absennol o'r ysgol oherwydd salwch.
- Mewn sinema, theatr, discotéc, neuadd ddawns neu glwb nos, ac eithrio mewn cysylltiad â pherfformiad gan blant yn unig.
- I werthu, gweini neu ddarparu alcohol i gwsmeriaid.
- I ddanfon llaeth.
- I gludo olew tanwydd.
- Mewn cegin fasnachol.
- I gasglu neu ddiidoli sbwriel.
- Mewn unrhyw waith a gyflawnir fwy na thri metr yn uwch na lefel y ddaear neu, yn achos gwaith mewnol, fwy na thri metr yn uwch na lefel y llawr.
- Mewn cyflogaeth sy'n golygu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn agored i gyfryngau ffisegol, biolegol neu gemegol.
- I gasglu taliad neu werthu neu ganfasio o ddrws i ddrws.
- Mewn gwaith sy'n golygu y bydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn agored i ddeunydd i oedolion neu mewn sefyllfaoedd sy'n anaddas i blant.
- I werthu dros y ffôn.

- Mewn unrhyw ladd-dy neu yn y rhan honno o unrhyw siop cigydd neu eiddo arall sy'n gysylltiedig â lladd da byw, bwtsiera neu baratoi sgerbydau neu gig i'w werthu.
- Fel gwas neu gynorthwydd mewn ffair neu arcêd neu unrhyw eiddo arall a ddefnyddir at ddibenion difyrru'r cyhoedd trwy beiriannau awtomatig, gemau siawns neu sgil neu ddyfeisiau tebyg.
- Yng ngofal personol preswylwyr unrhyw gartref gofal preswyl neu gartref nyrsio, oni bai ei fod dan oruchwyliaeth agos oedolyn cyfrifol.

Trwyddedau Perfformiadau Plant: Ffeithiau Allweddol

251. Mae Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 a Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 fel y'i diwygiwyd yn nodi'r rheolau ar blant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau, gan gynnwys perfformiadau darlledu, ffotograffiaeth neu fodelu. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol bod plant sy'n iau nag oedran gadael yr ysgol yn cael trwydded cyn cymryd rhan mewn perfformiad. Diben y darpariaethau hyn yw diogelu iechyd, lles ac addysg plant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol bod plant, o fabanod newydd-anedig hyd nes eu bod yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, yn cael trwydded i berfformio gan yr awdurdod lleol lle maent yn byw. Mae gan bob awdurdod lleol gyfrifoldeb statudol i gyflwyno Trwydded Perfformiad Plant i blant sy'n byw yn ei ardal. Mae gan bob awdurdod lleol gyfrifoldeb i archwilio unrhyw eiddo yn ei ardal lle gall plant fod yn perfformio.

252. Wrth ystyried cais am drwydded, dylai'r awdurdod lleol fod yn fodlon:

- Na fydd addysg ffurfiol y plentyn yn cael ei heffeithio
- Na fydd iechyd y plentyn yn dioddef
- Bod y lleoliad lle mae'r perfformiad neu'r ymarfer yn cael ei gynnal yn addas
- Y bydd holl amodau'r drwydded yn cael eu bodloni.

253. Bydd y plentyn dan oruchwyliaeth gwarchodwr. Mae'r gyfraith yn nodi bod y gwarchodwr yn gweithredu yn lle rhiant **in loco parentis** ac y dylai ddarparu'r gofal y gellid disgwyl y byddai rhiant da yn ei ddarparu i'r plentyn hwnnw. Mae rhagor o wybodaeth am warchodwyr yn Adran 2.

Tabl Perfformiad a Ddarlledir

Pwnc	Oedran 0 i 4	Oedran 5 i 8	Oedran 9 ac yn hŷn
Uchafswm amser yn lleoliad y perfformiad	5 awr	7 ½ awr	9 ½ awr
Uchafswm amser yn bresennol	Rhwng 9.30am a 4.30pm	Rhwng 9am a 4.30pm	Rhwng 7am a 7pm
Uchafswm amser perfformio	2 awr	3 awr	4 awr
Uchafswm amser parhaus yn cymryd rhan heb seibiant	30 munud	45 munud	1 awr
Isafswm seibiant/ amserau bwyd	Bob amser pan nad ydynt yn cymryd rhan	Yn bresennol am 3 ½ awr = 2 seibiant, 1 awr am fwyd a 15 munud o seibiant. Yn bresennol am 8 awr = 3 seibiant 1 x 1 awr am fwyd a 15 munud o seibiant.	Yn bresennol am 4 awr = 2 seibiant, 1 awr am fwyd a 15 munud o seibiant. Yn bresennol am 8 awr = 3 seibiant, 2 x 1 awr am fwyd a 15 munud o seibiant.
Addysg	DIM	3 awr bob diwrnod ysgol	3 awr bob diwrnod ysgol
EITHRIADAU i'r uchod ar gyfer y BBC, ITV, contractwr rhaglenni (Deddf Teledu 1964 A.1(5)) neu gorff sy'n cyflenwi rhaglenni i gontractwr o'r fath ar gyfer PLANT 13 OED A HŶN YN UNIG			
Uchafswm amser yn BRESENNOL mewn wythnos 7 diwrnod	12 awr ar unrhyw 1 diwrnod NEU 10 y dydd ar unrhyw 2 ddiwrnod NEU 9 ½ awr y dydd ar unrhyw 3 diwrnod cyn belled nad yw'n bresennol unrhyw ddiwrnod arall yr wythnos honno nac yn bresennol ar ôl 7pm ar fwy nag 20 diwrnod yn y 12 mis blaenorol Amserau rhwng 7am a 7pm NEU rhwng 10am a 10pm		
Dewisiadau Amgen i'r Eithriadau Uchod			
Uchafswm amser yn BRESENNOL mewn wythnos 7 diwrnod	12 awr ar unrhyw 1 diwrnod cyn belled nad yw'n bresennol am fwy na 2 awr unrhyw ddiwrnod arall yr wythnos honno ac: nad yw'n cymryd rhan am fwy na 2 awr unrhyw ddiwrnod arall yr wythnos honno ac: nad yw'n cymryd rhan unrhyw ddiwrnod ar ôl diwrnod pan fu'n bresennol ar ôl 7pm ac: nad yw wedi bod yn bresennol ar ôl 7pm ar unrhyw un o'r 6 diwrnod blaenorol. Amserau rhwng 7am a 7pm NEU rhwng 10am a 10pm		

Tabl Perfformiad nas Darlledir

Perfformiadau (o'r un natur)	2 y dydd	1 perfformiad ac 1 ymarfer NEU 2 berfformiad
Perfformiadau yr wythnos	Uchafswm o 6 diwrnod mewn wythnos 7 diwrnod	Uchafswm o 8 wythnos yn olynol yn gofyn am seibiant o bythefnos cyn perfformio eto yn yr un cynhyrchiad
Bwlch rhwng diwrnodau perfformio	Mae'n rhaid i 14 awr fynd heibio rhwng diwedd perfformiad y diwrnod blaenorol a dechrau perfformiad y diwrnod canlynol.	
Amser y perfformiad	Uchafswm o 3 awr 30 munud	Yn cynnwys seibiant
Ymddangosiad mewn perfformiad	Uchafswm o 2 awr 30 munud	Wedi'i agregu
Egwyliau	O leiaf un seibiant o hanner awr	Rhwng 2 berfformiad NEU 1 perfformiad ac 1 ymarfer
Eithriad i egwyliau (mewn unrhyw wythnos)	Ar uchafswm o 2 ddiwrnod, egwyl o 45 munud o leiaf rhwng perfformiadau a/neu ymarfer. Uchafswm o 6 awr yn lleoliad y perfformiad	
Diwrnod ysgol	Mynychu'r ysgol yn y bore	1 perfformiad NEU 1 ymarfer YN UNIG
Oriau perfformio	12 oed ac iau	13 oed a hŷn
Cyrraedd ar y cynharaf	10.00 a.m.	10.00 a.m.
Gadael ar yr hwyraf	10.00 p.m.	10.30 p.m.
Eithriad (1)	10.30 p.m.	11.00 p.m.
Eithriad (2)	Heb fod yn hwyrach nag 11pm ar ddim mwy na 3 noson yr wythnos, cyn belled nad yw'n bresennol fwy nag 8 noson mewn cyfnod o 4 wythnos yn olynol	
Meddygol (1)	IE (cyfnod hirach nag 1 wythnos)	Perfformio fwy na 6 diwrnod yn olynol
Meddygol (2)	NA (cyfnod llai nag 1 wythnos)	Perfformio lai na 6 diwrnod yn olynol
Trefniadau ar gyfer mynd adref	Dylai'r sawl sy'n gwneud y cais sicrhau bod trefniadau addas (o ystyried oedran y plentyn) yn cael eu gwneud i sicrhau bod y plentyn yn cyrraedd adref neu'n mynd i leoliad arall ar ôl y perfformiad neu'r ymarfer olaf neu unrhyw weithgarwch ar unrhyw ddiwrnod.	

Mae rhagor o wybodaeth am gyflogaeth plant a thrwyddedau perfformio ar gyfer plant o oedran ysgol yn Adran 2.

c. Plant sy'n colli addysg

254. Ym mis Medi 2009, cychwynnodd Llywodraeth y Cynulliad adran 436A o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i'w galluogi i nodi (cyn belled ag y bo'n bosibl) plant sy'n byw yn eu hardal nad ydynt yn derbyn 'addysg addas'.
255. Diben y ddyletswydd yw sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n colli addysg yn cael eu nodi'n gyflym a bod systemau monitro effeithiol ar waith i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ddarparu 'addysg addas' ar eu cyfer. Mewn perthynas â phlant, diffinnir 'addysg addas' fel addysg llawn amser effeithlon sy'n addas ar gyfer eu hoedran, eu gallu ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddynt.
256. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i blant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas y tu allan i'r ysgol (er enghraifft, gartref, yn breifat neu mewn darpariaeth amgen) ac sydd wedi bod allan o unrhyw ddarpariaeth addysgol am gyfnod sylweddol o amser (pedair wythnos neu fwy fel arfer).
257. Nid yw'r ddyletswydd yn berthnasol i blant sydd ar gofrestr ysgol ond nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd. Mae'r ddyletswydd newydd yn ategu ac atgyfnerthu dyletswyddau sydd eisoes ar waith i fonitro presenoldeb mewn ysgolion ac mae'n bwysig bod awdurdodau addysg lleol yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n effeithiol.
258. Nid yw'r ddyletswydd yn berthnasol i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Mae gan rieni ddyletswydd i sicrhau bod eu plant yn derbyn addysg llawn amser addas naill ai trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall (o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996) neu mae ganddynt yr hawl i ddewis darparu'r addysg hon trwy addysgu eu plentyn yn y cartref.
259. Mae canllawiau statudol sy'n helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg, gan gynnwys pecyn cymorth ymarferol, ar gael yn <http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/missingeducation/?lang=cy>

d. Plant Sipsiwn a Theithwyr

260. Mae sefyllfa arbennig teuluoedd o Deithwyr yn cael ei chydabod gan adran 444(b) o Ddeddf Addysg 1996. Mae'n diogelu rhieni teuluoedd o Deithwyr rhag cael eu colffarnu os gall y rhiant ddangos:
- ei fod yn rhan o fasnach neu fusnes sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo deithio o fan i fan
 - bod y plentyn wedi mynychu ysgol fel disgybl cofrestredig mor rheolaidd ag y mae natur y fasnach neu'r busnes hwnnw'n ei ganiatáu; a/neu
 - bod y plentyn, pan fo'n chwech oed neu hŷn, wedi mynychu ysgol am o leiaf 200 o sesiynau (hanner diwrnod) yn ystod y deuddeg mis blaenorol.

261. Nid diogelu rhieni teuluoedd o Deithwyr rhag camau cyfreithiol yw diben yr adran hon, ac nid yw chwaith yn tanseilio dyletswyddau rhieni o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996. Ei ddiben yw sicrhau bod plant yn derbyn addysg addas trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu drwy ddarpariaeth amgen.
262. Yn gyffredinol, dylid ceisio sicrhau bod plant Teithwyr, yr un fath â phlant eraill, yn mynychu'r ysgol mor rheolaidd ac aml â phosibl - ni ddylid ystyried 200 o ddiwrnodau presenoldeb fel y sefyllfa arferol. Mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i gymryd camau cyfreithiol mewn achosion unigol, lles y plentyn a mabwysiadu agwedd sensitif a chydymdeimladol sy'n cydnabod ffordd o fyw a thraddodiadau diwylliannol y teulu.
263. Gall ysgolion awdurdodi absenoldeb plant Teithwyr os ydynt yn fodlon bod teulu'n symud i ffwrdd ond yn rhoi arwyddion rhesymol bod ganddo bob bwriad o ddychwelyd (er y gall ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr fod yn ddefnyddiol mewn sefyllfa o'r fath). Mae hyn yn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr eraill a theuluoedd syrcau a ffeiriau'n gadael safleoedd a'u cartrefi yn ystod y gaeaf gyda phob bwriad i ddychwelyd. O dan yr amgylchiadau hyn, gall rhai ysgolion gadw mewn cysylltiad â'r plant trwy waith allgymorth neu trwy ddarparu pecynnau dysgu o bell, er na ddylid ystyried gweithgareddau o'r fath fel dewis amgen i bresenoldeb yn yr ysgol. Hefyd, hwyrach y gellir cynnig rhywfaint o hyblygrwydd rhesymol mewn perthynas â theuluoedd sydd wedi symud neu wedi gorfod gadael safleoedd heb eu hawdurdodi tra bod y teulu'n chwilio am safle arall. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau hyn, dylid gwneud pob ymdrech i annog y plant i barhau i fynychu'r ysgol.
264. Cyflwynodd Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 y pŵer i alluogi ysgolion i gofrestru plentyn sy'n Deithiwr hyd yn oed os ydynt yn gwybod ei fod yn mynychu ysgol arall. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gellir cofnodi eu bod yn mynychu 'gweithgarwch addysgol cymeradwy'.
265. Yr ysgol y mae'r disgybl yn ei mynychu amlaf sy'n gyfrifol am sefydlu'r systemau cyfathrebu priodol gyda'r darparwr addysgol arall i sicrhau bod y disgybl yn bresennol. Am resymau diogelwch ac addysgol, yr ysgol y mae'r disgybl yn ei mynychu ar y pryd sy'n gyfrifol am ymchwilio i absenoldebau annisgwyl a heb esboniad mewn ffordd amserol. Os yw plant Teithwyr yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol a bod yr ysgol honno'n gwybod bod y plant yn bresennol mewn safle (swyddogol neu beidio) neu mewn tŷ ac nad ydynt yn mynychu'r ysgol, dylid ymchwilio i'r absenoldeb yn yr un modd ag ar gyfer unrhyw ddisgybl.
266. Mae canllawiau pellach yn 'Ymlaen Gyda'n Gilydd', Cylchlythyr Rhif 003/2008 Llywodraeth y Cynulliad - sy'n cynnwys adran ar Fynediad a Phresenoldeb.

e. Canllawiau arfer da ar gyfer Cyrchoedd Triwantiaid

267. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o swyddogaethau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n cymryd rhan mewn cyrchoedd triwantiaeth, yn seiliedig ar gyngor Llywodraeth y DU i'r Heddlu ac awdurdodau lleol ar y darpariaethau o dan adran 16 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. (www.statutelaw.gov.uk)

Prif elfennau'r Pŵer

268. Dyma brif elfennau'r pŵer a amlinellir yn adran 16 o Ddeddf 1998:

- mae'r adran yn rhoi grym i swyddog yr heddlu fynd â phlentyn neu unigolyn ifanc yn ôl i'r ysgol neu leoliad arall a ddynodir gan yr awdurdod lleol os oes ganddo achos rhesymol dros gredu ei fod o oedran ysgol gorfodol ac yn absennol o'r ysgol (gan gynnwys uned cyfeirio disgyblion ac ysgol annibynnol) heb awdurdod cyfreithlon. Mae hyn hefyd yn berthnasol os yw'r disgybl wedi'i wahardd am resymau disgyblu, naill ai am dymor penodol neu'n barhaol, ond nad yw wedi cael ei dderbyn mewn ysgol arall ac nad oes ganddo gyfiawnhad rhesymol dros fod mewn man cyhoeddus;
- mae'n rhaid i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc fod mewn man cyhoeddus pan fo'r pŵer yn cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys eiddo preifat y mae gan y cyhoedd fynediad iddo e.e. siopau, canolfannau siopa ac arcedau. Diffinnir man cyhoeddus fel unrhyw briffordd neu fan y mae gan y cyhoedd neu unrhyw ran o'r cyhoedd fynediad iddo ar yr adeg dan sylw, trwy dalu neu fel arall, trwy hawl neu drwy ganiatâd clir neu ymhlyg.

269 Mae adran 108 o'r Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn diwygio adran 16 i gynnwys disgyblion sydd wedi'u gwahardd naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol.

270. Noder: Nid oes gan yr Heddlu na Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu y grym i symud disgyblion sy'n absennol heb awdurdod neu ddisgyblion wedi'u gwahardd o'u cartref neu unrhyw leoliad preifat arall ac nid oes ganddynt y grym i symud plant sy'n cael eu haddysgu'r tu allan i'r system ysgol.

- Gellir defnyddio'r pŵer pan fydd gan awdurdod lleol eiddo dynodedig yn un o ardaloedd yr heddlu at ddiben y ddarpariaeth, a'i fod wedi hysbysu prif swyddog yr heddlu yn yr ardal.
- Swyddog yr heddlu o lefel uwcharolygydd o leiaf fydd yn gyfrifol am nodi meysydd ac amserau lle gellir defnyddio'r pŵer.
- Nid yw'r pŵer yn rhoi pŵer i arestio neu garcharu, ac nid yw'n golygu bod triwantiath yn drosedd i'r plentyn (fodd bynnag, mae hi'n dal i fod yn drosedd i rieni ganiatáu i'w plentyn fod yn absennol o'r ysgol heb awdurdod. Os cânt eu collfarnu, o dan adran 443 neu 444 o Ddeddf Addysg 1996, gall rhieni wynebu dirwy sylweddol neu gael eu carcharu).

Cynllunio ar gyfer Cyrchoedd Triwantiad

271. Wrth gynllunio ar gyfer cyrchoedd triwantiad, dylai'r awdurdod lleol gynnal trafodaethau rhagarweiniol gydag ysgolion yn yr ardal dan sylw (gan gynnwys ysgolion annibynnol) er mwyn datblygu cynllun gweithredu. Yna, dylai cynrychiolwyr yr awdurdod lleol drafod amcanion a hyd a lled y fenter triwantiath gyda'r heddlu, a chytuno ar ganllawiau gweithredol ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r fenter. Dylai ysgolion, y tim(au) troseddau ieuencid, y gwasanaeth ieuencid, partneriaethau pobl ifanc ac asiantaethau lleol perthnasol eraill fel partneriaethau diogelwch cymunedol a thimau cynghori rhanbarthol ar gamddefnyddio sylweddau fod yn rhan o'r trafodaethau hyn hefyd.

272. Yn ystod y broses hon, dylid ceisio sicrhau yn arbennig:

- Bod staff yn cael eu briffio cyn dechrau'r cyrch. Dylai hyn gynnwys asesiad risg - yn canolbwyntio ar y risgiau i staff ar gyrch.
- Bod protocolau'n cael eu cytuno:
 - a. rhwng awdurdodau cyfagos;
 - b. ar gyfer delio â phlant nad ydynt ar gofrestr ysgol, gan gynnwys cyfrifoldebau dilynol wedi'u diffinio'n glir;
 - c. ar gyfer dychwelyd disgyblion i'w hysgol neu eu lleoliad dynodedig;
 - d. ar gyfer plant sy'n destun ABC neu ASBO sy'n absennol o'r ysgol heb awdurdod priodol;
 - e. ar gyfer plant sydd ar gofrestr ysgol mewn ardal arall;
 - f. ar gyfer plant sy'n dod o dan awdurdodaethau eraill sydd â gwahanol ddeddfau a rheoliadau; ac
 - g. ar sut y bydd plant a nodir yn hwyr yn y diwrnod ysgol yn cyrraedd adref.
- Bod yr heddlu'n ymwybodol o gategoriâu o blant sydd o bosibl ag achos y gellir ei gyfiawnhau dros fod allan o'r ysgol yn ystod oriau ysgol, yn enwedig plant sy'n derbyn addysg yn y cartref o ddewis a disgyblion wedi'u gwahardd.
- Bod ffiniau daearyddol clir wedi'u gosod ar gyfer yr ymarfer; dylai'r partneriaid gadw'r rhain yn gyfrinachol.
- Bod gwybodaeth yn cael ei rhannu am lefydd lle mae disgyblion yn ymgasglu (e.e. canolfannau siopa).
- Bod yr heddlu'n ymwybodol o wybodaeth berthnasol arall fel oriau ysgol lleol, gwyliau ysgol, diwrnodau hyfforddiant ac a yw'r ardal yn llawn plant o ardaloedd eraill â gwyliau ysgol gwahanol (e.e. lleoliad gwyliau poblogaidd).
- Bod yr heddlu'n cael enwau a phatrymau symud plant sy'n absennol o'r ysgol byth a hefyd.
- Ein bod yn rhoi digon o ystyriaeth i sut i ddelio â phlant yng nghwmni oedolion, a pha weithdrefnau dilynol a roddir ar waith. Mae absenoldeb heb gyfiawnhad y mae rhieni'n ymwybodol ohono'n broblem sylweddol mewn rhai ysgolion, ac ni fydd gan lawer o'r plant hyn unrhyw reswm da dros beidio â bod yn yr ysgol: mae yna hefyd fater amddiffyn plant posibl. Felly, dylai swyddog yr heddlu a'r cynrychiolydd addysg geisio canfod a yw'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig a'r rheswm dros yr absenoldeb. Dylid atgoffa rhieni eu bod yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am bresenoldeb rheolaidd eu plentyn yn yr ysgol.
- Bod ysgolion lleol, gan gynnwys ysgolion annibynnol, yn ymwybodol bod cyrch triantiaid yn cael ei gynnal. Gall ysgolion ddarparu gwybodaeth werthfawr am blant sy'n absennol y diwrnod hwnnw, disgyblion sy'n absennol gydag awdurdod a diwrnodau pan fo'r ysgol ar gau.
- Bod canllawiau'n cael eu sefydlu ar gyfer mynd at bobl ifanc. Rydym yn argymhell y dylai swyddogion yr heddlu sy'n defnyddio'r pŵer wneud hynny mewn iwnniform (oherwydd pryderon amddiffyn plant) ac, os yw'n ymarferol, yng nghwmni

cynrychiolydd addysg fel EWO, a fydd yn gallu gwirio statws ysgol yr unigolyn ifanc dan sylw. (Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio siacedi fflwroleuol sy'n eu nodi'n glir ac yn dileu pryderon amddiffyn plant).

- Lle bo'n briodol, bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau ar broblemau'n ymwneud â disgyblion yn ymgasglu ar y rhwydwaith rheilffyrdd.
- Lle bo'n briodol, anogir cyrff eraill, fel cynrychiolwyr y fasnach fanwerthu a'r gymuned leol, i fod yn bartneriaid yn y gwaith hwn. Gall y partneriaid hyn ddarparu gwybodaeth werthfawr am ddiwrnodau, amserau ac ardaloedd lle mae plant absennol yn ymgasglu neu'n achosi poendod.

273. Dylai'r EWS barhau i fonitro cofnodion presenoldeb pob plentyn y'i cafwyd yn absennol o'r ysgol cyn ac yn dilyn cyrchoedd triwantiad i sicrhau bod achosion o driwantiad barhaus yn cael eu datrys. Yn ogystal â chasglu'r data hwn i'w ddychwelyd at Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer ymarferion a gydgyssylltir yn genedlaethol, dylai'r EWS ddefnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion cynllunio. Bydd yn arbennig o ddefnyddiol o ran darparu manylion yr amrywiaeth o ddisgyblion dan sylw, yn ogystal â manteision ac effaith menter o'r fath.

274. At ddibenion monitro, er mwyn darparu adborth ar y strategaeth lleihau triwantiad, dylai staff sy'n rhan o'r cyrch ofyn i'r plentyn pam ei fod yn absennol o'r ysgol. Mae'n arfer da i gadw dogfennaeth o'r cyfarfod, er nad yw hynny'n ofynnol. Mae dogfennaeth enghreifftiol yn Adran 2.

275. Cyn y cyrch, dylid cynllunio sut y gellir monitro a gwerthuso'r fenter i sicrhau y gellir mesur effeithiolrwydd y fenter. Bydd hyn yn helpu i lywio trefniadau gweithredol a strategaeth ar gyfer y dyfodol. Gall data sylfaenol i helpu'r broses werthuso gynnwys:

- nifer y plant y siaradwyd â nhw;
- nifer y plant heb reswm dilys dros fod yn absennol o'r ysgol;
- nifer y plant â rheswm dilys/derbyniol, a beth oedd y rheswm hwnnw;
- nifer y disgyblion wedi'u gwahardd;
- rhesymau pam roedd eraill yn absennol o'r ysgol;
- rhyw ac oedran y plant y siaradwyd â nhw;
- nifer y plant y siaradwyd â nhw oedd yng nghwmni oedolyn; ac
- y camau gweithredu dilynol a'r canlyniad.

276. Mae'n arfer da trafod gydag ysgolion y posibilrwydd o fynd ar drywydd mater triwantiad, ar ôl cyrchoedd triwantiad, yn ystod gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol, rhannau eraill o'r cwricwlwm neu wasanaethau ysgol i gefnogi'r neges o bwysigrwydd mynychu'r ysgol.

Cyfnwid Gwybodaeth Bersonol

277. Mae adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn sicrhau bod gan awdurdodau addysg bŵer cyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth i'r Heddlu at ddiben y ddarpariaeth triwantiad. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, enwau triwantiad parhaus.

Wrth ddefnyddio'r pŵer hwn, bydd angen ystyried gofynion y ddeddfwriaeth Diogelu Data a gofynion penodol eraill. Y ffordd orau o sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni yw trwy ddefnyddio protocolau wedi'u llunio'n ofalus rhwng yr awdurdod a'r Heddlu. Mae cyngor pellach ar lunio protocolau rhannu gwybodaeth, ynghyd â phrotocol enghreifftiol, wedi'i baratoi gan y Swyddfa Gartref mewn cydweithrediad â'r Gofrestr Diogelu Data, ac mae ar gael ar y wefan Gostwng Troseddau:

www.crimereduction.gov.uk/infosharing13.htm

www.crimereduction.gov.uk/infosharing_guide.htm

Eiddo Dynodedig

278. Cyn defnyddio'r pŵer, bydd rhaid i'r awdurdod lleol ddynodi eiddo lle gellir mynd â phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol a hysbysu'r Prif Gwnstabl yn ysgrifenedig. Ni ellir defnyddio'r pŵer i symud disgyblion absennol neu ddisgyblion wedi'u gwahardd o fan cyhoeddus oni bai bod yr awdurdod wedi pennu lleoliad dynodedig. Gall y lleoliad hwn fod yn ysgol, ond argymhellir defnyddio lleoliad canolog dynodedig lle bo hynny'n ymarferol a lle bydd yn lleihau'r pwysau ar ysgolion a rhoi amser iddynt baratoi i dderbyn disgyblion yn ôl. Rhagwelir y bydd rhai o'r bobl ifanc a ddychwelir ymhlith y rhai mwyaf anodd eu cyrraedd gyda phob math o faterion, ac y byddant yn ddisgyblion y mae'r EWS eisoes yn gweithio gyda nhw.
279. Dylai'r pwynt canolog fod yn lleoliad niwtral fel canolfan ieuencid gyda staff priodol ar waith sy'n gallu trafod y problemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Bydd hyn hefyd yn galluogi gweithwyr allweddol o asiantaethau perthnasol i gael eu hysbysu neu eu haseinio. Gall y ganolfan hon gael ei staffio gan asiantaethau lleol, yn ogystal ag EWS, gan sicrhau bod digon o'r staff yn gallu gweithio gyda phlant o oedran ysgol gynradd ac uwchradd. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant yn derbyn gwiriadau perthnasol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mae Gwasanaethau'r Heddlu'n gyfrifol am eu staff eu hunain.
280. Gall yr awdurdod lleol hefyd ddynodi eiddo arall y bydd yn gyfrifol am eu staffio. Gallai'r rhain gynnwys swyddfeydd sydd ar gael i'r EWS neu swyddfeydd mewn ardal siopa a gynhelir gan yr awdurdod lleol am gyfnod ymgyrch triwantaeth. Dylid trafod y dewisiadau gyda'r heddlu'n gynnar. Ni ddylai'r eiddo dynodedig gynnwys gorsafoddedd heddlu na'r ysgol(ion) y mae disgybl wedi'i wahardd ohoni.
281. Ni ddylid mynd â phlant a phobl ifanc i orsafoedd yr heddlu wrth ddefnyddio pwerau triwantaeth. Fel y nodir uchod, dylid cofio nad yw plant sy'n absennol o'r ysgol heb awdurdod yn cyflawni trosedd; yn ôl y gyfraith, eu rhieni sy'n gyfrifol am eu habsenoldeb.

Pwyntiau i'w Hystyried

Plant a phobl ifanc nad ydynt ar gofrestr ysgol

282. Gall y rhesymau pam nad yw plentyn ar gofrestr ysgol gynnwys:

- plant yn methu cael mynediad i addysg oherwydd salwch ac yn annhebygol o wneud hynny cyn mynd y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol;

- plant sydd wedi'u gwahardd yn barhaol ac yn aros i ddechrau mewn ysgol newydd, uned cyfeirio disgyblion neu fath arall o ddarpariaeth amgen;
- plant sydd ar wyliau yng Nghymru;
- plant sydd newydd symud i'r ardal ac nad ydynt wedi dod o hyd i le mewn ysgol; mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am blant nad oes ganddynt le mewn ysgol ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau eraill ar gyfer eu haddysg yn y cyfamser;
- plant sy'n colli addysg: Ym mis Medi 2009, cychwynnodd Llywodraeth y Cynulliad adran 436A o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i'w galluogi i nodi (cyn belled ag y bo'n bosibl) plant sy'n byw yn eu hardal nad ydynt yn derbyn 'addysg addas'. Mae canllawiau ar hyn yn: <http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/missingeducation/?lang=cy>

283. Addysg yn y cartref o ddewis: Er nad yw plant sy'n derbyn addysg yn y cartref o ddewis yn darged ar gyfer y cyrchoedd, mae'n debygol y deuir ar eu traws gan eu bod yn aml yn cael eu haddysgu'r tu allan i oriau ysgol traddodiadol ac yn defnyddio gwasanaethau lleol fel llyfrgelloedd a chyfleusterau chwaraeon fel rhan o'u haddysg. Er nad yw'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i deuluoedd gofrestru gyda'u hawdurdod lleol, mae rhai yn gwneud hynny ac mae hyn yn amlwg yn gwneud pethau'n haws wrth gadarnhau statws y plentyn. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i nodi plant sy'n colli addysg ac i ddiogelu plant yn eu hardal. Nid oes angen trafodaethau pellach os nad oes gan y prif swyddog unrhyw bryderon ac os yw'n fodlon bod plentyn yn derbyn addysg yn y cartref o ddewis. Mae rhagor o wybodaeth am addysg yn y cartref o ddewis yn ddiweddarach yn y canllaw hwn.

284. Mae lles a diogelwch pob plentyn ac unigolyn ifanc yn faterion tra phwysig ac mae'r gymuned gyfan yn gyfrifol amdanynt. Os bydd unrhyw bryderon amddiffyn plant yn dod i'r amlwg wrth ymgysylltu â phlant neu deuluoedd, neu fel arall, dylid adrodd y pryderon hyn i'r awdurdodau priodol trwy ddefnyddio protocolau sydd wedi hen ennill eu plwyf.

Disgyblion sydd â rheswm dilys dros fod yn absennol o'r ysgol

285. Dim ond i blant o oedran ysgol gorfodol sydd ar gofrestr ysgol y mae pŵer Adran 16 yn berthnasol. Bydd angen i swyddogion yr heddlu fod yn ymwybodol o resymau dilys pam mae disgyblion cofrestredig a phlant eraill yn absennol o'r ysgol yn ystod oriau ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- plant wedi'u gwahardd (yn barhaol / am dymor penodol);
- disgyblion mewn darpariaeth amgen sy'n teithio rhwng safleoedd addysg;
- disgyblion sydd ar y ffordd i apwyntiad meddygol neu ddeintyddol, neu oddi yno, a ddylai fod wedi hysbysu'r ysgol;
- plant nad ydynt yn gallu cael mynediad i addysg llawn amser oherwydd eu hanghenion meddygol (DS: fel arfer, bydd y plant hyn ar gofrestr ysgol prif ffrwd a hwyrach y byddant yn derbyn addysg gan wasanaeth addysg yn y cartref neu ysbyty awdurdodau lleol ac ati);
- teithiau maes, ymweliadau addysgol neu arolygon (fel arfer, bydd staff yr ysgol yn ymuno â disgyblion ar weithgareddau o'r fath, felly ni ddylai fod unrhyw drafferthion);

- defodau crefyddol (mae'r gyfraith yn caniatáu absenoldeb ar ddiwrnod sy'n cael ei neilltuo'n arbennig ar gyfer defodau crefyddol y ffydd y mae'r rhieni'n perthyn iddo, er y bydd disgwyl fel rheol i ysgolion gytuno i hyn ymlaen llaw);
- plant Sipsiwn a Theithwyr y caniateir iddynt fod yn absennol at ddibenion teithio;
- Mae canllawiau yn Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn-Teithwyr (cylchlythyr 003/2008);
- disgyblion sydd ar y ffordd i gyfleusterau chwaraeon oddi ar y safle neu adeiladau ysgol eraill yn achos ysgolion â dau safle;
- amgylchiadau arbennig eraill y mae absenoldeb wedi'i ganiatáu ar eu cyfer neu amgylchiadau na ellir eu hosgoi a all gyfiawnhau absenoldeb;
- plant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau o dan ddarpariaeth trwydded a ganiateir yn unol â Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 a rheoliadau cysylltiedig;
- absenoldeb astudio; a
- plant sydd ar leoliadau profiad gwaith a drefnwyd drwy'r ysgol.

286. Ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach os bydd plant yn nodi unrhyw rai o'r uchod oni bai bod yna reswm dros eu hamau.

Pasiau Disgyblion

287. Mae rhai ysgolion eisoes yn defnyddio systemau lle cyflwynir pasiau printiedig i ddisgyblion i gadarnhau bod ganddynt awdurdod i fod oddi ar y safle yn ystod oriau ysgol e.e. ar gyfer apwyntiad deintyddol. Argymhellir ysgolion i gyflwyno pasiau fel strategaeth barhaol ac, wrth gwrs, mae'n ddefnyddiol tu hwnt mewn ardaloedd lle mae mentrau triwantiath ar waith. Dylid gwneud trefniadau yn y cyfnod cynllunio i swyddogion yr heddlu weld sampl o'r pasiau a ddefnyddir yn lleol. Dylai'r awdurdod lleol ystyried cyhoeddi canllawiau i gyrff llywodraethu ysgolion ynglŷn â phasiau disgyblion.

Disgyblion y Tu Allan i'r Dalgylch

288. Mae'n gyffredin i ddisgybl fod yn byw mewn un ardal ac yn mynychu ysgol mewn ardal arall, a hwyrach y bydd ymgyrchoedd triwantiath yn dod ar draws plant yn absennol o'r ysgol sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol. Bydd swyddog yr heddlu'n gallu penderfynu naill ai hebrwng disgybl yn ôl i'r ysgol neu i'r lleoliad canolog dynodedig ar gyfer ardal yr awdurdod lleol lle cafwyd hyd i'r plentyn, ond nid oes rhaid i'r heddlu hebrwng y plentyn yn ôl i'w ysgol os yw'r ysgol honno y tu allan i'r ardal. Felly, dylai'r awdurdod lleol ymgysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos i drafod trefniadau dilynol ar gyfer plant y deuir o hyd iddynt y tu allan i'r dalgylch gan sicrhau bod pawb yn cytuno cyn cynnal cyrch triwantiad. Os bydd ardal cartref plentyn yn ei gwneud hi'n anymarferol iddo gael ei gasglu gan gynrychiolydd o'r awdurdod lleol cartref, dylai'r awdurdod lleol sy'n cynnal y fenter sicrhau bod manylion y plentyn yn cael eu trosglwyddo i EWS neu swyddog cyfatebol yn yr awdurdod lleol cartref. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod protocolau ar waith gydag awdurdodau cyfagos, gan gynnwys Lloegr, ar gyfer delio â materion trawsffiniol. Ni ddisgwylir i awdurdodau lleol gadw neu gyfnewid gwybodaeth a gasglwyd mewn cyrch ar blant sy'n byw y tu allan i Gymru gan y gallai fynd yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998.

289. Os daw'n amlwg nad yw'r disgyblion o awdurdod lleol neu awdurdodau lleol cyfagos, dylai'r awdurdod lleol hysbysu EWS ysgol y disgybl. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid hysbysu'r EWS lle mae'r disgybl hwnnw'n byw, gan y gallai'r disgybl hwnnw fod yn colli addysg.

Gwrthod Cydymffurfio

290. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd triwantiadaid yn gwrthod cydymffurfio. Mewn achosion o'r fath, os oes gan swyddog yr heddlu reswm dros gredu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn absennol o'r ysgol heb awdurdod, mae'r pŵer o dan Adran 16 ac Adran 8 yn galluogi swyddog yr heddlu i ddefnyddio cymaint o rym rhesymol ag sydd ei angen arno o dan yr amgylchiadau. Bydd ystyr grym rhesymol yn dibynnu ar yr amgylchiadau ar y pryd. Rhaid iddo fod yn gymesur â natur y pŵer ac ymddygiad y plentyn neu'r unigolyn ifanc dan sylw. Os bydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gwrthwynebu gyda thrais, gall hynny fod yn drosedd a fyddai'n arwain at gyflwyno pwerau eraill.

Unwaith i'r plentyn gael ei ddychwelyd i'r Ysgol neu'r Lleoliad Canolog Dynodedig

291. Unwaith i blentyn neu unigolyn ifanc gael ei ddychwelyd, mae'n bwysig sicrhau bod trefniadau derbyn digonol ar waith. Yn achos ysgol (neu Uned Cyfeirio Disgyblion), mae hyn yn golygu y dylai unigolyn bugeiliol neu benodol fod yn barod i dderbyn disgyblion y'u cafwyd y tu allan i eiddo'r ysgol a'u dychwelyd i'r dosbarth neu wneud trefniadau addas eraill ar eu cyfer. Bydd hefyd angen i'r ysgol neu'r EWS hysbysu rhieni bod eu plentyn wedi'i ddychwelyd i'r ysgol neu leoliad diogel.

292. Os yw plant yn cael eu dychwelyd i eiddo arall, mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer hysbysu ysgolion bod eu disgyblion mewn lleoliad penodol a rhoi gwybod iddynt am y trefniadau i'w dychwelyd. Waeth a yw disgyblion yn cael eu dychwelyd i ysgol neu leoliad arall, dylid defnyddio gweithdrefnau cofnodi ffurfiol.

293. Mae hefyd yn werth sefydlu cynllun presenoldeb sy'n cael ei gwblhau ar gyfer pob unigolyn ifanc o fewn wythnos i ddod o hyd iddo y tu allan i'r ysgol. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ei ailintegreiddio i'r ysgol, felly dylid ei ysgrifennu mewn cydweithrediad ag ysgolion. Os oes gan ddisgyblion Raglen Cymorth Bugeiliol (PSP) yn barod, dylid ei hadolygu. Dylid ystyried hefyd a ddylid llunio Rhaglen Cymorth Bugeiliol ar gyfer y disgyblion eraill y nodwyd eu presenoldeb gwael a phroblemau eraill fel rhan o'r cyrch triwantiadaid. Dylid ystyried atgyfeirio i'r EWS os yw'n briodol. Gellir clustnodi unigolyn yn yr ysgol e.e. pennaeth blwyddyn, i fonitro cynnydd.

294. Yn achos disgyblion nad oes ganddynt hanes o bresenoldeb gwael, hwyrach y gall aelodau staff eraill yr ysgol wirio eu presenoldeb dros gyfnod o bedair wythnos. Yn achos disgyblion sy'n absennol yn fwy rheolaidd, bydd y cynllun hwn yn llawer manylach ac mae'n debygol y bydd yn ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r bobl ifanc hyn i'w hailintegreiddio yn yr ysgol.

Gwaith Dilynol mewn Ysgolion

295. Mae cyrchoedd triwantiaid yn gyfle da i amlygu pwysigrwydd mynychu'r ysgol, felly croesewir y cyfle i bwysleisio'r neges ymhellach mewn ysgolion yn dilyn cyrch triwantiaid. Gellir gwneud hyn ar ffurf trafodaethau fel rhan o wersi ABCCh neu rannau eraill o'r cwricwlwm. Fel arall, gellir codi'r mater fel rhan o wasanaeth yr ysgol neu fel pwynt trafod i gynghorau ysgol.

Gwaith Cydweithredol ac Amlasiantaethol

296. Mae angen i arferion da mewn ysgolion gael eu hadlewyrchu gan waith cydweithredol ac amlasiantaethol i gefnogi ysgolion. Mae presenoldeb ac ymddygiad gwael yn yr ysgol yn debygol o fod yn gysylltiedig â materion eraill y tu allan i'r ysgol: dim ond dull cydgysylltiedig sy'n debygol o gyflawni ateb tymor hir.
297. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Ddeddf Plant 2004 i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhyngddynt eu hunain a chyrrff eraill i wella lles plant yn yr ardal, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu haddysgu'r tu allan i'r system ysgol. Gall cymorth gan asiantaethau eraill leihau'r baich ar ysgolion a'r EWS, gwella gwaith amlasiantaethol ac arwain at well canlyniadau ar gyfer y bobl ifanc dan sylw. Dylid trafod cynlluniau gydag ysgolion, staff ysgolion ac asiantaethau eraill sy'n gweithio yn yr awdurdod fel partneriaethau plant a phobl ifanc, y gwasanaeth ieuencid, timau troseddau ieuencid, timau cynghori rhanbarthol ar gamddefnyddio sylweddau a phartneriaethau diogelwch cymunedol.
298. Mae'r EWS, seicolegwyr addysg, gweithwyr iechyd, adrannau gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) yn gwneud cyfraniadau unigryw. Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn dechrau gweithio fwyfwy gyda phobl ifanc wedi dadrio neu bobl ifanc sydd wedi rhoi'r gorau i fynd i'r ysgol neu sydd â phroblemau ymddygiad eraill. Mae mwy a mwy o weithwyr ieuencid yn gweithio gyda phobl ifanc ble bynnag y maent, yn hytrach na'r rheini sy'n mynychu canolfannau a chlybiau'n unig.
299. Gall timau amlasiantaethol mewn llawer o awdurdodau lleol gefnogi a hyfforddi athrawon neu weithio gydag unigolion neu grwpiau o ddisgyblion i wella ymddygiad. Er enghraifft gall Timau Cymorth Ymddygiad dwyn ynghyd pob math o weithwyr proffesiynol o feysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Nod y tîm hwn yw hyrwyddo lles emosiynol, ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb yn yr ysgol trwy nodi a chefnogi'r rheini â phroblemau emosiynol ac ymddygiad, neu'r rheini sydd mewn perygl o ddatblygu'r problemau hynny. Maent yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd ac ysgolion i ymyrryd yn gynnar ac atal problemau rhag datblygu ymhellach.
300. Bydd y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, swyddogion prawf, swyddogion yr heddlu, staff iechyd ac addysg a gwasanaethau cyfiawnder ieuencid lleol cydgysylltiedig. Mae gweithwyr addysg yr YOS yn gyswllt rhwng disgyblion sy'n absennol o'r ysgol a gwasanaethau perthnasol yr awdurdod lleol, fel pwynt cyswllt gyda'r nod o'u hailintegreiddio mewn addysg prif ffrwd.
301. Mae'n gyffredin i ddisgyblion fynychu ysgol mewn ardal awdurdod lleol wahanol i'r un y maent yn byw ynddi. Dylai awdurdodau lleol sefydlu protocolau ar gyfer delio â phlant o'r fath a chefnogi ysgolion sy'n defnyddio lefelau priodol o waith amlddisgyblaethol ac


amlasiantaethol ar gyfer pob achos unigol. Fodd bynnag, yn y lle cyntaf, yr ysgol ac yna awdurdod lleol yr ysgol sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â materion presenoldeb ac ymddygiad.

302. Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn asesu plant mewn angen mewn cydweithrediad â gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, gan gynnwys iechyd, addysg a'r sector gofal plant gwirfoddol. Dylai'r asesiad edrych ar bob agwedd ar anghenion datblygiad y plentyn a gallu ei rieni i ddiwallu'r anghenion hynny o fewn rhwydwaith y teulu a'r gymuned ehangach.
303. Pan fydd gan blentyn neu unigolyn ifanc amrywiaeth o anghenion cymorth ychwanegol a chydgysylltiol sy'n cael eu cefnogi gan fwy nag un ymarferydd, y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu cymorth integredig yw trwy gael un unigolyn i arwain - y gweithiwr proffesiynol arweiniol. Mae'r gweithiwr proffesiynol arweiniol yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y plentyn, yr unigolyn ifanc a'r teulu; yn sicrhau bod ymyriadau priodol a chydgysylltiedig yn cael eu darparu'n effeithiol; gan leihau'r gorgyffwrdd a'r anghysondeb gan ymarferwyr eraill.

Mae dogfennau enghreifftiol yn Adran 2.

Map o Broses Enghreifftiol

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 adran 16 (Pwerau'r Heddlu i Symud Triwantiad)



Mae ysgolion yn cael gwybod am y disgyblion y cafwyd hyd iddynt a'r canlyniad. Mewn rhai achosion bydd yr EWO yn ymweld â chartref y rheini a gafodd eu hebrwng yn ôl i'r ysgol ac yn monitro presenoldeb y disgyblion hynny.

f. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS)

304. Roedd datblygu gwasanaeth cwnsela cyffredin ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn un o argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Clywch gan Gomisiynydd Plant Cymru. Mae hefyd yn un o'r camau gweithredu allweddol a nodir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau bod darpariaeth gwnsela ar gael i bob disgybl ysgol fel bod rhywun y gallant droi ato pan fydd arnynt angen help neu gefnogaeth.
305. Mae cwnsela yn un o amrywiaeth o wasanaethau sy'n helpu i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol disgyblion gan arwain at ddiwylliant ysgol iach. Mae tystiolaeth yn dangos y gall gwasanaeth cwnsela sy'n darparu cymorth fel rhan o strategaeth gyffredinol mewn ysgol fod yn effeithiol iawn o ran hybu lles pobl ifanc, cefnogi eu haddysg, a lliniaru problemau iechyd meddwl a'u hatal rhag gwaethygu.
306. Bydd atgyfeiriadau i bobl ifanc am gwnsela ysgolion yn cael ei chymryd gan fuddgyfranogwyr gan gynnwys, pobl ifanc, rhieni, athrawon, swyddogion lles, nyrsiai ysgol, Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, ymarferwyr meddygol cyffredinol, Gwasanaethau Plant, CAMHS, gweithwyr ieuencid, ayb. Trwy wneud atgyfeiriad i ddisgybl derbyn cwnsela o gwmsler yr ysgol, mae rhaid i athrawon fod yn ymwybodol o'r angen i gael caniatâd rhieniol i ddisgyblion derbyn cwnsela i ddisgyblion oedran 16 neu iau. I'r disgybl fod yn gymwys i dderbyn cwnsela mae'n rhaid i'r disgybl ddeall natur y cwnsela ac yn gallu gwneud cytundeb cwnsela geiriol dilys, gan gynnwys y gallu i ddeall yr egwyddor o gyfrinachedd.
307. Mae gweithwyr iechyd meddwl sylfaenol wedi'u cyflwyno mewn sawl ardal. Maent yn darparu cymorth i bob math o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, fel meddygon teulu, nyrsys ysgol, staff ysgol a gweithwyr cymdeithasol. Gall y cymorth a ddarperir gan weithwyr iechyd meddwl sylfaenol sicrhau bod staff yn fwy hyderus wrth nodi a rheoli problemau iechyd meddwl ac emosiynol yn eu cyfnodau cynnar.
308. Yn aml, yr EWS yw'r pwynt cyswllt cyntaf i ysgolion sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblem presenoldeb, sy'n gallu bod yn symptom cynnar o broblem iechyd meddwl neu emosiynol. Mae rhai gwasanaethau lles addysg yn nodi gwahanol gamau i'w cymryd i gefnogi mynediad parhaus i addysg i blant â phroblem iechyd meddwl neu emosiynol. Mae'r rhain yn cynnwys amserlenni diwygiedig, pecynnau ailintegreiddio ac addysg yn y cartref. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng prosesau sgrinio sy'n ceisio sicrhau bod atgyfeiriadau i CAMHS arbenigol yn briodol a sicrhau mynediad amserol ac effeithiol i'r gwasanaethau hyn.
309. Gall plant gael eu gosod y tu allan i ardal eu hawdurdod lleol am sawl rheswm, gan gynnwys cael eu hanfon i uned CAMHS fel cleifion mewnol neu oherwydd diffyg gofalwyr maeth arbenigol, gwasanaethau neu lety addas yn lleol. Mae'n arfer da i EWS lleol plentyn gymryd camau i gefnogi mynediad parhaus i addysg pan fydd plentyn yn glaf mewnol y tu allan i'w ardal.

310. Un pryder cyffredin i grwpiau o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yw bod swyddogaethau gwahanol weithwyr cyflogedig ac asiantaethau sy'n ceisio cefnogi plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl yn aml yn aneglur. Mae'n arfer da i EWS gytuno ar ei rôl gyda seicolegwyr addysg, gwasanaethau cymdeithasol a CAMHS arbenigol yn ei awdurdod lleol a sicrhau bod canllawiau atgyfeirio wedi'u dosbarthu i bob ysgol.

g. Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN)

311. Dylai pob awdurdod lleol roi polisi ar waith i gefnogi cynhwysiant disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), pan fo hynny'n briodol. Mae'r term ADY yn cyfeirio at y rheini sy'n derbyn addysg a hyfforddiant ac sy'n cael mwy o anhawster i ddysgu na'r rhan fwyaf o bobl o'r un oedran. Mae hyn yn cwmpasu'r holl ddysgwyr yng Nghymru y mae eu hanghenion dysgu'n uwch na'u cyfoedion ac nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'r categori AAA fel y'i diffinnir yn Neddf Addysg 1996. Mae canllawiau pellach ar grwpiau o ddisgyblion y nodir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr 47/2006.

312. Mae'r term 'Anghenion Addysgol Arbennig' yn is-gategori o ADY ac mae'n parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag anhawster dysgu sy'n golygu bod angen gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

313. Yn unol â Chod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru (2004), bydd yr EWS yn:

- helpu staff ysgol a rhieni i nodi a rheoli plant a allai fod ag anghenion addysgol arbennig a / neu broblemau ymddygiad;
- cyfrannu at asesiad ffurfiol y plentyn, darparu adroddiadau ysgrifenedig a chyfeirio at asiantaethau eraill ac ymgysylltu â nhw;
- pan fydd hynny'n briodol, cefnogi cyfranogiad rhieni gydol y broses asesu ac adolygu a gweithredu fel eiriolwr ar gyfer y disgybl a'r teulu;
- cynghori, arwain a chefnogi staff ysgol a rhieni pan fo ymddygiad plentyn yn peri pryder naill ai yn yr ysgol neu gartref; ac
- hebrwng/cludo disgyblion a theulu ar gais yr awdurdod lleol.

h. Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (YOS)

314. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (YOS) yng Nghymru'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu trwy amrywiaeth o raglenni a dargedir. Mae'n cynnal asesiad safonol ar bob unigolyn ifanc sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid ac yn datblygu cynlluniau goruchwyllo unigol i fynd i'r afael ag anghenion penodol. Mae'n darparu rhaglenni ymyrryd ar gyfer pobl ifanc sydd wedi derbyn rhybudd terfynol gan yr heddlu neu gosb gymunedol. Mae'r YOS hefyd yn cefnogi'r rheini sydd wedi derbyn dedfryd o garchar, yn ogystal â darparu gwasanaethau llys.

315. Dylid sicrhau bod yna gysylltiad agos rhwng Swyddog Addysg yr YTS a'r Tîm EWS.

Yn y cyd-destun hwn, dyma gyfrifoldebau ychwanegol yr EWS:

- hyrwyddo gwaith amlddisgyblaethol yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid;
- gweithio'n agos gyda'r Heddlu, Diogelu a Chefnogi, y Gwasanaeth Prawf, awdurdodau lleol ac ysgolion i atal a lleihau ymddygiad troseddol;
- cefnogi mynediad i ailintgreiddio prif ffrwd; a
- darparu adroddiadau ar gyfer y Llys Ieuencid yn ôl y gofyn.

i. Gwyliau teuluol yn ystod y tymor

316. Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn rhoi grym i ysgolion ganiatáu absenoldeb at ddiben gwyliau teuluol blynyddol yn ystod y tymor. Nid oes gan rieni hawl awtomatig i dynnu disgyblion o'r ysgol ar gyfer gwyliau ac, yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid iddynt gael caniatâd ymlaen llaw. Fel arfer, rhoddir caniatâd o'r fath yn unol â threfniadau a wneir gan gorff llywodraethu'r ysgol. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gall cyfanswm y cyfnodau o absenoldeb a ganiateir fod yn fwy na deg diwrnod ysgol mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

317. Mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn nodi'n glir bod y cyfeiriad at **amgylchiadau eithriadol** yn golygu bod rhaid i'r rhiant gyflwyno achos cryf dros dynnu'r plentyn o'r ysgol am fwy na phythefnos mewn blwyddyn. Ni ddylai rhieni ddisgwyl, na chael eu harwain i ddisgwyl, y bydd ysgolion yn cytuno i wyliau teuluol yn ystod y tymor. Efallai y bydd angen i ysgolion atgoffa rhieni o hyn o bryd i'w gilydd (gweler adran 2). Dylai staff yr ysgol ystyried pob cais yn annibynnol - nid yw polisiau "cymeradwyo cyffredinol" yn dderbyniol. Dylid ystyried y ffactorau canlynol wrth asesu ceisiadau - ni ddylid ystyried bod unrhyw un ffactor yn derfynol:

- pryd yn y flwyddyn y mae'r daith arfaethedig;
- hyd a diben y gwyliau;
- hyd y gwyliau a'i effaith ar barhad dysgu;
- amgylchiadau'r teulu a dymuniadau'r rhiant;
- phatrwm presenoldeb cyffredinol y plentyn; a
- Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid caniatáu absenoldeb am fwy na phythefnos. Dylai ysgolion drafod gyda rhieni pam mae absenoldeb o'r fath yn angenrheidiol. Pan ganiateir absenoldebau o'r fath, dylid eu cyfrif fel **absenoldeb wedi'i awdurdodi**.

318. Os bydd rhieni'n methu cydymffurfio â'r hyn y cytunwyd arno gyda'r ysgol ac yn cadw plentyn o'r ysgol am gyfnod hirach na'r un y cytunwyd arno neu os bydd rhieni'n methu cael caniatâd, dylid trin yr amser ychwanegol o'r ysgol fel **absenoldeb heb ei awdurdodi**.

319. Pan fydd ysgolion yn wynebu anawsterau gyda gwyliau teuluol yn ystod y tymor, gallant ddewis:

- canolbwyntio ar y mater mewn cyfarfodydd rhieni;

- anfon llythyr ar y mater at rieni; neu
- cysylltu ag EWO yr ysgol am gyngor a chymorth.

320. Dylai pob cais am absenoldeb gwyliau fod yn ysgrifenedig, a dylai gael ei gyflwyno gan riant / gofalwr y plentyn, hyd yn oed os na fydd yn mynd ar y gwyliau gyda'r plentyn. Os na fydd y rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef yn rhoi caniatâd iddo fynd ar y gwyliau, ni all yr ysgol roi caniatâd yn gyfreithiol ond trwy orchymyn llys.

Mae dogfennau i gefnogi hyn yn Adran 2.

j. Teithiau tramor estynedig

321. Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag absenoldeb estynedig disgyblion o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig, dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r Rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â sefyllfa teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol ac amgylchiadau arbennig pob achos. Mae'n bwysig bod ysgolion yn dangos eu bod yn deall safbwynt y rhieni, hyd yn oed os na fydd yn gallu derbyn cais am absenoldeb.

322. Dylai ysgolion sicrhau bod pob rhiant yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ar absenoldeb. Yn achos rhieni lleiafrifoedd ethnig, dylid cymryd gofal arbennig i sicrhau bod y Rheoliadau'n cael eu hesbonio'n llawn a bod y rhieni'n eu deall. Dylid defnyddio cyfieithwyr os bydd angen neu, os yw hyn yn berthnasol yn achos llawer o rieni, gallai'r ysgol ystyried trefnu cyfarfod arbennig i'r rhieni hyn.

323. Dylai ysgolion ystyried y canlynol:

- mae gan wyliau i ymweld â theulu dramor arwyddocâd cwbl wahanol i'r diffiniad arferol o 'wyliau', sef y categori a gydnabyddir gan Lywodraeth y Cynulliad;
- hwyrach bod ymweliadau'n bwysig iawn o ran hunaniaeth a hunan-barch plant wrth iddynt dyfu i fyny;
- hwyrach y bydd rhieni'n teimlo bod yr ymweliad arfaethedig yn bwysicach na phresenoldeb di-dor eu plentyn yn yr ysgol - hwyrach bod cynnal a chadw cysylltiadau teuluol yn fwy arwyddocaol ac yn bwysicach o lawer mewn rhai cymdeithasau o gymharu â'r DU; a
- hwyrach y bydd y rhesymau dros rieni'n trefnu ymweliad yn debyg iawn i resymau rhieni brodorol e.e. salwch yn y teulu, profedigaeth ac ati.

324. Fodd bynnag, dylai ysgolion esbonio'r canlynol i rieni

- bod angen cael caniatâd ymlaen llaw;
- dylid cynllunio'r absenoldeb yn ofalus gyda'r ysgol;
- lle bo'n bosibl, dylid trefnu ymweliadau estynedig yn ystod gwyliau ysgol;
- os oes rhaid trefnu gwyliau yn ystod y tymor, ni ddylai'r absenoldeb fod yn fwy na deg diwrnod ysgol;
- dylid osgoi gwyliau yn ystod arholiadau ar bob cyfrif;
- mae rhai plant yn cael trafferth dal i fyny, a byddant yn tanberfformio yn eu harholiadau;

- hwyrach y caiff enw eu plentyn ei ddileu o'r gofrestr os na fydd wedi dychwelyd i'r ysgol o fewn deg diwrnod ysgol i'r dyddiad dychwelyd disgwyliedig.

325. Os cytunir i ganiatáu absenoldeb, dylai ysgolion ystyried:

- gwerth addysgol posibl yr ymweliad;
- faint o waith ysgol a gollir a sut y gall rhieni a'r ysgol helpu'r plentyn i ddal i fyny ar ôl dychwelyd i'r ysgol;
- paratoi pecyn astudio;
- gofyn i ddisgyblion wneud nodiadau/arsylwadau mewn perthynas â phynciau presennol neu bynciau i ddod yn y dosbarth;
- mynd trwy unrhyw waith sydd wedi'i gwblhau gan y disgybl ar ôl iddo ddychwelyd i'r ysgol;
- rhannu profiad gyda disgyblion eraill - gallai'r athro dosbarth ofyn i'r plentyn ddod â stampiau ac unrhyw nwyddau eraill o'r wlad yr ymwelwyd â hi i'r ysgol. Gellid defnyddio'r eitemau hyn i greu arddangosfa yn y dosbarth.

Mae dogfennau i gefnogi'r gwaith hwn yn Adran 2.

k. Absenoldeb am resymau meddygol dibwys

325. Nid oes disgwyl i ddisgyblion fynychu'r ysgol os nad ydynt yn ddigon iach i wneud hynny o ganlyniad i afiechydon tymor byr, tymor hir neu fynych. Fodd bynnag, ni ddylid eu cadw o'r ysgol os ydynt yn ddigon iach i fynd i wersi neu os ydynt fymryn yn ddi-hwyl mewn ffordd na fydd yn eu hatal rhag cymryd rhan yn eu haddysg. Mae gofyn a fyddai'r afiechyd yn cadw rhieni ac athrawon o'r gwaith yn ffordd ddefnyddiol o ystyried y mater.

326. Dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt system ar waith i alluogi rhieni / gofalwyr i roi gwybod os yw eu plentyn yn absennol oherwydd salwch. Mae'n rhesymol i'r ysgol ofyn beth yw natur y salwch, gofyn i'r rhiant am ba hyd y mae'n disgwyl i'r absenoldeb bara a gwneud trefniadau i'r rhiant ffonio eto os bydd y sefyllfa'n newid.

327. Mae gan ysgolion hawl i ystyried a ddylid derbyn esboniad y rhiant / gofalwr mewn perthynas ag absenoldeb meddygol gan fod yna rai achlysuron pan fydd rhieni'n dweud wrth yr ysgol fod yr absenoldeb yn un meddygol tra'i fod yn un a ganiateir ganddynt. Os yw'r ysgol yn poeni nad yw'r salwch yn bodoli o bosibl neu nad oes angen i'r disgybl fod yn absennol gyhyd, gall ofyn i'r rhiant brofi'r salwch trwy gyflwyno tystiolaeth ychwanegol fel cerdyn apwyntiad.

328. Fodd bynnag, ni ddylai ofyn am dystiolaeth ychwanegol bob tro y bydd disgyblion yn colli ysgol oherwydd salwch. Mae cyfyngu ceisiadau o'r fath i sefyllfaoedd pan fydd yr ysgol yn poeni nad oedd disgybl yn sâl neu fod y salwch yn un dibwys nad oedd yn cyfiawnhau absenoldeb mor hir yn lleihau'r baich gweinyddol ar ysgolion. Dylai ysgolion a staff awdurdodau lleol hefyd fod yn ymwybodol o'r pwysau y gallent ei roi ar systemau apwyntiadau meddygon os byddant yn gofyn am nodyn gan feddyg bob tro y bydd disgyblion yn sâl. Dylent hefyd gofio gwerth cyfyngedig nodiadau o'r fath os na wnaeth meddyg drin y disgybl yn yr achos dan sylw.

329. Dylai ysgolion sicrhau bod polisi clir ar waith i fynd i'r afael ag achosion o absenoldeb mynych gyda salwch yn cael ei roi fel rheswm, ond bod pryder efallai nad yw'r disgybl yn sâl. Mewn rhai ysgolion, gall 10 sesiwn o salwch sy'n ymddangos yn ddi-sail arwain at y disgybl a'r rhiant yn cael cynnig apwyntiad gyda nyrs yr ysgol.

I. Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC)

330. Mae ymchwil wedi dangos mai un o'r ffactorau sydd fwyaf tebygol o roi plant sy'n derbyn gofal (LAC) dan anfantais yw'r amser a gollir yn eu haddysg, yn enwedig wrth symud rhwng ysgolion neu gartrefi. Mae monitro presenoldeb yn allweddol i sicrhau y gall plant gael mynediad i addysg bob amser.
331. Mewn awdurdod lleol, mae angen i sawl asiantaeth gael gwybodaeth am bresenoldeb plant sy'n derbyn gofal, ac mae angen sefydlu dulliau cyfathrebu clir sy'n ystyriol o'r angen am sensitifwydd a chyfrinachedd.
332. Yn ogystal â sicrhau bod gwybodaeth am bresenoldeb yn cael ei chasglu'n ganolog a bod gwybodaeth berthnasol yn sgil ymweliadau cartref yn cael ei chyfleu i'r ysgol a/neu'r gweithiwr cymdeithasol, yr EWS sy'n gyfrifol am ddarparu crynodeb o bresenoldeb plant sy'n derbyn gofal yn fewnol ledled y sir ac i weithwyr cymdeithasol o awdurdodau lleol eraill sy'n gweithredu yn eu rôl fel rhiant corfforaethol.
333. Mae rhai awdurdodau lleol yn cael cymorth annibynnol i hwyluso'r gwaith o gadw llygad ar blant sy'n derbyn gofal. Mae cwmnïau sy'n cynnig gwasanaeth o'r fath i awdurdodau lleol yn cysylltu ag ysgolion ar ran yr awdurdodau lleol bob dydd. Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol, cysylltir â'r gofalwyr i ofyn pam. Cysylltir hefyd â'r gweithiwr cymdeithasol i roi gwybod iddo bod y plentyn yn absennol. Gall adroddiadau gael eu cynhyrchu dros nos, gan restru'r plant a oedd yn absennol y diwrnod blaenorol. Gall yr adroddiad hwn gael ei anfon at gymaint o bartïon ag y dymuna'r awdurdod, sy'n helpu i rannu'r wybodaeth ac yn sicrhau bod pob adran yn gallu cael gafael ar yr un wybodaeth.
334. Mae gan y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE) a'r aelod staff dynodedig mewn ysgol gyfraniad allweddol i'w wneud wrth gadw llygad ar blant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys monitro eu presenoldeb. Bydd Cydgysylltwyr LACE yn ganolog i bolisiâu'r awdurdod lleol ar dderbyn a gwahardd a bydd yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth a nodir yn **Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell 2007**. Yn ôl y ddeddfwriaeth, rhaid cael panel amlasiantaethol, yn cynnwys cydweithwyr perthnasol o'r Gwasanaethau Plant, Iechyd ac Addysg, i drafod y dewisiadau lleoli ar gyfer plant mewn gofal. Er enghraifft, gellir edrych yn fanwl ar drefniadau trafniadaeth fel na fydd teithio'n rhwystr i bresenoldeb mewn ysgol neu leoliad addysgol arall. Dylai'r EWS gyfrannu at y panel.
335. Mae **Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009** yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgol roi blaenoriaeth i dderbyn plant sy'n derbyn gofal a sicrhau y gall unrhyw elfennau addysgol o gynllun plentyn sy'n derbyn gofal gael eu rhoi ar waith yn gyflym. Mae EWOs mewn sefyllfa dda i helpu ysgolion gyda threfniadau pontio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, waeth a ydynt yn cael eu derbyn i'r ysgol neu'n gadael yr ysgol, a chofnodir manylion y trefniadau hyn yn y Cynllun Addysg Bersonol (PEP).

336. Cydgysylltwyr LACE sy'n fwyaf tebygol o fod yn gyfrifol am y dangosyddion perfformiad ar bresenoldeb plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a geir o fewn elfen gwasanaethau cymdeithasol Fframwaith Rheoli Perfformiad yr awdurdod lleol. I'r perwyl hwn, dylai'r EWS ddarparu archwiliad o bresenoldeb a niferoedd plant sy'n derbyn gofal ym mhob darpariaeth addysgol i'r Cydgysylltwyr LACE yn ôl y gofyn yn ystod y flwyddyn ysgol a bob amser ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

337. Mae **adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008** yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir benodi aelod staff dynodedig yn yr ysgol i hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol (gan gynnwys presenoldeb) plant sy'n derbyn gofal sy'n ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol. Caiff yr aelod staff dynodedig ei hyfforddi mewn agweddau allweddol ar bresenoldeb plant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â gwaith monitro dyddiol a gweithredu gweithdrefnau cyswllt cyntaf ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys:

- y math o orchymyn gofal sydd ar waith, gan fod caniatáu i blant sy'n derbyn gofal fynychu teithiau ysgol neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg yn amrywio yn ôl y math o orchymyn gofal sydd ar waith, gall triwantiaeth fod yn demtasiwn os nad yw disgybl wedi cael caniatâd a bod ei ffrindiau ar y daith, er enghraifft;
- pan fo ysgol yn derbyn cais uniongyrchol am le yn yr ysgol i blentyn o awdurdod lleol arall. Weithiau, mae plant awdurdodau lleol eraill yn cael eu gosod mewn ardal gyda gofalwr maeth annibynnol sydd yna'n cyflwyno cais i'r ysgol, hyd yn oed os nad oes cymorth priodol ar gael neu heb yn wybod i'r awdurdod addysg;
- yr wybodaeth a gofnodwyd ar cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC);
- annog presenoldeb da, gan osod targedau lle bo'n briodol mewn ymgynghoriad â'r EWO, y gweithiwr cymdeithasol, y gofalwr maeth a rhieni lle bo'n briodol; a
- hwyluso'r gwaith o gofnodi gwybodaeth am bresenoldeb yn y Cynllun Addysg Personol (PEP). Mae'n ofyniad statudol i bob plentyn sy'n derbyn gofal gael PEP sy'n gosod allan nodau a thargedau addysgol clir ac yn darparu cofnod o welliant a llwyddiant.

m. Addysg yn y cartref o ddewis

338. Ystyr addysg yn y cartref o ddewis yw lle mae rhieni neu warcheidwaid yn penderfynu darparu addysg yn y cartref i'w plant yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol. Nid yw'n golygu addysg yn y cartref a ddarperir gan yr awdurdod lleol na lle mae awdurdod lleol yn darparu addysg heblaw yn yr ysgol. Mae Adran 6 o Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr 47/2006 yn amlinellu canllawiau cyfredol Llywodraeth y Cynulliad ar addysg yn y cartref o ddewis.

Y cefndir cyfreithiol

339. Mae Erthygl 2 o Brotocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi na ddylid gwrthod yr hawl i addysg i unrhyw unigolyn. Wrth ymarfer unrhyw swyddogaethau mewn perthynas ag addysg ac addysgu, bydd y Wladwriaeth yn parchu hawl rhieni i sicrhau bod y cyfryw addysg ac addysgu yn cydymffurfio â'u hargyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol personol.

340. Mae gan rieni hawl i addysgu eu plant yn eu cartrefi cyn belled â'u bod yn bodloni gofynion adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n rhoi dyletswydd ar rieni pob plentyn o oedran ysgol gorfodol i sicrhau ei fod yn derbyn addysg llawn amser effeithlon sy'n addas ar gyfer ei oedran, ei allu a'i ddawn, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo, naill ai trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu fel arall.
341. O dan adran 437 o Ddeddf Addysg 1996, yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i awdurdod lleol gyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol i riant plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n methu profi bod y plentyn yn derbyn addysg addas ac os yw'r awdurdod o'r farn y dylai'r plentyn fynychu ysgol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bob plentyn, waeth a yw wedi mynychu ysgol awdurdod lleol yn yr ardal yn flaenorol ai peidio. Mae'r diffiniad o addysg addas yn un fath â'r diffiniad yn Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, fel y nodir uchod.

Adnabod plant sy'n derbyn addysg yn y cartref o ddewis

342. Mae'n rhaid i rieni plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol sicrhau bod eu henwau'n cael eu dileu o gofrestr yr ysgol pan fyddant yn eu tynnu allan o'r ysgol i'w haddysgu yn y cartref. Os na fyddant yn gwneud hynny, hwyrach y cânt eu herlyn am fethu sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plentyn yn yr ysgol y mae ar ei chofrestr. O dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995, fel y'u diwygiwyd, mae hi'n ofynnol i rieni hysbysu ysgolion yn ysgrifenedig os ydynt yn addysgu eu plant yn y cartref.
343. Nid yw'n ofynnol i rieni roi gwybod i awdurdodau lleol eu bod yn bwriadu addysgu yn y cartref. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i awdurdodau lleol gadw llygad ar grwpiau penodol o blant, er enghraifft:
- y rheini nad ydynt erioed wedi mynychu ysgol a gynhelir
 - y rheini nad ydynt erioed wedi mynychu ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod dan sylw
 - y rheini sydd wedi gorffen addysg gynradd mewn un ysgol ond nad ydynt wedi dechrau addysg uwchradd mewn ysgol arall; a'r
 - rheini y mae'r ysgol y maent wedi bod yn ei mynychu wedi cau.
344. Os bydd rhieni wedi rhoi gwybod i'r awdurdod lleol neu os bydd yr awdurdod lleol wedi dod i wybod bod plentyn wedi'i dynnu o'r ysgol gyda'r bwriad o'i addysgu yn y cartref, dylai'r awdurdod lleol gydnabod ei fod wedi derbyn yr hysbysiad hwn ac ystyried yn gyflym a oes yna unrhyw dystiolaeth, naill ai yng nghofnodion yr awdurdod neu gan wasanaethau neu asiantaethau eraill, sy'n nodi bod y trefniant yn peri unrhyw bryder. Nid yw presenoldeb afreolaidd blaenorol ynddo'i hun yn ddigon i beri pryder. Yn yr achosion hyn, dylai'r awdurdod lleol hysbysu'r awdurdodau statudol priodol yn syth am y pryderon hyn trwy ddefnyddio protocolau sydd wedi hen ennill eu plwyf. Fel arall, dylai'r awdurdod lleol ragdybio bod darpariaeth addysgol effeithlon ar waith, sy'n addas ar gyfer y plentyn, oni bai bod yna dystiolaeth i'r gwrthwyneb. Nid yw Deddf 1996 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ymchwilio a yw rhieni'n cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Adran 7.

Addysg hyblyg

345. Ystyr 'addysg hyblyg' neu 'bresenoldeb hyblyg yn yr ysgol' yw trefniant rhwng y rhiant a'r ysgol lle mae'r plentyn ar gofrestr yr ysgol yn y ffordd arferol, ond lle mae'r plentyn yn mynychu'r ysgol yn rhan-amser; am weddill yr amser, mae'r plentyn yn cael ei addysgu yn y cartref (ar absenoldeb gydag awdurdod o'r ysgol). Weithiau, gwneir hyn fel mesur tymor byr am reswm penodol. Mae addysg hyblyg yn ddewis cyfreithlon cyn belled â bod pennaeth yr ysgol dan sylw ac, mewn llawer o achosion, yr awdurdod lleol hefyd, yn cytuno i'r trefniant.

Polisi awdurdod lleol

346. Argymhellir y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt ddatganiad polisi ysgrifenedig ar blant sy'n derbyn addysg yn y cartref a'u teuluoedd a baratowyd mewn ymgynghoriad â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Hefyd, argymhellir y dylai'r awdurdod lleol allu darparu canllawiau i rieni a gofawyr sy'n gofyn amdanynt. Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol drefnu hyfforddiant ar y gyfraith a dulliau addysgu yn y cartref ar gyfer eu holl Swyddogion Addysg sydd mewn cysylltiad â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn eu hardal. Dylai awdurdodau lleol geisio adeiladu perthnasoedd effeithiol gydag addysgwyr cartref er mwyn diogelu buddiannau addysgol a lles y plentyn neu'r unigolyn ifanc a rhoi cyfle i rieni gael gwybodaeth am wasanaethau iechyd, brechiadau, cyfarwyddyd gyrfaoedd ac ati.

n. Eiriolaeth

347. Llinell gymorth newydd i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru yw Meic. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor ac eiriolaeth fel sy'n briodol trwy linellau ffôn am ddim, negeseuon testun am ddim a negeseua gwib. Bydd yn ategu ac yn cyfeirio at wasanaethau lleol a chenedlaethol eraill ond, ar adegau, efallai y bydd angen i'r gwasanaeth gysylltu â gwasanaeth arall ar ran plentyn neu unigolyn ifanc (gyda'i ganiatâd). <http://www.meiccymru.org>

o. Gwaharddiadau anghyfreithlon (weithiau, cyfeirir atynt fel gwaharddiadau ansyddogol)

Mae gwaharddiad anghyfreithlon yn cyfeirio at:

- benaethiaid neu staff ysgol yn anfon disgyblion adref am resymau disgyblu, ond heb ddilyn y gweithdrefnau sy'n ofynnol ar gyfer gwaharddiad ffurfiol (hyd yn oed os caiff ei wneud gyda sêl bendith rhieni neu ofalwyr)
- disgyblion sy'n cael eu hanfon adref naill ai am gyfnodau byr neu am gyfnodau hirach, amhenodol, sydd weithiau'n golygu na fydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol o gwbl (hyd yn oed os caiff ei wneud gyda sêl bendith rhieni neu ofalwyr)
- dylanwadu neu annog rhieni i dynnu eu plentyn allan o'r ysgol 'yn wirfoddol'.

348. Gall y disgyblion hyn gael eu gosod yn y categori absenoldeb wedi'i awdurdodi neu, mewn rhai achosion, gellir ystyried eu bod yn bresennol ac, yn y pen draw, cânt eu tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol yn anghywir heb unrhyw ysgol arall i'w mynychu. Mae hyn yn anghyfreithlon a dylid defnyddio'r broses wahardd ffurfiol bob amser.

Cyfnod Tawelu

349. Os bydd sefyllfaoedd argyfyngus wedi codi yn ystod y dydd, gall penaethiaid benderfynu anfon disgyblion adref i 'dawelu' am weddill y dydd, heb ddilyn y broses wahardd ffurfiol. Hwyrach y teimlir bod hon yn ffordd addas o reoli ymddygiad y plentyn yn y tymor byr, ac yn well na gwaharddiad ffurfiol. Fodd bynnag, ystyrir hyn hefyd yn waharddiad anghyfreithlon, ac nid oes yna sail gyfreithiol iddo. Ni ellir ei ystyried yn drefniant rheoli mewnlol gan fod hyn yn anwybyddu hawliau'r plentyn, a gallai olygu bod yr ysgol yn agored i her gyfreithiol.

350. Gall cael ei wahardd yn anghyfreithlon neu gael ei anfon adref i 'dawelu' fod yn groes i hawl dynol y disgybl i beidio â chael gwrthod addysg a allai arwain at orchymyn am iawndal yn erbyn yr ysgol pe bai disgybl yn llwyddiannus gyda hawliad o'r fath.

Mae mecanweithiau eraill y gall rhai ysgolion eu defnyddio fel modd o 'wahardd disgyblion yn answyddogol' yn cynnwys:

- yn dilyn gwaharddiad am gyfnod penodol, disgybl yn cadw draw o'r ysgol tra'i fod yn disgwyl cyfweliad ailintegreiddio sydd wedi'i ohirio, a'r disgybl yn methu dychwelyd i'r ysgol o gwbl
- rhieni'n cael gwybod os bydd eu plentyn yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl diwedd y gwaharddiad am gyfnod penodol, y bydd yn cael ei wahardd yn barhaol
- rhieni'n cael eu hannog yn gryf i addysgu eu plentyn yn y cartref er efallai nad ydynt yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau
- gofyn i ddisgyblion aflonyddgar gadw draw o'r ysgol am resymau penodol e.e. dros gyfnod arolygiad ESTYN; a
- disgyblion yn cael eu rhoi ar absenoldeb astudio am gyfnodau hirach na'r hyn a argymhellir mewn canllawiau.

Ffyrrdd y gall yr EWS nodi gwaharddiadau anghyfreithlon

351. Mae'r ffaith nad yw gwaharddiadau anghyfreithlon yn cael eu cofnodi'n golygu ei bod hi'n anodd nodi achosion o'r fath. Fodd bynnag, gellid defnyddio'r dulliau canlynol i nodi gwaharddiadau anghyfreithlon:

- **Sefydlu llinellau cyfathrebu ffurfiol** gydag asiantaethau eraill a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod gwybodaeth am blant sy'n absennol o'r ysgol yn cael ei rhannu.
- **Gall dadansoddi data ysgolion unigol** ac archwilio patrymau sy'n peri pryder gynnwys awdurdodau lleol yn monitro patrymau fel nifer y disgyblion nad ydynt o oedran pontio arferol sy'n chwilio am ysgolion eraill neu fylchau mewn data derbyn rhwng y dyddiad y mae disgyblion yn gadael un ysgol a'r dyddiad y mae'n gwneud cais am le mewn ysgol arall. Yn ogystal, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod protocolau ar waith fel y gallant ddilyn disgyblion sy'n cael eu tynnu oddi ar gofrestr ysgol, yn enwedig os nad oes ganddynt le mewn ysgol neu ddarpariaeth amgen.
- **Dylai cydweithio agos rhwng y Gwasanaeth Lles Addysg ac ysgolion** gynnwys gwirio cofrestr ysgol yn gyfnodol, paru disgyblion â thiciau ar y gofrestr ac ymchwilio i resymau dros absenoldeb wedi'i awdurdodi, addysg oddi ar y safle neu fathau

eraill o weithgarwch addysg cymeradwy. Gall yr awdurdod lleol hefyd ddefnyddio meddalwedd sy'n caniatáu mynediad canolog i gofrestri er mwyn craffu ar batrymau a chymryd camau dilynol. Yn ogystal, dylai'r EWS fynd ar drywydd gwybodaeth anffurfiol (gan rieni, disgyblion, ymweliadau cartref ac ati) am ddisgyblion sy'n absennol o'r ysgol.

- **Rhoi cyfle i'r cyhoedd hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw achosion posibl o wahardd answyddogol.** Gallai hyn gynnwys annog rhieni i adrodd achosion o wahardd anghyfreithlon i'r awdurdod lleol.
- Hwyrach y bydd **cyrchoedd triwantiaid** yn nodi disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn anghyfreithlon a chaiff manylion y disgybl eu darparu i'r awdurdod lleol.

Camau Nesaf

352. Os caiff disgybl ei wahardd yn anghyfreithlon, mae'n annhebygol y bydd darpariaeth addysgol wedi'i threfnu ar ei gyfer. Gellir defnyddio'r polisiau a'r arferion canlynol i fynd i'r afael â gwaharddiadau anghyfreithlon lle cânt eu nodi:

- hyfforddi rheolwyr a llywodraethwyr ysgolion, a chynnal cyfarfodydd EWO gyda phob ysgol i'w hatgoffa o'u rhwymedigaethau
- y Swyddog Addysg Uwch i anfon llythyr i'r ysgol(ion) perthnasol yn atgoffa penaethiaid o'u rhwymedigaethau o dan y gyfraith
- adborth ffurfiol i bob ysgol mewn awdurdod lleol ar ganfyddiadau yn sgil data neu wiriadau o'r gofrestr
- penaethiaid i herio/cefnogi eu cymheiriaid
- ymweliadau dilynol ag ysgol(ion) perthnasol, ynghyd â chynllun gweithredu.

353. Mae canllawiau pellach ar reoli gwaharddiadau ar gael yn Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, Cylchlythyr Rhif 001/2004.

Mae'r Rheoliadau ar Waharddiadau, OS 2002/3178, ar gael yn:
<http://www.opsi.gov.uk/si/si2002/20023178.htm>

p. Cyfrinachedd / Cwynion

354. Mae'r EWS wedi ymrwymo i barchu cyfrinachedd defnyddwyr gwasanaethau. Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau hawl i benderfynu pa wybodaeth yr hoffent ei rhannu â'r tîm ac ni ddylid datgelu manylion personol unrhyw ddefnyddwyr gwasanaethau i asiantaethau allanol heb eu caniatâd ymlaen llaw, ac eithrio o dan rai amgylchiadau. Dim ond os bydd unrhyw wybodaeth a dderbynnir gan y tîm yn peri pryder am ddiogelwch neu les unigolyn y gellir torri ar gyfrinachedd defnyddwyr gwasanaethau. Dylai holl aelodau'r tîm egluro'r cyfyngiadau ar y pwynt cyswllt cyntaf mewn perthynas â hunan-niwed neu niwed i eraill.

356. Dylai pob aelod staff gytuno a chydymffurfio â pholisi cyfrinachedd ei awdurdod lleol a chael ei hyfforddi i gynnal cyfrinachedd a darparu gwasanaeth diduedd yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Mae siart llif enghreifftiol ar gyfer gweithdrefnau yn Adran 2.